



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# **Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2020**

Gorffennaf 2020

CP 277





Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

## **Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2020**

Cyflwynwyd i'r Senedd  
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder  
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorffennaf 2020



© Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Lle'r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/official-documents](http://www.gov.uk/official-documents)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn [cics-review@justice.gov.uk](mailto:cics-review@justice.gov.uk).

ISBN 978-1-5286-2080-2

CCS0720880010-001 07/20

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibrau a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Am yr ymgynghoriad hwn

- I:** Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer y cyhoedd, dioddefwyr a goroeswyr troseddau, grwpiau dioddefwyr, academwyr ac arbenigwyr clinigol. Byddwn hefyd yn croesawu barn gweithwyr proffesiynol ym meysydd cyfiawnder troseddol, iechyd, lles, awdurdodau lleol a'r sector elusennau.
- Cyfnod:** Rhwng 16/07/20 a 09/10/20
- Ymholiadau (yn cynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat gwahanol) i:** Vulnerability Policy Unit  
Family and Criminal Justice Policy Directorate  
Ministry of Justice  
7<sup>th</sup> Floor  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
E-bost: [cics-review@justice.gov.uk](mailto:cics-review@justice.gov.uk)
- Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 09 Hydref 2020 i:  
Vulnerability Policy Unit  
Family and Criminal Justice Policy Directorate  
Ministry of Justice  
7<sup>th</sup> Floor  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
E-bost: [cics-review@justice.gov.uk](mailto:cics-review@justice.gov.uk)
- Papur ymateb:** Mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn i gael ei gyhoeddi yn Ionawr 2021 yn:  
<https://consult.justice.gov.uk/>

# Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb gweithredol	5
Cyflwyniad	11
Adran 1: Cefndir	12
Adran 2: Cwmpas y Cynllun	15
Adran 3: Rheolau cymhwystra	27
Adran 4: Dyfarndaliadau am anafiadau	36
Adran 5: Gwella gweithrediadau	61
Cydraddoldeb	65
Holiadur	66
Amdanoch chi	69
Manylion cyswllt/Sut i ymateb	70
Egwyddorion ymgynghori	72
Atodiad A: Datganiad Cydraddoldeb	73



# Rhagair

Nid oes yr un swm o ddigollediad a all wneud iawn am y niwed a'r dioddef a achosir i ddiodefwyr troseddau treisgar. Ers eu cychwyn, mae Cynlluniau a ariannwyd gan y wladwriaeth wedi ceisio helpu'r diodefwyr hynny a anafwyd yn ddifrifol ac a all fod heb ffynonellau eraill y gallant droi atynt am gymorth ariannol. Dyma un o nodau'r Cynllun hwn hyd heddiw, ac rwyf yn falch mai hwn yw un o'r cynlluniau digolledu mwyaf hael yn y byd.

Yn 2018, yn y Strategaeth Dioddefwyr gyntaf erioed ar draws llywodraeth, ymrwymodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder i gynnal adolygiad trwyadl o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (y Cynllun). Ym Maniffesto'r Blaid Geidwadol yn 2019 gwnaethom ymrwymiad i gynorthwyo diodefwyr troseddau. Mae'r adolygiad hwn yn rhan o'n hymrwymiad i ddiodefwyr, ochr yn ochr ag adolygu'r Cod Dioddefwyr a'r ystyriaeth i Gyfraith Dioddefwyr maes o law. Mae'n cydnabod y rhan bwysig y mae digolledu ariannol yn ei chwarae wrth sicrhau bod diodefwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ymadfer ar ôl eu profiad.

Roeddem hefyd wedi cyhoeddi, yn rhan o'r Strategaeth Dioddefwyr, y byddem yn diddymu "rheol yr un to" cyn 1979, a oedd yn gwrthod digolledu rhai diodefwyr a oedd wedi cydfyw â'r un a ymosododd arnynt cyn 1979. Rydym eisoes wedi cyflawni hyn; mae diodefwyr sydd heb erioed wneud cais am ddigollediad, oherwydd bodolaeth y rheol hon o bosibl, yn gallu gwneud hynny nawr. Rydym hefyd wedi darparu y bydd diodefwyr y gwrthodwyd eu ceisiadau o'r blaen o dan y rheol hon, yn gallu ailymgeisio – a sicrhawyd bod £10.9 miliwn ar gael i ddiodefwyr a wnaeth gais o dan y Cynllun diwygiedig yn y cyfnod hyd at 5 Ebrill 2020.

Mae'r digolledu sydd ar gael am anafiadau troseddol yn rhan o'r gwasanaethau cymorth arbenigol a chyffredinol ehangach sydd ar gael i ddiodefwyr troseddau treisgar. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu sut bydd y Cynllun yn gallu gweithio'n well i wasanaethu rhai o'r diodefwyr sydd fwyaf agored i niwed ar un o'r adegau mwyaf anodd yn eu bywyd. Ein bwriad yw peidio â thynnu arian o'r Cynllun a byddai ein cynigion yn sicrhau ei fod yn aros yn gynaliadwy.

Mae'r cynigion sydd yn yr ymgynghoriad hwn wedi'u seilio ar egwyddorion allweddol a fu'n rhan annatod o'r Cynllun ac y bydd yn rhaid eu cadw yn fy marn i: sef ei fod yn gynllun cyffredinol sydd ar gael i gynorthwyo'r holl ddiodefwyr cymwys a gafodd yr anafiadau mwyaf difrifol o ganlyniad i droseddau treisgar, a bod y digolledu'n gydnabyddiaeth bwysig a chyhoeddus o'u diodeffaint.

Rhaid i'r Cynllun gadw cydbwysedd rhwng yr ystyriaeth i anghenion ymgeiswyr unigol a set o reolau a meini prawf cymhwysra sy'n deg a thryloyw. Mae'n gwneud hyn yn dda at ei gilydd. Mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA) yn delio â mwy na 30,000 o geisiadau bob blwyddyn, a chafodd sgôr uchel o 95% am fodlonrwydd gan ymgeiswyr a fu mewn cysylltiad ag ef yn 2018/19.



Fodd bynnag, wrth gydnabod cryfderau'r Cynllun presennol, mae rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at feysydd lle nad yw'n gwasanaethu dioddefwyr mor effeithiol ag y gallai o bosibl. Rydym wedi gwrandao ar eu hadborth ac wedi ymchwilio iddo. Rydym wedi ymdrechu i ddeall yn well sut mae'r Cynllun yn gweithredu ac yn cael ei roi ar waith o safbwynt rhywun sydd wedi profi trosedd treisgar ac wedi'i adael i ddiodeff y trawma o anaf difrifol. Rydym wedi asesu beirniadaethau a chanfyddiadau, gan bennu diwygiadau a fydd, yn fy marn i, yn ymateb i bryderon ac yn gwella profiad dioddefwyr sy'n gwneud cais i'r Cynllun.

Drwy'r adolygiad rydym wedi edrych ar y ffordd y mae'r Cynllun yn rhoi sylw i dueddiadau mewn troseddau treisgar ac agweddau o fewn cymdeithas. O ganlyniad i'r sgwrs genedlaethol anodd ond angenrheidiol sy'n digwydd am gam-drin rhywiol nad yw'n ddiweddar, cafwyd dealltwriaeth gynyddol bod y rhain yn droseddau arswydus y mae ar ddiodeffwyr angen cymorth arbenigol i ddelio â nhw. Rwyf yn rhoi sylw gofalus i bryderon a fynegwyd gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, gan Gomisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr a chan eraill am y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol i wasanaethau trais rhywiol a bydd y strategaeth drawslywodraethol sydd i ddod ar gam-drin plant yn rhywiol yn hyrwyddo ymateb system gyfan i fynd i'r afael â phroblemau er mwyn sicrhau bod diodeffwyr a goroeswyr yn gallu cael gafael ar y cymorth sy'n briodol iddyn nhw, ar yr adeg briodol.

Un o'r prif ystyriaethau yn yr adolygiad hwn oedd sut i wneud y Cynllun yn symlach ac yn fwy tryloyw. Rwyf am ei gwneud yn haws i ddiodeffwyr ddeall ac ymwneud â'r Cynllun, gan adeiladu ar sail y gwaith rhagorol y mae CICA yn ei wneud eisoes i symleiddio gwasanaethau ymgeisio dros y ffôn ac ar-lein. Mae CICA wedi gwella ei brosesau a'i ddefnydd o ddisgresiwn, lle'r oedd caniatâd i wneud hynny, er mwyn sicrhau ei fod yn trin ymgeiswyr o'r fath mewn ffordd sy'n sensitif ac yn gyson â'u hanghenion a natur eu profiadau.

Mae'r adolygiad wedi dangos i mi hefyd fod modd a rheidrwydd i ni wneud rhagor i hybu ymwybyddiaeth o'r Cynllun. Mae'r Cod Dioddefwyr diwygiedig yn cynnig cyfle i ddangos yn glir y lefel gwasanaeth sylfaenol y gall diodeffwyr ei disgwyl. Bydd yn rhoi esboniad clir a syml i ddiodeffwyr am eu hawl i gael gwybodaeth am ddigolledu ac yn eu cyfeirio at y Cynllun yn ogystal â dulliau eraill o gael iawn ariannol.

Mae'r diwygiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer o agweddau o'r Cynllun yn gweithio'n dda, a bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn cael cymorth da. Er hynny, mae'r ymgynghoriad yn cydnabod bod meysydd i'w gwella, yn ogystal â meysydd lle mae'n anodd sicrhau cydbwysedd mewn perthynas â rheolau cymhwystra'r Cynllun. Edrychaf ymlaen at gael eich barn.



**Alex Chalk AS**

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol

# Crynodeb gweithredol

1. Mae dioddef o ganlyniad i unrhyw fath o drosedd yn gallu bod yn brofiad trawmatig, ond os byddwch yn cael anaf corfforol neu feddyliol difrifol o ganlyniad i drosedd treisgar, gall yr effaith fod hyd yn oed yn fwy dwys a pharhaus. Nid oes unrhyw swm o arian a all ddigolledu dioddefwyr yn llwyr am eu colled neu ddioddefaint. Digolledu, ynghyd â'r gallu i gael cymorth emosiynol ac ymarferol, yw un ffordd y mae cymdeithas yn gallu cydnabod y niwed y mae dioddefwyr wedi'i brofi a'u helpu i ymadfer.
2. Pwrpas sylfaenol y Cynllun yw cydnabod, drwy ddigolledu, y niwed a gafodd dioddefwr sydd wedi'i anafu o ganlyniad i drosedd treisgar. Mae'r Cynllun yn un cyffredinol a rhaid iddo weithio'n gyfartal i holl ddioddefwyr troseddau treisgar. Er cydnabod y bydd pob unigolyn a phob achos yn wahanol, mae'n hanfodol bod yr holl geisiadau'n cael eu hasesu ar sail yr un meini prawf a'r un tariffau anafiadau. Mae hyn yn sicrhau na fydd hierarchaeth o ddioddefwyr, bod modd gweinyddu'r Cynllun, a bod arian y trethdalwyr yn mynd at y dioddefwyr hynny a gafodd yr anafiadau mwyaf difrifol. Lle bynnag y bo modd, anogir dioddefwyr i chwilio am ffyrdd eraill i gael cydnabyddiaeth ac iawn ariannol yn gyntaf, gan adael y Cynllun yn olaf.
3. Yn y Strategaeth Dioddefwyr drawslywodraethol, a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ym Medi 2018, roeddem wedi nodi ein hymrwymiad i wneud rhagor dros ddioddefwyr ar bob cam yn y system cyfiawnder troseddol. Yn rhan o hynny, roedd ymrwymiad i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol.
4. Adolygwyd y Cynllun ddiwethaf yn 2012. Roeddem wedi ymrwymo i adolygu'r Cynllun cyfan, i sicrhau ei fod yn cadw'n wastad â natur gyfnewidiol troseddau treisgar, ac i ganfod lle y gellid gwneud mwy i helpu dioddefwyr i ymadfer. Adolygwyd y Cynllun ddiwethaf yn 2012 ac ers hynny ni chafwyd newid amlwg yn natur troseddau treisgar ym Mhrydain Fawr. Gwaetha'r modd, rydym hefyd wedi gweld mwy o ddigwyddiadau terfysgol yn y wlad hon ac mewn gwledydd tramor.
5. Cyhoeddwyd Cylch Gorchwyl yr adolygiad yn Rhagfyr 2018 ac roedd yn nodi y byddai'r adolygiad yn ystyried a yw'r Cynllun yn parhau'n addas i'w ddiben, yn adlewyrchu natur gyfnewidiol troseddau treisgar ac yn helpu dioddefwyr i ymadfer mewn ffordd effeithiol.<sup>1</sup> Roedd hefyd yn egluro y byddai'r adolygiad yn canolbwyntio ar y Cynllun ei hun, ac nad oedd perfformiad CICA yn dod o fewn cwmpas yr adolygiad; y rheswm am hyn yw bod CICA yn asiantaeth weithredol a'i fod yn gweinyddu'r Cynllun yn annibynnol. Mae

<sup>1</sup> [http://data.parliament.uk/DepositedPapers/Files/DEP2018-1283/terms\\_of\\_reference\\_CICS\\_Review.pdf](http://data.parliament.uk/DepositedPapers/Files/DEP2018-1283/terms_of_reference_CICS_Review.pdf)

ymwybyddiaeth o'r Cynllun ymysg dioddefwyr y tu allan i gwmpas yr adolygiad hefyd, gan fod hyn yn cael ei ystyried yn rhan o waith ehangach i wella'r Cod Dioddefwyr.


6. Yn benodol, mae'r adolygiad wedi ystyried y diffiniad o drosedd treisgar i ddibenion digolledu, y rheolau cymhwysra presennol, a'n dull o benderfynu dyfarndaliadau am anafiadau; rydym hefyd yn ystyried sut bydd y cynigion ar gyfer newid yn gallu sicrhau bod y Cynllun yn parhau'n ariannol gynaliadwy yn y dyfodol.

## Yr adolygiad

7. Mae'r adolygiad o'r Cynllun wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol, sydd hefyd yn sail i'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon:
  - Bod digolledu'n cynnig cydnabyddiaeth bwysig o'r niwed a brofir gan ddiodefwyr troseddau treisgar;
  - Bod digolledu'n rhan bwysig o gymorth gan lywodraeth i ddiodefwyr troseddau treisgar, sydd hefyd yn cynnwys gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol, a chymorth emosiynol ac ymarferol;
  - Bod digolledu i gael ei ddiogelu ar gyfer y rheini sy'n profi'r effaith fwyaf difrifol o'u hanafiadau, yn cynnwys lle nad yw'r anafiadau hynny'n amlwg ar y pryd neu lle nad yw eu heffeithiau'n hawdd eu mesur;
  - Bod y Cynllun yn un y troir ato olaf, sy'n cynnig digolledu diodefwyr troseddau treisgar sydd heb allu ceisio digollediad drwy ffyrdd eraill; a
  - Bod angen i'r Cynllun fod yn fforddiadwy ac yn ariannol gynaliadwy er mwyn parhau i ddigolledu diodefwyr troseddau treisgar.
8. Mae'r penderfyniad i ymgeisio am ddigollediad yn ddewis personol i'r diodefwyr eu hunain. Drwy'r adolygiad, rydym am sicrhau bod y Cynllun yn cadw cydbwysedd priodol ar gyfer diodefwyr rhwng symrlwydd a'r angen i ddarparu ar gyfer pob math o sefyllfaoedd ac amgylchiadau mewn hawliadau penodol. Rydym am fod yn sicr hefyd, mewn unrhyw ddiwygiadau a gynigiwn, na fyddwn yn creu hierarchaeth o ddiodefwyr yn anfwriadol; ac y gellir parhau i wneud penderfyniadau am ddigolledu mewn ffordd gyson, deg a thryloyw i'r holl ddiodefwyr.
9. Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng yr uchelgais hwn a heriau ariannol sy'n parhau. Un o'n hamcanion ar gyfer yr adolygiad hwn yw sicrhau y bydd y Cynllun yn ariannol gynaliadwy, er mwyn parhau i ddigolledu'r rheini sy'n diodef yr anafiadau mwyaf difrifol o ganlyniad i droseddau treisgar. Tra byddwn yn ceisio sicrhau bod sail ariannol gynaliadwy i'r Cynllun, bydd angen cofio na ellir gwybod beth fydd maint y galw ar y Cynllun yn y dyfodol.
10. Nid yw perfformiad gweithredol CICA nac ymwybyddiaeth diodefwyr o'r Cynllun yn dod o fewn cwmpas yr adolygiad hwn. Er hynny, mae deall profiadau diodefwyr wrth wneud hawliad am ddigolledu (neu wrth ystyried gwneud hynny) wedi bod yn ganolog

wrth geisio deall y ffordd y mae darpariaethau'r Cynllun yn effeithio ar ddiodefwyr troseddau treisgar, ac wrth ystyried a oes angen cymryd camau pellach neu newid y dull o weithredu.

11. Lle'r oedd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i'r casgliadau y daethom iddynt, rydym wedi'u disgrifio'n glir yn y papur ymgynghori. Rydym hefyd yn darparu rhagor o fanylion am y ffordd y mae CICA wedi ystyried yr heriau hyn ac ymateb iddynt drwy wella ei arferion yn Adran 5 o'r ddogfen hon. Mewn rhai amgylchiadau, bydd yr heriau a wynebir gan hawlwy'r yn galw am adolygu rhannau eraill o'r system cyfiawnder troseddol, ac mae'r rhain y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn. Lle'r ydym yn credu bod hyn yn wir, rydym wedi nodi hynny.
12. Er mwyn cyfrannu i'r adolygiad, rydym wedi cynnal dadansoddiad manwl o tua 75,000 o hawliadau a gafodd CICA rhwng 1 Ionawr 2016 a 1 Ionawr 2019. Mae rhagor o fanylion am gyfyngiadau'r set ddata hon yn yr Asesiad o Effaith.
13. Drwy ddadansoddi'r data hyn am y llwyth achosion, roeddem yn gallu ffurfio darlun manwl o weithrediad y Cynllun ac o effeithiau gwahanol reolau ar ddiodefwyr troseddau treisgar. Rydym yn deall yn well pa anafiadau y gwneir hawliadau amdanynt; roedd mwyafrif yr achosion, 65%, yn ymwneud ag anafiadau a gafwyd o ganlyniad i ymosod ag arf neu heb arf. Anafiadau rhywiol oedd 25% o'r achosion, roedd 4% pellach yn ymwneud â thrais domestig a theuluol, a 5% yn ddigwyddiadau o fathau eraill.<sup>2</sup> Mewn rhai meysydd, mae'r dadansoddiad o'r data wedi dangos nad oes sail i feirniadaethau am y Cynllun.



14. Rydym wedi canfod bod y set ddata a ddadansoddwyd yn dangos bod y Cynllun yn gweithredu fel y bwriadwyd ar gyfer mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr. Mae gweithrediadau'r Cynllun yn gweithio'n dda hefyd. Yn 2018-19, cafodd CICA sgôr uchel o 95% am wasanaethau i gwsmeriaid, tra oedd y cyfraddau am adolygu ac apelio yn

<sup>2</sup> Nid yw canrannau'n adio i 100% am eu bod wedi'u talgrynnu.

isel, yn 21% a 6% yn y drefn honno.<sup>3</sup> Mae hyn yn groes i honiadau nad yw'r Cynllun yn gweithio'n dda a bod nifer mawr o ymgeiswyr yn anfodlon.

15. Er bod hynny'n gadarnhaol, rydym yn cydnabod bod diffyg ymwybyddiaeth o'r Cynllun. Mae'n bosibl bod ei gymhlethdod yn cymhell rhai dioddefwyr i beidio â gwneud cais, er bod CICA yn cynnig cymorth a'i fod yn barod i gymryd cais dros y ffôn gan y rheini sy'n cysylltu ag ef. Mae'r meini prawf cymhwysra wedi'u bwriadu i fod yn borth at ddigolledu a ariennir gan y trethdalwr, a gall rhai dioddefwyr eu gweld yn rhwystr os nad ydynt yn bodloni'r gofynion am gymhwysra i gael dyfarndaliad.
16. Credwn fod lle i wella rhai agweddau ar y Cynllun er mwyn darparu gwell cymorth a phrofiad i ymgeiswyr. Rydym wedi siarad â sefydliadau ac unigolion allweddol sydd â phrofiad o'r Cynllun neu ddiddordeb parhaol ynddo.

## Ein dull o weithredu

17. Rydym wedi gwrandao'n ofalus ar sefydliadau sy'n cynrychioli dioddefwyr, a hefyd ar y dioddefwyr eu hunain. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i gyfrannu eu barn drwy weithdai a chyfarfodydd a thrwy ysgrifennu atom. Yn ogystal â hyn, rydym wedi ystyried y pwyntiau a godwyd a'r argymhellion a wnaed gan gyn-Gomisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr y Farwnes Newlove yn ei hadroddiad am ddigolledu,<sup>4</sup> ac wedi rhoi sylw i'r canfyddiadau cynnar gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, ac wedi edrych ar y materion a godwyd gan y Fonesig Vera Baird Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr,<sup>5</sup> y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Farwolaethau mewn Gwledydd Tramor, Gwasanaethau Consylaidd a Chymorth<sup>6</sup> a'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Oedolion sydd wedi Goroesi Cam-drin Rhywiol yn ystod Plentynod yn eu hadroddiadau am laddiadau mewn gwledydd tramor a cham-drin plant yn rhywiol, yn y drefn honno. Hefyd, rydym wedi ystyried ymchwil academaidd mewn perthynas â'n cynlluniau digolledu domestig a chynlluniau tebyg mewn gwledydd tramor.
18. Yn ogystal â hyn, rydym wedi edrych ar faterion a gododd yn ystod cyfnod yr adolygiad. Yn dilyn erlyn Carl Beech yn 2019 wedi iddo gael dyfarndaliad drwy dwyll o

<sup>3</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Awdurdod Iawndal am Anafiadau Troseddol 2018-9 - [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/83966/6/6.5786\\_CICA\\_ARA-2018-19\\_FINAL\\_250919\\_TagsFixed.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/83966/6/6.5786_CICA_ARA-2018-19_FINAL_250919_TagsFixed.pdf)

<sup>4</sup> 'Compensation without Re-traumatisation: The Victims' Commissioner's Review into Criminal Injuries Compensation, Ionawr 2019 - <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/compensation-without-re-traumatisation-the-victims-commissioners-review-into-criminal-injuries-compensation/>

<sup>5</sup> Struggling for Justice: Entitlements and Experiences of Bereaved Families Following Homicide Abroad, Hydref 2019 - <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/struggling-for-justice-entitlements-and-experiences-of-bereaved-families-following-homicide-abroad/>

<sup>6</sup> All-Party Parliamentary Group on Deaths Abroad, Consular Services and Assistance Report 2019: Why Families in the UK Deserve Better and What Can Be Done - <http://hannahbardellmp.scot/wp-content/uploads/2019/11/The-All-Party-Parliamentary-Group-on-Deaths-Abroad-Consular-Services-and-Assistance-Report-2019.pdf>

dan y Cynllun, rydym wedi adolygu mesurau diogelu rhag twyll yn y Cynllun a'r camau y mae CICA yn eu cymryd i ganfod twyll ac adennill dyfarndaliadau lle bo angen. Hefyd, yn dilyn cyflwyno Deddf Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys (Troseddau) yn 2018, rydym wedi ystyried sut mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer gweithwyr y gwasanaethau brys sydd wedi dioddef o ganlyniad i droseddau treisgar wrth eu gwaith.

19. Wrth ystyried newidiadau, rydym wedi asesu'r ffactorau canlynol: symrlwydd a thryloywder; gwell profiadau a chanlyniadau i hawlwyd; fforddiadwyedd a chynaliadwyedd ariannol; goblygiadau i weithrediadau; ac a ellir cymhwyso newidiadau yn deg a chyson ar draws y Cynllun heb gael effaith anghymesur ar unrhyw grŵp penodol.

## Prif ganfyddiadau a chynigion

20. Clywsom heriau i'r perwyl nad yw'r Cynllun yn addas i'w ddiben, ei fod yn gymhleth heb fod angen, a bod y rheolau cymhwysra yn rhy gaeth ac nad ydynt yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth well sydd gennym o effeithiau rhai troseddau treisgar.

21. Rydym wedi dadansoddi nifer mawr o hawliadau a benderfynwyd gan CICA dros gyfnod o dair blynedd, er mwyn deall sut mae rheolau cymhwysra a gofynion y Cynllun wedi'u cymhwyso. Byddwn yn cyfeirio at y dystiolaeth a gasglwyd yn yr adrannau manwl sy'n dilyn ac yn dangos sut mae hyn wedi cyfrannu i'n cynigion o blaid neu yn erbyn newid, a lle mae wedi ein harwain i chwilio am ragor o dystiolaeth.

22. Yn **Adran 1** rydym yn amlinellu cefndir y Cynllun, a pham rydym yn adolygu'r Cynllun a'i egwyddorion sylfaenol. Rydym yn edrych ar beth fydd yn digwydd yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, ac yn disgrifio ein dull o weithredu a'r gwaith rydym wedi'i gyflawni yn yr adolygiad.

23. Yn **Adran 2** rydym yn ystyried pwrpas a chwmpas y Cynllun a sut y gallai hyn effeithio ar unigolion mewn ffyrdd gwahanol. Rydym yn edrych ar ddiffiniad y Cynllun o drosedd treisgar a lle byddai'n gallu cau allan ddiodefwrwr rhai mathau o drosedd. Rydym hefyd yn ystyried beth yw effeithiau darpariaethau presennol y Cynllun ar ddiodefwrwr cam-drin plant yn rhywiol a diodefwrwr terfysgaeth. Rydym yn gofyn am farn am y canlynol:

- Yr iaith sy'n briodol ar gyfer yr ymagwedd at gydsyniad sydd ar wyneb y Cynllun;
- Y rhinweddau mewn sefydlu cynllun digolledu penodol ar wahân ar gyfer diodefwrwr terfysgaeth gartref ac mewn gwledydd tramor; a
- Deddfu ar gyfer digolledu teuluoedd a gafodd brofedigaeth yn dilyn lladdiadau mewn gwledydd tramor.

24. Yn **Adran 3** rydym yn amlinellu ein hystyriaethau a'n cynigion ar y rheolau cymhwysra presennol, gan fyfyrion ar bwmpas y Cynllun, sef digolledu'r rheini sydd wedi cael yr anafiadau mwyaf difrifol o ganlyniad i droseddau treisgar. Rydym yn ystyried yr

effeithiau posibl o newidiadau mewn rheolau cymhwysra ar allu'r Cynllun i ddarparu ar gyfer holl ddiodefswyr troseddau treisgar. Rydym yn gofyn am farn am y canlynol:

- Ein cynnig i ddileu'r rheol bresennol ar oedolion sy'n byw "dan yr un to" o'r Cynllun.

25. Yn **Adran 4** rydym yn ystyried strwythur presennol y dyfarndaliadau a thariffau. Yn benodol, rydym yn ystyried a oes modd delio mewn ffordd symlach â dyfarndaliadau am anafiadau mewn ymateb i bryderon rhanddeiliaid bod y strwythur tariffau presennol yn gymhleth heb fod angen ac yn anodd ei ddefnyddio. Rydym yn ystyried hawliadau am anafiadau meddyliol sy'n achosi anabledd; taliadau mewn achosion lle cafwyd marwolaeth; y ffordd y mae'r Cynllun yn rhyngweithio â thaliadau digolledu eraill; a thaliadau eraill fel rhai am golli enillion. Rydym yn gofyn am farn am y canlynol:

- Newidiadau mewn digolledu am anaf meddyliol;
- Ffyrdd i symleiddio'r tariff anafiadau: sydd wedi'i rannu'n Rhan A – anafiadau corfforol a meddyliol a Rhan B – cam-drin rhywiol a chorfforol a thaliadau eraill;
- Newidiadau arfaethedig mewn taliadau sydd ar gael i deuluoedd mewn profedigaeth mewn achosion angheuol; a
- Newidiadau posibl yn y Gronfa Galedi.

26. Yn **Adran 5** rydym yn amlinellu sut mae CICA yn gwneud gwelliannau drwy'r amser yn ei brosesau ac yn hygyrchedd y Cynllun, er mwyn rhoi cymorth gwell i ddiodefswyr ac ymateb i'w hanghenion a'u profiadau.

## **Datganiad cydraddoldeb**

27. Mae Datganiad Cydraddoldeb yn Atodiad A. Rydym yn gofyn am farn am y canlynol:

- Effeithiau ein cynigion ar gydraddoldeb

# Cyflwyniad

28. Mae'r papur ymgynghori hwn yn amlinellu cynigion diwygio ar gyfer yr adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (y Cynllun). Mae'r adolygiad yn ceisio sicrhau gwell mynediad at ddigolledu i ddiodefwyr troseddau treisgar gan ofalu bod y Cynllun yn aros yn fforddiadwy ac yn ariannol gynaliadwy. Mae'r ymgynghoriad wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer y rheini sydd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, sef cwmpas daearyddol y Cynllun. Bydd o ddiddordeb arbennig i ni glywed gan ddiodefwyr a goroeswyr, grwpiau diodefwyr, academwyr ac arbenigwyr clinigol. Byddwn hefyd yn falch o glywed barn gweithwyr proffesiynol ym meysydd cyfiawnder troseddol, iechyd a lles ac mewn awdurdodau lleol a'r sector elusennau.
29. Ar gyfer pob un o'r meysydd sy'n cael ei drafod yn yr adolygiad, byddwn yn amlinellu'r sefyllfa bresennol ac yn nodi'r achos o blaid newid. Byddwn hefyd yn nodi lle mae cysylltiadau â mentrau llywodraeth eraill neu â'r ddarpariaeth ehangach o gefnogaeth ymarferol, emosiynol ac ariannol i ddiodefwyr lle maent yn berthnasol.
30. Gan fod yr adolygiad wedi dechrau, mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn wedi'u datblygu i wahanol raddau ac mae'r cwestiynau sydd gyda nhw yn adlewyrchu hyn – er enghraifft, mewn rhai byddwn yn gofyn am farn ar gynigion penodol, ac mewn eraill galledd ofyn am ragor o dystiolaeth er mwyn deall y mater yn well. Nid ydym yn disgwyl y bydd pob ymatebydd yn ateb pob cwestiwn ac rydym yn gofyn i chi ateb dim ond y rheini sy'n berthnasol i'ch profiad neu arbenigedd.
31. Bydd papur ymgynghori Cymraeg ar gael cyn hir yn <https://consult.justice.gov.uk/>
32. Disgwylir y bydd rhai o'r cynigion yn arwain at gostau i'r sector cyhoeddus, tra bydd disgwyl i gynigion eraill arwain at arbedion i'r sector cyhoeddus. Gellir canfod cyfuniadau o gynigion a fyddai bron yn niwtral o ran costau net i'r sector cyhoeddus. Ein bwriad wrth gynnig diwygiadau i'r tariff yw na fyddwn yn cymryd arian o'r Cynllun. Byddai'r cynigion yn sicrhau bod y Cynllun yn gynaliadwy. Mae Asesiad o Effaith wedi'i atodi a byddwn yn croesawu sylwadau arno.



## Adran 1: Cefndir

33. Mae cynllun digolledu gwladwriaethol ar gyfer dioddefwyr troseddau treisgar wedi bod ar gael ym Mhrydain Fawr ers 1964. Yn wreiddiol, roedd yn gynllun anstatudol a oedd yn gwneud dyfardaliadau ar sail iawndal y gyfraith gyffredin; daeth y cynllun statudol cyntaf i rym ym 1996 yn dilyn pasio Deddf Digolledu am Anafiadau Troseddol 1995. Roedd y ddeddf hon yn creu system seiliedig ar dariff ar gyfer penderfynu dyfardaliadau am anafiadau. Cyflwynwyd cynlluniau dilynol yn 2001, 2008 a 2012 o dan yr un ddeddfwriaeth – roedd pob Cynllun newydd yn disodli'r un blaenorol, ac wedi cael ei gymeradwyo gan y Senedd. Diwygiwyd Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 ym mis Gorffennaf 2019 i ddileu 'rheol yr un to' a oedd yn gwahardd ymgeiswyr rhag cael eu digolledu os oeddent wedi byw yn yr un cartref â'r cyflawnwr ar adeg digwyddiadau a gafwyd cyn Hydref 1979.
34. Mae'r Cynllun yn cael ei weinyddu gan Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA). Mae penderfyniadau ar geisiadau unigol yn cael eu gwneud gan swyddogion hawliadau yn annibynnol ar yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae cynllun ar wahân, Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth mewn Gwledydd Tramor 2012, sy'n gwneud taliadau i ddioddefwyr terfysgaeth a anafwyd mewn digwyddiadau y tu allan i'r DU, hefyd yn cael ei weinyddu gan CICA.
35. Y tu allan i'n deddfwriaeth ein hunain, rydym wedi ein rhwymo gan ofynion sylfaenol ar ddigolledu yng Nghonfensiwn Cyngor Ewrop 1983 mewn perthynas â digolledu dioddefwyr troseddau difrifol. Mae hyn yn cynnwys darparu cydgymorth rhwng gwledydd sydd wedi cadarnhau'r Confensiwn mewn perthynas â gallu dioddefwyr troseddau treisgar i gael eu digolledu os cawsant eu hanafu mewn gwlad arall sydd wedi cadarnhau'r Confensiwn. Mae Confensiwn 1983 hefyd yn darparu ar gyfer cynorthwyo gwladolion Prydeinig i wneud cais am ddigollediad mewn gwledydd eraill sydd wedi cadarnhau'r Confensiwn.
36. Yn ogystal â hyn, mae Cyfarwyddeb yr UE 2004/80/EC ar ddigolledu dioddefwyr troseddau mewn gwledydd eraill yn yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl aelod-wladwriaethau fod â chynllun digolledu ar waith ar gyfer dioddefwyr troseddau bwriadol treisgar a gyflawnwyd yn eu tiriogaethau ac mae'n sefydlu system gydweithredu ledled yr UE i roi'r gallu i ddarparu cydgymorth. Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE ar 31 Ionawr 2020, bydd y DU yn aros yn rhan o'r system hon i'r UE cyfan tan 31 Rhagfyr 2020. Ar ôl y dyddiad hwn, ni fydd y DU yn barti i'r Gyfarwyddeb wedyn ac, yn lle hynny, bydd yn dibynnu ar y Confensiwn, sy'n cynnwys gofynion gwahanol ar gyfer cynorthwyo dioddefwyr troseddau treisgar. Yn ymarferol, mae CICA hefyd yn gweithredu fel yr awdurdod cynorthwyo ac yn cydgysylltu â gwledydd sydd wedi cadarnhau Confensiwn Cyngor Ewrop 1983 ac aelod-wladwriaethau'r UE sy'n helpu gwladolion Prydeinig sydd wedi dioddef o ganlyniad i droseddau treisgar yn aelod-wladwriaethau'r UE.

37. 'Mae rhwymedigaethau a gofynion eraill yn ymwneud â phreswyllo a chenedligrwydd sy'n effeithio ar gymhwystra a gallu rhai ymgeiswyr i gael digollediad. Un enghraifft o hyn, sydd eisoes wedi cael sylw drwy ddiweddarau Cynllun 2012, yw digolledu mewn perthynas â dioddefwyr masnachu pobl. Mae dioddefwyr masnachu pobl yn gymwys o dan Gynllun 2012 ar yr amod bod awdurdod cymwys wedi canfod yn derfynol eu bod yn ddioddefwyr o'r fath. Byddwn yn parhau i adolygu'r gallu i gael digollediad yng nghyd-destun datblygiadau ym mholisi Llywodraeth mewn perthynas â dinasyddion nad ydynt o Brydain Fawr, fel newidiadau mewn Rheolau Mewnfudo i gwrdd â rhwymedigaethau rhyngwladol.'
38. O dan y Cynllun, dyfernir digollediad i ddioddefwyr troseddau treisgar sydd wedi cael "anafiadau troseddol". Y rhain yw anafiadau sy'n ddigon difrifol i alw am wneud dyfarndaliad o dan y Cynllun. Dylai ymgeiswyr wneud cais am ddigollediad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn dwy flynedd i ddyddiad y digwyddiad; gellir ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol lle na fyddai'r ymgeisydd wedi gallu gwneud cais yn gynharach. Mae darpariaethau ar wahân ar gyfer y rheini a oedd o dan 18 oed ar adeg cael yr anaf a, drwy eithriad, gall CICA dderbyn cais a wnaed ar ôl y terfyn amser a ragnodwyd. Rhaid iddynt hefyd fodloni'r meini prawf cymhwysra eraill sydd wedi'u pennu yn y Cynllun. Gellir gwrthod ymgeiswyr os nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf hyn, sy'n cynnwys gofynion o ran preswyllo, hysbysu'r heddlu am ddigwyddiadau, ac euogfarnau heb eu disbyddu sy'n arwain at ddedfryd o garchar, gorchymyn cymunedol neu ddedfryd arall sydd wedi'i phennu yn y Cynllun. Hefyd gellir lleihau neu atal dyfarndaliadau mewn amgylchiadau lle mae ymddygiad yr ymgeisydd wedi cyfrannu i'r anaf, neu lle nad yw ymgeiswyr yn cydweithredu â CICA i brosesu'r hawliad.
39. Gwneir dyfarndaliadau drwy gyfeirio at dariff anafiadau sydd yn Atodiad E i'r Cynllun. Mae'r tariffau unigol yn rhan hanfodol o'r Cynllun a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Senedd. Mae'r tariff anafiadau presennol yn cynnwys cyfanswm o 35 band, a'r rheini'n cwmpasu anafiadau corfforol a meddyliol ac anafiadau sy'n ganlyniad i droseddau rhywiol. Mae dyfarndaliadau am anafiadau yn amrywio o £1,000 i £250,000 yn ôl difrifoldeb cymharol a pharhad yr anafiadau a gafwyd. Gall dioddefwyr fod yn gymwys hefyd i gael taliadau ychwanegol fel rhai am golli enillion neu am dreuliau arbennig (yn cynnwys eitemau fel gofal, cyfarpar arbenigol neu addasiadau i'r cartref). Y dyfarndaliad mwyaf sydd ar gael o dan y Cynllun yw cyfanswm o £500,000.
40. Mae'r Cynllun hefyd yn darparu ar gyfer dyfarndaliadau i'r rheini sydd heb ddiodef yn uniongyrchol o ganlyniad i drosedd treisgar, ond a oedd yn bresennol ac yn dystion i ddigwyddiad lle cafodd un o'u hanwyliaid anaf troseddol. Yn olaf, mae hefyd yn dyfarnu taliadau i deuluoedd a gafodd brofedigaeth ac i ddibynyddion yr ymadawedig mewn achosion lle mae trosedd treisgar wedi arwain at farwolaeth yr ymadawedig.
41. Un o egwyddorion pwysig y Cynllun yw ei fod ar gael yn niffyg ffynonellau cymorth eraill a'i fod wedi'i fwriadu ar gyfer y rheini sydd heb allu i geisio neu gael digollediad

am eu hanafiadau drwy ffyrdd eraill, er enghraifft, drwy hawliad sifil am anaf personol. Mae'r egwyddor hon yn sail i nifer o reolau'r Cynllun ac, ochr yn ochr â phwrpas y Cynllun, sef cydnabod niwed, mae'n rhan hanfodol o ethos a dull gweithredu'r Cynllun.

42. Mae'r Cod Ymarfer i Ddiodefwyr Troseddau (Cod y Dioddefwyr) yn amlinellu'r cymorth a gwybodaeth a ddylai fod ar gael i ddiodefwyr troseddau, yn ôl y gyfraith, gan asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr fel yr heddlu a'r llysoedd, a sefydliadau eraill sydd wedi'u henwi. Mae Deddf Dioddefwyr a Thystion (yr Alban) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion yr Alban gyhoeddi Cod Dioddefwyr i'r Alban a fydd yn cynnwys gwahanol fathau o wybodaeth y mae diodefwyr yn debygol o fod â'i hangen. Cyhoeddwyd Cod Dioddefwyr i'r Alban ddiwethaf yn 2018.<sup>7</sup>
43. Yn y Strategaeth Dioddefwyr drawslywodraethol a gyhoeddwyd ym Medi 2018, roeddem wedi ymrwymo i adolygu'r Cod Dioddefwyr er mwyn delio â'i gymhlethdod, ei hygyrchedd a'i iaith, a hefyd i ddiweddarau hawliau yn y Cod fel y byddant yn adlewyrchu anghenion diodefwyr yn well. Cyhoeddwyd ein hymgyngoriad cyntaf ar newidiadau arfaethedig ym mis Gorffennaf 2019.<sup>8</sup> Cyhoeddwyd ail ymgynghoriad ar 5 Mawrth 2020 a oedd yn cynnwys drafft o'r Cod diwygiedig.<sup>9</sup> Mae'r drafft yn cynnwys hawl y diodefwyr i gael darparu gwybodaeth iddo am ddigolledu. Mae'n amlinellu'r terfynau amser a'r ffaith nad yw diodefwyr yn gorfod aros am ganlyniad treial troseddol cyn ymgeisio. Mae hefyd yn nodi lle mae modd i ddiodefwyr gael gwybodaeth fwy manwl.
44. Yn ystod 2018-2019, cafodd CICA ychydig mwy na 31,000 o geisiadau ac, ar ddiwedd y flwyddyn, roedd ganddo lwyth achosion o bron 33,000 o achosion. Roedd CICA wedi cwblhau mwy na 35,000 o hawliadau (yn cynnwys y rheini a gafodd yn y flwyddyn flaenorol ac a gariwyd drosodd), ac wedi talu digollediaidau o fwy na £130 miliwn. Penderfynodd y canlyniad i 45% o achosion ar ôl chwe mis, a'r canlyniad i 81% ar ôl deuddeg mis. Cafodd CICA sgôr uchel am fodlonrwydd, sef 95%, gan yr holl ymgeiswyr a fu mewn cysylltiad ag ef yn 2018/19.

<sup>7</sup> Victims' Code for Scotland, 2018 - <https://www.mygov.scot/victims-code-for-scotland/>

<sup>8</sup> Proposals for Revising the Code of Practice for Victims of Crime, July 2019 - [https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/proposed-changes-to-the-victims-code/supporting\\_documents/proposalsforrevisingthecodeofpracticeforvictims.pdf](https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/proposed-changes-to-the-victims-code/supporting_documents/proposalsforrevisingthecodeofpracticeforvictims.pdf)

<sup>9</sup> Consultation on Improving the Victims Code - <https://consult.justice.gov.uk/victim-policy/consultation-on-improving-the-victims-code/>

## Adran 2: Cwmpas y Cynllun

### Diffinio trosedd treisgar

45. Mae'r Cynllun wedi canolbwyntio erioed ar ddarparu digollediad i ddiodefwyr sydd wedi cael anaf corfforol a/neu feddyliol o ganlyniad i drosedd treisgar.
46. Un o'r newidiadau a gafwyd o ganlyniad i'r adolygiad diwethaf yn 2012 oedd cyflwyno diffiniad penodol o drosedd treisgar ar wyneb y Cynllun. Y nod oedd cynnig eglurder a thryloywder ynghylch yr amgylchiadau lle mae diodefwyr troseddau treisgar yn gallu bod yn gymwys i gael eu digolledu o dan y Cynllun.
47. Mae'r diffiniad yn pennu bod trosedd treisgar yn un sydd yn cynnwys:
- ymosodiad corfforol;
  - unrhyw weithred neu anweithred o natur dreisgar sy'n achosi anaf corfforol i berson;
  - bygythiad yn erbyn person, sy'n achosi ofn o drais ar y pryd mewn amgylchiadau a fyddai'n peri i berson rhesymol gadarn ofni hynny;
  - ymosodiad rhywiol nad oedd person wedi cydsynio iddo mewn gwirionedd; neu
  - gynnu tân yn fwriadol.<sup>10</sup>
48. Wedyn rhaid i'r person fod wedi dioddef yn uniongyrchol o ganlyniad i'r trosedd treisgar hwnnw, a rhaid bod y weithred – neu anweithred – wedi'i chyflawni'n fwriadol neu'n ddi-hid. Lle cafwyd anaf yn yr amgylchiadau hyn, gall y person hwnnw fod yn gymwys i gael dyfarndaliad o dan y Cynllun. Mae hyn yn debyg i nifer o gynlluniau eraill yn Ewrop a thrwy'r byd sy'n digolledu am anafiadau troseddol, ac mae'n sicrhau ein bod yn cwrdd â'n rhwymedigaethau o dan Gyfarwyddeb yr UE 2004/80/EC a Chonfensiwn Cyngor Ewrop 1983 ar ddigolledu diodefwyr troseddau treisgar.
49. Os nad yw'r amgylchiadau lle anafwyd y person wedi'u cynnwys yn y diffiniad o drosedd treisgar yn y Cynllun, yna bydd ceisiadau'n cael eu gwrthod. Mae'n ddealladwy ei bod yn anodd gan ymgeiswyr gael eu hysbysu nad ydynt yn gymwys i gael eu digolledu ar y sail nad yw trosedd treisgar, yn ôl diffiniad y Cynllun, wedi cael ei gyflawni, neu na chafwyd tystiolaeth ddigonol gan yr awdurdodau perthnasol i gadarnhau bod trosedd o'r fath wedi digwydd, yn enwedig lle maent wedi rhoi gwybod eu bod wedi dioddef o ganlyniad i drosedd difrifol.
50. Rydym wedi ystyried a yw'r diffiniad presennol o drosedd treisgar i ddibenion y Cynllun yn adlewyrchu natur gyfnewidiol troseddau treisgar. Clywsom bryderon gan randdeiliaid ei fod yn methu â darparu ar gyfer troseddau digyffwrdd difrifol sy'n fwy cyffredin, fel paratoi i bwrpas rhyw, camfanteisio ar-lein, rheolaeth drwy orfodaeth,

<sup>10</sup> Atodiad B, Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 (diwygiwyd)

stelcio, a chaethwasiaeth fodern. Dadleuir mewn achosion o'r fath, lle na chafwyd ymrafael corfforol o bosibl na dim bygythiad o drais ar y pryd, fod lle i gredu, er hynny, y gall yr effaith seicolegol fod yn gymesur â'r math o anafiadau meddyliol y mae'r Cynllun yn digolledu amdanynt. Yn ei drydydd adroddiad, galwodd y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Oedolion sydd wedi Goroesi Cam-drin Rhywiol yn ystod Plentyndod am ehangu cwmplas y Cynllun i gynnwys mathau o gam-drin sy'n digwydd ar-lein a heb gyffwrdd.<sup>11</sup> A nododd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn ei adroddiad am y Rhyngwrwyd y dylid ystyried y ffaith bod cam-drin a hwylusir ar-lein yn aml yn agwedd ar droseddu rhywiol yn erbyn plant.<sup>12</sup>


### **Natur gyfnewidiol troseddu**

51. Rydym wedi dadansoddi'r data sydd ar gael er mwyn cael darlun o droseddau treisgar er 2013/14. Mae mesur troseddau treisgar yn her gan fod data yn newidiol ac felly nid ydynt bob amser yn rhoi un darlun clir a dibynadwy o dueddiadau mewn troseddu. Yn gyffredinol, rydym yn credu na chafwyd newid arwyddocaol yn natur troseddau treisgar ers adolygu'r Cynllun ddiwethaf yn 2012.
52. Mae dwy brif ffynhonnell data ar gyfer mesur troseddau treisgar:
- Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW); a
  - data Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu (PRC).
53. Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn arolwg blynyddol sy'n dangos nifer y troseddau a brofwyd gan y cyhoedd. Mae'n cynnwys troseddau nad yw'r heddlu yn eu cofnodi neu'n cael eu hysbysu amdanynt. Mae'n well dangosydd ar gyfer tueddiadau hirdymor mewn troseddu am nad yw newidiadau mewn arferion plismona neu gofnodi gan yr heddlu yn effeithio arno. Mae data Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu yn adlewyrchu troseddau y mae'r heddlu yn cael ei hysbysu amdanynt ac yn eu cofnodi yn unig.
54. Mae'r dadansoddiad a welir isod wedi'i seilio ar ddata a gyhoeddwyd o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr a Throseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu ar gyfer y pum mlynedd diwethaf, rhwng 2014/15 a 2018/19.
55. Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) yn cofnodi troseddau treisgar lle mae lefel is o niwed; nid yw'n dda iawn o ran cofnodi troseddau treisgar lle mae lefel uwch o niwed ac, mewn rhai achosion, fel lladdiad, nid yw'n eu cynnwys o gwbl. Nid yw troseddau rhywiol wedi'u cynnwys ychwaith gan fod y data o'r arolwg yn rhy annibynadwy i'w cofnodi.

<sup>11</sup> Can Adult Survivors of Child Sexual Abuse Access Justice and Support? Chwefror 2020 - <https://www.appgsurvivorscsa.co.uk/infosupportsurvivors>


<sup>12</sup> Cyhoeddwyd 12 Mawrth 2020 - <https://www.iicsa.org.uk/news/inquiry-report-finds-risk-immeasurable-harm-children-internet>

56. Mae data CSEW yn dangos, yn gyffredinol, mai ychydig iawn o newid a gafwyd dros y pum mlynedd diwethaf yn nifer y digwyddiadau troseddau treisgar a gofnodwyd gan yr arolwg. Er bod nifer y digwyddiadau troseddau treisgar wedi cynyddu yn y flwyddyn 2014/15, ers hynny mae cyfanswm y digwyddiadau wedi gostwng ychydig o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r arolwg yn cynnwys dau gategori cyffredinol, lefel uchel: 'trais ag anaf' a 'trais heb anaf'. Y diffiniad o drais heb anaf yw digwyddiad neu ymgais lle cafodd y dioddefwr ei ddyrnu, ei gicio, ei wthio neu ei benelinio ond lle na chafwyd anaf o ganlyniad. Mae nifer y digwyddiadau treisgar heb anaf wedi bod yn disgyn, felly mae mwyafrif y troseddau bellach yn ddigwyddiadau treisgar ag anaf.




57. Mae'r arolwg yn rhannu'r categori 'trais ag anaf' yn ddau is-gategori:

- Mae 'digwyddiadau clwyfo' yn anaf difrifol neu lai difrifol, a gall yr olaf gynnwys cleisio difrifol, cracio dannedd a thoriadau sy'n galw am sylw meddygol; ac
- 'Ymosod â mân anaf' sy'n arwain at fân anaf i'r dioddefwr fel cleisiau a chrafiadau.



58. Cafwyd tuedd at i lawr yn nifer y digwyddiadau clwyfo, sef y mwyaf difrifol o'r ddau, dros y pum mlynedd diwethaf ac mae'r duedd o ran ymosod â mân anaf wedi cynyddu ychydig.

59. Mae data Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu (PRC) yn well ffordd o fesur mathau o droseddau sy'n llai cyffredin lle gwneir mwy o niwed. Er hynny, mae'r data hyn yn cael eu heffeithio gan newidiadau mewn arferion cofnodi, mewn gweithgarwch gan yr heddlu a chan newid mewn blaenoriaethau ac ym mharodrwydd dioddefwyr i hysbysu am droseddu. Mae PRC yn rhoi mewnwelediad ychwanegol drwy adlewyrchu mwy o fathau o droseddu gan rannu troseddau treisgar yn saith math o droseddu. Darperir y data gan 43 o heddluoedd tiriogaethol yng Nghymru a Lloegr a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.



60. Mae data PRC yn dangos bod troseddau treisgar a gofnodwyd wedi cynyddu'n gyson dros y pum mlynedd diwethaf ar gyfer pob math o drosedd. Fodd bynnag, yn achos y rhan fwyaf o'r mathau o drosedd, gellir priodoli hyn i ddau ffactor yn hytrach na chynnydd gwirioneddol mewn troseddu. Y ffactor cyntaf yw prosesau ac arferion cofnodi gwell gan yr heddlu yn hytrach na chynnydd yn nifer y digwyddiadau. Yr ail yw bod mwy o ddioddefwyr yn hysbysu am droseddu, yn enwedig troseddau rhywiol, stelcio ac aflonyddu a throseddau cysylltiedig â cham-drin domestig. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn credu nad yw data PRC yn darparu data dibynadwy am dueddiadau ar gyfer nifer o droseddau.

61. Mae nifer yr hysbysiadau am stelcio ac aflonyddu wedi cynyddu'n fwy o lawer nag ar gyfer mathau eraill o droseddau treisgar, gan fod nifer y digwyddiadau a gofnodwyd bron saith gwaith yn fwy yn 2018/19 nag yn 2013/14. Mae hyn yn fwy o lawer nag ar

gyfer y math o droseddau treisgar sy'n ail fwyaf cyffredin, gan fod nifer y digwyddiadau treisio a gofnodwyd ychydig yn llai na thair gwaith gymaint yn 2018/19 nag yn 2013/14. Credir bod y cynnydd o ran stelcio ac aflonyddu yn ganlyniad yn benodol, ac yn bennaf, i wella dulliau cofnodi'r heddlu a newidiadau ym mlaenoriaethau'r heddlu. Mae hefyd yn debygol o fod wedi'i effeithio gan ymwybyddiaeth gynyddol ymysg y cyhoedd o beth sy'n cael ei ystyried yn stelcio, aflonyddu a mathau eraill o ymddygiad bygythiol.

62. Gan nodi na chafwyd newid sylweddol yn natur troseddau treisgar, credwn y byddai ehangu'r diffiniad i gynnwys troseddau heblaw'r rheini sydd o natur dreisgar ac yn golygu cyffwrdd neu gyswllt corfforol neu fygythiad o drais ar y pryd, yn mynd yn bellach o lawer na bwriad gwreiddiol y Cynllun.
63. Credwn fod y diffiniad presennol yn ddigon eang i ddarparu ar gyfer amgylchiadau o lawer math gan gynnwys, mewn rhai achosion, camfanteisio ar-lein, paratoi i bwrpas rhyw, stelcio a chaethwasiaeth fodern lle mae sefyllfaoedd wedi gwaethygu fel eu bod yn cynnwys trais neu'r bygythiad o drais ar y pryd. Rydym yn cydnabod bod dioddefwyr troseddau o'r fath yn gallu profi niwed a thrawma seicolegol ac emosiynol, hyd yn oed lle nad oes ymosod corfforol neu fygythiad o hynny. Er hynny, gellir dioddef effeithiau o'r fath o ganlyniad i fathau eraill o droseddau, fel twyll ac anonestrwydd.
64. Byddai ehangu cwmpas y Cynllun yn creu'r perygl o wahaniaethu'n fympwyol rhwng mathau o droseddau, byddai'n creu anawsterau sylweddol wrth gymryd camau i geisio canfod tystiolaeth o droseddu, ac fe allai wneud y Cynllun yn anfforddiadwy. Rydym hefyd yn credu na fyddai hyn yn adlewyrchu'r dealltwriaeth cyffredin ymysg y cyhoedd o beth yw trosedd treisgar a beth y dylid digolledu amdano drwy Gynllun sydd wedi'i fwriadu ar gyfer y rheini sy'n profi'r effaith fwyaf difrifol o droseddau treisgar. At ei gilydd, nid ydym yn credu bod digon o wahaniaethu rhwng mathau o droseddau a'u heffeithiau i gyfiawnhau ehangu'r diffiniad presennol.
65. Nid yw'r ffaith nad oes digollediad ar gael i ddiodefwyr troseddau sydd heb eu cynnwys yn y diffiniad ar hyn o bryd yn golygu bod y troseddau hynny'n llai difrifol, nac yn golygu nad yw eu heffeithiau ar ddiodefwyr yn sylweddol. Rydym yn cydnabod y gall diodefwyr rhai o'r troseddau hynny fod ag angen cymorth arbenigol, pwrpasol a thymor hwy i ymadfer ar ôl eu diodeffaint. Mae'r ymrwymadau a wnaed yn y Strategaeth Dioddefwyr yn adlewyrchu hyn. Rydym yn gweithio ar draws llywodraeth i alinio cyllid ar gyfer gwasanaethau diodefwyr, er mwyn sicrhau bod diodefwyr yn gallu cael y cymorth sydd ei angen i ymdopi ac ymadfer, hyd y gellir, o effaith troseddau. Mewn ymateb i argymhelliad gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, mae adrannau wedi cydweithio i ganfod lefelau presennol y gwariant ar wasanaethau i ddiodefwyr cam-drin plant yn rhywiol, ac effeithiolrwydd y gwariant hwnnw. Cyhoeddwyd yr ymateb ar 26 Chwefror 2020.<sup>13</sup> Ym Medi 2019, roedd yr

<sup>13</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/government-response-to-the-independent-inquiry-into-child-sexual-abuse>



Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi cyhoeddi pecyn o £30 miliwn i helpu i atal cam-drin plant yn rhywiol, a chynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr.

## Cydsyniad mewn hawliadau ymosodiadau rhywiol

66. Fel y nodwyd uchod, mae diffiniad y Cynllun o drosedd treisgar yn cynnwys “ymosodiad rhywiol nad oedd person wedi cydsynio iddo mewn gwirionedd”. Mae'r Cynllun yn cydnabod bod ymosodiad rhywiol anghydsyniol yn drosedd treisgar, ac mae'r rheol yn ceisio sicrhau mai dim ond mewn amgylchiadau o'r fath y bydd cymhwysra i gael digollediad. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod y gellir cael amgylchiadau, mewn nifer bach o achosion, lle nad yw gweithgarwch rhywiol sy'n cynnwys pobl ifanc o dan 16 oed yn drosedd treisgar. Er enghraifft, lle mae dau sy'n 15 mlwydd oed wedi cymryd rhan yn rhydd ac o'u gwirfodd mewn gweithgarwch rhywiol â'i gilydd. Rydym yn cydnabod bod hyn yn drosedd statudol ond, lle nad oes gorfodaeth gorfforol neu baratoi i bwrrpas rhyw, rydym yn credu o hyd na ddylai achosion o'r fath fod yn gymwys ar gyfer digolledu gan nad yw'r trosedd a ddigwyddodd yn enghraifft o drais lle mae un unigolyn wedi achosi anaf i unigolyn arall. Mae hyn yn gyson â chanllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n cydnabod nad oes budd i'r cyhoedd mewn erlyn rhai dan oed yn eu harddegau sy'n cymryd rhan o'u gwirfodd mewn gweithgarwch rhywiol â'i gilydd.
67. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon nad yw'r ddarpariaeth am gydsyniad yn gyson â'r ymagwedd at gydsyniad yng nghyfraith trosedd, fel y mae wedi'i dangos yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003 a Deddf Troseddau Rhywiol (yr Alban) 2009. Yn dilyn ymgyrch yn 2017 i dynnu sylw at bryderon am wrthod digolledu plant o dan yr oedran cydsynio cyfreithiol mewn modd amhriodol, gwnaeth CICA newidiadau sylweddol yn ei ganllawiau a'i arferion, drwy gydweithio â rhanddeiliaid allweddol, er mwyn sicrhau bod y rheol hon yn cael ei chymhwyso'n briodol a chyson gan swyddogion hawliadau, yn enwedig mewn perthynas ag achosion sy'n cynnwys plant o dan 16 mlwydd oed.
68. Mae canllawiau CICA yn glir y dylid **bob amser** gael rhagdybiaeth o beidio â chydsynio mewn achosion o ymosod neu gam-drin rhywiol, a chyflwynwyd gweithdrefnau sicrwydd newydd ar gyfer yr achosion hyn. Cyflwynwyd y canllawiau diwygiedig yn Hydref 2017 ac mae CICA wedi cyflwyno mesur diogelu ychwanegol drwy gyfeirio'r holl hawliadau sy'n ymwneud â throseddau rhywiol yn erbyn plant sydd o dan 13 oed ar ddyddiad y cais at ei dîm cyfreithiol i gael adolygiad llawn cyn rhoi penderfyniad.
69. Rydym wedi ystyried a ddylid alinio'r diffiniad o gydsyniad yn y Cynllun â chyfraith trosedd ar gydsynio. Fodd bynnag, rydym yn credu bod y newidiadau mewn gweithrediadau a wnaed yn 2017, ac ymdrech barhaus CICA i ofalu bod staff yn cael cymorth a chyfarwyddyd priodol, wedi sicrhau'r mesurau diogelwch sydd eu hangen i liniaru'r risg o wrthod hawliadau'n amhriodol. Rydym wedi penderfynu bod angen

cadw'r rheol er mwyn sicrhau mai dim ond mewn achosion lle cafwyd trosedd treisgar y rhoddir dyfarndaliad digolledu.

70. Er hynny, rydym yn cydnabod bod cyfle i wella geiriad y rheol, ac efallai i gynnwys yr agweddau allweddol ar y ffordd o gymhwyso'r rheol sydd wedi'u nodi yn y canllawiau gweithredol.

### Cwestiwn

1. Yn eich barn chi, pa fath o iaith sydd fwyaf priodol i'w defnyddio yn y Cynllun i egluro'r ffordd o ymwneud â'r rheini sydd o dan yr oedran cydsynio cyfreithiol?

## Grwpiau dioddefwyr penodol

71. Yng nghylch gorchwyl yr adolygiad, roeddem wedi ymrwymo i ystyried a yw darpariaethau presennol y Cynllun yn arwain at ganlyniadau anfwriadol i rai grwpiau dioddefwyr o ran eu gallu i ymgeisio am ddigollediad neu ei dderbyn. Yn benodol, roeddem wedi ymrwymo i ystyried yr effaith ar ddiodefwyr cam-drin plant yn rhywiol, a diodefwyr terfysgaeth. Yn ogystal â hyn, yn dilyn adroddiadau gan Gomisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr a'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Farwolaethau mewn Gwledydd Tramor, Gwasanaethau Consylaidd a Chymorth rydym wedi ystyried a ddylai digollediad am anafiadau troseddol fod ar gael i deuluoedd a gafodd brofedigaeth o ganlyniad i laddiadau a gyflawnwyd y tu allan i Brydain Fawr.

### Dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol

72. Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i bryderon a fynegwyd mewn tystiolaeth ddiffuant a ddarparwyd gan ddiodefwyr a'u cynrychiolwyr i'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, i'r Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr blaenorol ar gyfer ei hadroddiad am brofiadau diodefwyr o ddigolledu, yn adroddiadau'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Oedolion sydd wedi Goroesi Cam-drin Rhywiol yn ystod Plentynod, a thrwy ein hymwneud ein hunain â rhanddeiliaid, am yr heriau a brofodd diodefwyr cam-drin plant yn rhywiol sy'n ddiweddar a heb fod yn ddiweddar wrth geisio sicrhau digollediad. Rydym yn gwybod bod diodefwyr troseddau o'r fath yn gallu diodef niwed sylweddol a pharhaus, a bod y trawma sy'n gysylltiedig yn gallu effeithio ar eu parodrwydd a'u gallu i hysbysu'r heddlu ac i geisio digollediad.
73. Rydym hefyd wedi clywed pryderon am yr anhawster a brofodd rhai diodefwyr cam-drin plant yn rhywiol wrth ymgeisio am ddigollediad. Felly, yn yr adolygiad, rydym wedi ystyried a yw rheolau cymhwystra presennol yn cael effaith negyddol anghymesur ar ddiodefwyr cam-drin plant yn rhywiol; ac wedi edrych yn benodol ar y pryderon hyn ym mhob rhan o'r Cynllun sydd wedi'i hadolygu. Mae hyn wedi'i adlewyrchu ym mhob rhan o'r papur ymgynghori, a hefyd yn yr Asesiad o Effaith; mae **Adran 3** yn edrych ar oblygiadau'r rheolau cymhwystra i'r grŵp diodefwyr hwn ac mae **Adran 5** yn ystyried newidiadau yn arferion gweithredu CICA.

74. Fel y nodwyd yn **Adran 1**, roedd dadansoddiad o set ddata ar y llwyth achosion dros dair blynedd wedi dangos mai anafiadau rhywiol oedd 25% o'r achosion a benderfynwyd. O'r cyfanswm o tua 75,000 o geisiadau a ddadansoddwyd, roedd oddeutu 13,000 o achosion wedi'u cyflwyno ar ôl y terfyn amser dwy flynedd ac roedd 82% o'r rhain yn ymwneud â cheisiadau yng nghyswllt ymosod rhywiol. O'r ceisiadau mewn perthynas ag ymosod rhywiol a gyflwynwyd ar ôl y terfyn amser dwy flynedd, roedd 72% wedi arwain at ddyfarndal wedyn, gan fod disgrisiwn wedi'i arfer o ran y terfyn amser a bod y meini prawf ar gyfer dyfarndaliadau wedi'u bodloni hefyd. Gwrthodwyd tua 3,500 o achosion oherwydd euogfarnau a oedd heb eu disbyddu ac roedd 12% o'r rhain yn achosion ymosod rhywiol.
75. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod y Cynllun yn gweithio'n dda i fwyafrif dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol. Mae ein canfyddiadau'n dangos bod darpariaethau'r Cynllun, fel y disgrisiwn o ran y terfyn amser, yn adlewyrchu dealltwriaeth o'r anawsterau y mae'r dioddefwyr hyn yn eu hwynebu wrth hysbysu am y troseddau hyn, ac mae newidiadau mewn arferion gweithredu yn sicrhau eu bod yn cael cymorth i wneud cais am ddigollediad.

### **Dioddefwyr terfysgaeth**

76. Mae darpariaeth ar hyn o bryd o dan y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol ar gyfer digolledu dioddefwyr terfysgaeth ddomestig. Gan fod y Cynllun yn canolbwyntio ar ddigolledu am anafu yn hytrach nag ar fathau penodol o drosedd, mae dioddefwyr digwyddiadau terfysgol domestig yn cael eu trin o dan y Cynllun yn yr un ffordd â holl dioddefwyr eraill troseddau treisgar sydd wedi cael anafiadau sy'n gymwys o dan y Cynllun. Mae cynllun ar wahân, Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Mewn Gwledydd Tramor (VOTCS), yn digolledu'r rheini a gafodd anafiadau mewn gwledydd tramor, mewn digwyddiadau a ddynodwyd gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn weithred derfysgol. Mae'r cynllun hwn yn cael ei weinyddu gan CICA hefyd ac mae'r ddau gynllun wedi'u seilio ar feini prawf cymhwysra tebyg ac yn defnyddio'r un tariff anafiadau.
77. Mae erchyllterau terfysgol, gartref ac mewn gwledydd tramor, yn parhau i alw ein sylw at yr angen am ddarparu cymorth i ddiodeswyr terfysgaeth. Mae rhanddeiliaid wedi gofyn cwestiynau am y ffordd y mae hawliadau gan ddiodeswyr terfysgaeth yn cael eu hystyried, gan fynegi pryderon penodol ynghylch ansawdd y wybodaeth am ddigolledu sydd ar gael i ddiodeswyr a theuluoedd a gafodd brofedigaeth yn sgil ymosodiad; y cymorth ariannol a all fod ar gael ar y pryd; a yw gofynion bod ymgeiswyr yn rhai sydd wedi dioddef yn uniongyrchol yn rhai priodol yng nghyd-destun terfysgaeth gan fod y rheini a oedd yn agos i ymosodiad hefyd yn gallu cael anaf seicolegol sylweddol; a'r diffyg cydbwysedd lle gall rhoddion elusennol fod ar gael i ddiodeswyr rhai ymosodiadau terfysgol domestig lle cafwyd ymateb mawr gan y cyhoedd, ond nid ymosodiadau eraill. Mynegwyd pryderon pellach gan rhanddeiliaid mewn perthynas â chyflymder y penderfynu gan CICA, yn enwedig lle mae anafiadau wedi newid bywydau, a gwerth y dyfarndaliadau digolledu a gafodd diodeswyr.

78. Mae tîm penodedig o swyddogion hawliadau yn CICA sy'n ymateb i'r holl ddigwyddiadau terfysgol (rhai domestig a'r rheini a ddynodwyd gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad o dan VOTCS). Mae hyn yn galluogi CICA i ddarparu gwell cymorth i ddiodefwyr dichonol yn sgil un digwyddiad ac i gydgyssylltu â gwasanaethau cymorth ac asiantaethau cyfiawnder troseddol yn y maes. Pan geir digwyddiad terfysgol domestig neu dramor, bydd CICA yn sefydlu tîm digwyddiad mawr sy'n cynnwys staff a gafodd brofiad blaenorol o ddelio â digwyddiadau mawr, er mwyn prosesu'r holl geisiadau sy'n codi o'r digwyddiad mewn ffordd gyson a chydgyssylltiedig. Mae hyn yn cynnwys cynllun cyfathrebu pwrpasol i roi i ddiodefwyr a'u teuluoedd y wybodaeth y byddant yn fwyaf tebygol o fod â'i hangen yn syth, fel sut i gael gafael ar gymorth lleol. Mae CICA hefyd yn tynnu sylw at ei wasanaethau drwy ei wefan ac ar gyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal â hyn, mae staff yn cydgyssylltu â'r heddlu i ganfod pa dystiolaeth y bydd ei hangen at ddibenion hawlio digollediad, fel y gellir cwblhau hawliadau cyn gynted â phosibl. Er enghraifft, yn dilyn y digwyddiad yn Manchester Arena yn 2017, cydweithiodd Heddlu Manceinion Fwyaf â CICA i'w helpu i ddeall yn well beth oedd wedi digwydd er mwyn ei helpu i benderfynu ar gymhwystra diodefwyr.
79. Mae'r Cynllun yn caniatáu'r un cyfnod ar gyfer gwneud hawliad i ddiodefwyr terfysgaeth, gan gydnabod nad hyn fydd eu blaenoriaeth bennaf o bosibl yn dilyn y trauma a gawsant. Dywedodd CICA wrthym ei fod yn cydnabod y bydd angen mwy o amser ar rai diodefwyr i ddatgelu eu hanafiadau iechyd meddwl, yn enwedig diodefwyr terfysgaeth. Mae CICA hefyd wedi gweld bod cyfran sylweddol o ddiodefwyr terfysgaeth yn chwilio am gyfleoedd i gael iawn drwy'r llysoedd sifil. Gall CICA ohirio eu hawliad am ddigollediad a ariennir gan y trethdalwr wrth aros am y canlyniad i achos sifil, gan gydnabod mai'r Cynllun yw'r ffynhonnell y troir ati olaf am ddigollediad.
80. Mae nifer y ceisiadau a geir bob blwyddyn i'r Cynllun ac i VOTCS mewn cysylltiad â therfysgaeth yn gyffredinol yn gymharol fach. Mae tystiolaeth o'r set ddata ar achosion yn awgrymu bod ymgeiswyr mewn perthynas â digwyddiadau terfysgol yn profi canlyniadau tebyg i ymgeiswyr y mathau eraill o droseddau. Er hynny, gan gydnabod yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig ag ymosodiadau terfysgol (yn cynnwys natur y trais ac effeithiau ar nifer mawr o ddiodefwyr), rydym yn credu bod dadl gryf o blaid cael darpariaeth benodedig ar gyfer terfysgaeth mewn cynllun ar wahân.
81. Rydym yn cynnig creu cynllun ar wahân ar gyfer diodefwyr terfysgaeth ddomestig a therfysgaeth dramor. Byddai hyn hefyd yn fodd i dargedu ymdrechion i hybu ymwybyddiaeth, ymysg y cyhoedd yn gyffredinol ac mewn asiantaethau cyfiawnder troseddol, er mwyn sicrhau bod diodefwyr yn cael y wybodaeth gywir ar unwaith yn dilyn digwyddiad terfysgol. Byddai cynllun ar wahân hefyd yn sicrhau bod ceisiadau'n cael eu prosesu mor gyflym â phosibl yn dilyn digwyddiad, gan y byddai angen prosesau a staff penodedig ar gyfer cynllun ar wahân, er y byddai achlysuron pan fyddai achosion yn cael eu gohirio wrth aros y canlyniad i ymglyfreitha sifil. Mewn

amgylchiadau sy'n cyfiawnhau hynny, gellid gwneud darpariaeth benodol ar gyfer dioddefwyr o'r fath sydd wedi profi trawma mawr.

82. Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol newydd ar gyfer ein cynnig am gynllun ar wahân. Mae'r deddfwriaeth bresennol, Deddf Digolledu am Anafiadau Troseddol 1995 a Deddf Trosedd a Diogelwch 2010, yn y drefn honno, yn cyfyngu digolledu i droseddau treisgar sy'n digwydd ym Mhrydain Fawr ac i anafiadau sy'n ganlyniad i ddigwyddiadau terfysgol penodedig mewn gwledydd tramor. Ymhellach i ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, rydym yn rhagweld deddfu cyn gynted ag y bydd amser ar gael yn y Senedd ar gyfer mesur newydd a fydd yn darparu ar gyfer digolledu dioddefwyr terfysgaeth ddomestig a thramor. Byddem yn cadw dioddefwyr terfysgaeth ddomestig o fewn y Cynllun yn y tymor byr, a byddai darpariaeth ar gyfer terfysgaeth dramor yn parhau o dan VOTCS yn y cyfamser.

### Cwestiynau

2. A ydych yn cytuno â'n cynnig i deddfu i sefydlu cynllun digolledu newydd ar gyfer dioddefwyr terfysgaeth gartref ac mewn gwledydd tramor?
3. Os ydych, beth yw'ch barn am y ffyrdd y byddai cynllun digolledu penodedig yn gallu bod yn wahanol i'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol a'r Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth mewn Gwledydd Tramor?

### Dioddefwyr lladdiadau mewn gwledydd tramor

83. Ar hyn o bryd, nid yw lladdiadau mewn gwledydd tramor yn dod o dan y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol sy'n darparu ar gyfer digwyddiadau ym Mhrydain Fawr neu mewn 'lle perthnasol' arall sydd wedi'i amlinell yn Atodiad C i'r Cynllun. Fodd bynnag, os yw marwolaeth yn ganlyniad i ddigwyddiad terfysgol dynodedig y tu allan i Brydain Fawr, byddai'n dod o dan y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Mewn Gwledydd Tramor (VOTCS).
84. Mae teuluoedd dioddefwyr a laddwyd mewn gwlad dramor yn gallu cael cymorth a ariennir gan y wladwriaeth, ar ffurf cymorth ariannol a chymorth cyfannol, gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r Gwasanaeth Lladdiadau yng Nghymru a Lloegr a ariennir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr adroddiadau gan Gomisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr<sup>14</sup> a'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Farwolaethau mewn Gwledydd Tramor, Gwasanaethau Consylaidd a Chymorth,<sup>15</sup> gall y ddarpariaeth hon fod yn anghyson.

<sup>14</sup> <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/struggling-for-justice-entitlements-and-experiences-of-bereaved-families-following-homicide-abroad/>

<sup>15</sup> <http://hannahbardellmp.scot/wp-content/uploads/2019/11/The-All-Party-Parliamentary-Group-on-Deaths-Abroad-Consular-Services-and-Assistance-Report-2019.pdf>

85. Mae'n bosibl hefyd y bydd teuluoedd mewn profedigaeth yn gallu gwneud cais i gynlluniau digolledu gwladwriaethol yn y wlad lle digwyddodd y trosedd. Os digwyddodd y trosedd yn un o wladwriaethau'r UE neu mewn gwlad sydd wedi cadarnhau Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddigolledu Dioddefwyr Troseddau Treisgar, bydd dioddefwyr o'r DU yn gymwys i ymgeisio. Fodd bynnag, byddant yn dod o dan feini prawf cymhwystra a chwmpas y cynlluniau hynny, y bydd nifer ohonynt yn llai hael na'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol. Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE ar 31 Ionawr 2020 ac wedi i'r cyfnod pontio ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020, bydd llai o gynlluniau digolledu Ewropeaidd ar gael y bydd yn gymwys ymgeisio iddynt gan rai o'r DU sydd wedi dioddef o ganlyniad i droseddau treisgar mewn gwlad dramor. Mae'n debygol y bydd dioddefwyr yn gorfod delio'n uniongyrchol â rhwystrau iaith a sefyllfa lle nad yw gwybodaeth ar gael yn rhwydd am y cynlluniau hyn.
86. Mewn achosion lle'r oedd y dioddefwr wedi codi yswiriant teithio dilys, gall yswirwyr dalu am gost ei ddychwelyd i'r DU neu gost trefnydd angladdau mewn gwlad dramor os bydd y teulu'n dewis cael yr angladd mewn gwlad dramor. Fodd bynnag, fel y mae adroddiad y Grŵp Seneddol Hollbleidiol yn nodi, hyd yn oed os yw'r yswiriant teithio yn gynhwysfawr ac yn darparu ar gyfer talu treuliau meddygol, ni fydd yn digolledu am yr anaf corfforol neu feddyliol a gafwyd, nac yn darparu taliadau profedigaeth (sydd ar gael o dan y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol a VOTCS) lle mae aelod o deulu wedi marw o ganlyniad i drosedd treisgar.
87. Oherwydd nifer y lladdiadau mewn gwledydd tramor, sef 60-90 y flwyddyn yn ôl amcangyfrif, a diffyg cymorth cynhwysfawr a chyson, rydym yn bwriadu ystyried a ddylid trefnu i ddigollediad fod ar gael i deuluoedd a gafodd brofedigaeth o'r fath, a hwnnw wedi'i ariannu gan y wladwriaeth. Rydym yn awgrymu y dylai unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lladdiadau mewn gwledydd tramor fod yn un sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae'r Cynllun yn digolledu teuluoedd mewn profedigaeth, o ran y mathau o daliadau sydd ar gael a'u gwerth. Yn yr un modd â'r Cynllun, dylai fod yn amodol ar yr egwyddor mai dim ond os nad yw cymorth ariannol ar gael o ffynonellau eraill y darperir digollediad.
88. Mae'n debygol y bydd darparu digollediad am laddiadau mewn gwledydd tramor yn creu baich gweithredu ychwanegol. Bydd yn fwy cymhleth cael adroddiadau gan yr heddlu o wledydd tramor, a bydd gofyn i CICA gydweithio'n agos â systemau a gwasanaethau cyfiawnder tramor mewn rhai achosion gyda rhwystr iaith ar ben hynny. Rydym wedi cadarnhau na fyddai'n bosibl cynnwys darpariaeth ar gyfer lladdiadau mewn gwledydd tramor yn y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol na VOTCS oherwydd geiriad y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n sail i'r cynlluniau hyn a byddai'n tanseilio pwrpas a sail resymegol neilltuol y ddau gynllun. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar ddarparu ar gyfer terfysgaeth, byddwn yn ymgymryd â rhagor o waith i benderfynu a ddylid cael cynllun newydd ar wahân neu a ellid cynnwys lladdiadau mewn gwledydd tramor mewn cynllun cyfunol ar gyfer terfysgaeth ddomestig a thramor.

**Cwestiwn**

4. Beth yw'ch barn am ddeddfu i sefydlu darpariaeth ar gyfer digolledu teuluoedd a gafodd brofedigaeth oherwydd lladdiad mewn gwlad dramor?

## Adran 3: Rheolau cymhwysra

89. Mae rheolau cymhwysra wedi'u gosod ers sefydlu darpariaeth i ddigolledu am anafiadau troseddol ym 1964. Mae'r rheolau hyn wedi datblygu a newid yn y cyfamser, yn unol â thueddiadau mewn troseddu a newid mewn agweddau cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn gallu helpu'r rheini sydd â'i angen fwyaf. Yn ogystal â hyn, mae'r rheolau'n ffordd bwysig i gadarnhau pwrpas y Cynllun, sydd ar gael i ddiodefwyr yn niffyg unrhyw gymorth arall ac yn gydnabyddiaeth gyhoeddus i'r niwed a gawsant. Maent yn diogelu gwariant cyllid cyhoeddus ac felly'n sicrhau bod y Cynllun yn gynaliadwy at y dyfodol.
90. Roedd y Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr blaenorol, yn ei hadroddiad am ddigolledu, wedi mynegi pryderon bod diodefwyr yn ei chael yn anodd deall a oeddent yn gymwys i gael eu digolledu. Mae CICA wedi cymryd camau eisoes i wneud y rheolau presennol ar gymhwysra yn fwy eglur, yn cynnwys cyflwyno canllaw fesul cam ar bwy a all fod yn gymwys i gael ei ddigolledu, ac mae'n ymgymryd â rhagor o waith i wneud y Cynllun yn fwy hygyrch i ddiodefwyr.
91. Agwedd bwysig ar yr adolygiad hwn oedd edrych yn fanwl ar reolau cymhwysra ac ystyried a ydynt yn briodol o hyd i ddiodefwyr troseddau treisgar heddiw.

### Terfynau amser

92. Ar hyn o bryd, mae'r Cynllun yn gofyn bod y rheini sydd am hawlio digollediad yn cyflwyno cais i CICA cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn dwy flynedd ar ôl dyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf perthnasol.<sup>16</sup> Dyma'r terfyn amser er 1996, ar ôl bod yn derfyn amser o dair blynedd o dan rai o'r cynlluniau a oedd heb eu seilio ar ddeddfwriaeth a oedd wedi rhedeg ers 1964, ac mae'n weddol gyson â chynlluniau digolledu eraill mewn gwledydd tramor.
93. Gall CICA ystyried hawliadau a wneir ar ôl y terfyn amser o ddwy flynedd mewn "amgylchiadau eithriadol" a lle mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn golygu na fydd CICA yn gorfod gwneud ymholiadau manwl pellach i benderfynu ar yr hawliad. Bydd CICA bob amser yn ystyried yr holl amgylchiadau ym mhob achos wrth benderfynu a oes amgylchiadau eithriadol sy'n golygu na fuasai'n bosibl gwneud y cais yn gynharach. Un enghraifft o amgylchiad yw lle mae'r ymgeisydd wedi cael anaf corfforol neu feddyliol mor ddifrifol fel nad oedd yn gallu gwneud cais o fewn y terfyn amser perthnasol. Nid yw amgylchiadau eithriadol yn cynnwys sefyllfaoedd lle byddai ymgeisydd wedi aros am ganlyniad achos troseddol cyn cyflwyno cais am ddigollediad, neu aros i euogfarn

<sup>16</sup> Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 (diwygiwyd) paragraff 87



fod heb ei disbyddu cyn ymgeisio (lle mae hyn wedi mynd ag ef heibio'r terfyn amser dwy flynedd).

94. Mae darpariaeth wedi'i gwneud ar wahân yn y Cynllun presennol ar gyfer y rheini a oedd o dan 18 oed ar adeg cael yr anaf perthnasol. Mae ceisiadau ar gyfer achosion o'r fath yn cael eu hystyried yn gymwys os hysbyswyd yr heddlu gyntaf am y digwyddiad cyn pen-blwydd yr ymgeisydd yn 18oed ac os yw'r cais yn dod i law ar neu cyn ei ben blwydd yn 20oed; neu os hysbyswyd yr heddlu gyntaf am y digwyddiad ar neu ar ôl pen-blwydd yr ymgeisydd yn 18oed ac os yw'r cais yn dod i law o fewn dwy flynedd ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwnnw.
95. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon am y terfyn amser dwy flynedd gan nad yw rhai dioddefwyr yn ymwybodol o'r Cynllun. Clywsom dystiolaeth anecdotaidd hefyd am ddioddefwyr yn cael eu cynghori gan yr heddlu neu erlynwyr i aros am ganlyniad achos troseddol rhag cael eu cyhuddo o wneud honiadau er mwyn elwa, a'r dioddefwyr wedyn yn methu â gwneud cais llwyddiannus am ddigollediad oherwydd y terfyn amser. Codwyd y mater hwn hefyd gan Gomisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr<sup>17</sup> ac mae wedi'i adlewyrchu mewn tystiolaeth a ddarparwyd gan oroeswyr i'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol<sup>18</sup> a'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Oedolion sydd wedi Goroesi Cam-drin Rhywiol yn ystod Plentyndod. Mae effaith trawma ar ddioddefwyr, yn enwedig dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol, a'r anhawster o hawlio digollediad wrth barhau i ymadfer ar ôl trosedd treisgar, wedi'u codi hefyd fel testun pryder, ac mae rhanddeiliaid wedi awgrymu bod angen ymestyn y terfyn amser ar gyfer gwneud ceisiadau. Mae'n bosibl bod y dioddefwyr hyn yn cael bod y broses ymgeisio yn eithriadol o ymestynnol, ac yn ei chael yn anodd ei dilyn a disgrifio eu profiadau.<sup>19</sup>
96. Rydym yn cydnabod y farn bod y terfynau amser presennol yn effeithio ar rai grwpiau o ddioddefwyr, ac wedi edrych yn ofalus ar y pryderon a godwyd. Roedd y dystiolaeth a gawsom o'r set ddata ar lwyth achosion CICA yn dangos bod cyfran yr hawliadau a wrthodwyd ar y sail eu bod yn rhy hwyr yn fach o'i chymharu â'r cyfrannau a wrthodwyd ar seiliau eraill. Yn ôl y set ddata, roedd 18% o achosion am anaf personol wedi'u cyflwyno ar ôl y terfyn amser dwy flynedd ac, o'r rhain, roedd 63% wedi arwain wedyn at ddyfarndaliad. Nid oedd effaith anghymesur amlwg ar y rheini sy'n hawlio digollediad am ymosod rhywiol. O'r achosion yn y set ddata a ddaeth i law ar ôl y terfyn amser dwy flynedd, roedd 82% yn achosion ymosod rhywiol ac roedd 72% o'r rhain wedi arwain wedyn at ddyfarndaliad. Mae'n ymddangos bod y maen prawf "amgylchiadau eithriadol" – i ganiatáu hawliadau i'r Cynllun lle'r oedd dioddefwyr yn (rhesymol) analluog i gyflwyno hawliad o fewn y terfyn amser dwy flynedd – a'r terfyn amser ar

<sup>17</sup> Compensation without re-traumatisation: The Victims' Commissioner's Review into Criminal Injuries Compensation – Ionawr 2019 - <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/compensation-without-re-traumatisation-the-victims-commissioners-review-into-criminal-injuries-compensation/>

<sup>18</sup> Interim Report of the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse, adran 5.3 - Ebrill 2018 - <https://www.iicsa.org.uk/publications/inquiry/interim>

<sup>19</sup> Compensation without re-traumatisation: The Victims' Commissioner's Review into Criminal Injuries Compensation – Ionawr 2019 – gweler uchod

gyfer ymgeiswyr a oedd yn blant ar adeg y trosedd, yn gweithio'n dda. O'r holl achosion anaf personol a wrthodwyd, dim ond 4% a wrthodwyd am eu bod wedi'u cyflwyno ar ôl y terfyn amser dwy flynedd.

97. Mae'n bwysig bod y Cynllun yn gweithredu ar sail terfyn amser er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth i ymadfer, bod CICA yn gallu casglu tystiolaeth ddigonol i benderfynu hawliadau am ddigollediad, ac i sicrhau bod y Cynllun yn ariannol gynaliadwy. Yn ein barn ni, mae'r terfyn amser dwy flynedd yn caniatáu digon o amser i ddioddefwyr ystyried gwneud cais am ddigollediad, yn y rhan fwyaf o achosion, a bod wedi edrych ar ffyrdd eraill i gael digollediad.
98. Yn y cyfamser, cymerir camau i gynnwys rhagor o wybodaeth glir am derfynau amser y Cynllun yn y Cod Dioddefwyr. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn yr ail ymgynghoriad a gyhoeddwyd yn Chwefror 2020. Mae'r drafft o'r Cod diwygiedig yn cynnwys yn *Hawl 5: Darparu gwybodaeth am ddigolledu*, fanylion am y terfynau amser, cyngor i beidio ag oedi cyn gwneud cais, a chadarnhad mai dim ond mewn achosion eithriadol y bydd CICA yn aros am ganlyniad achos troseddol cyn penderfynu ar hawliad.
99. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i ystyried beth y gellir ei wneud yn rhagor gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol i hybu ymwybyddiaeth o'r Cynllun, ac yn enwedig i sicrhau ymateb cadarn pan fydd hawliadau am ddigollediad yn cael eu codi yng nghydestun achos troseddol.


## Euogfarnau heb eu disbyddu

100. Mae euogfarnau sydd heb eu disbyddu yn gallu arwain at leihau neu wrthod dyfarndaliad i ddigolledu ymgeisydd yn ôl y ddedfryd a roddwyd am y trosedd a gyflawnwyd. Mae Cynllun 2012 yn darparu na fydd ymgeisydd yn gymwys i gael digollediad os yw wedi cael euogfarn sydd heb ei disbyddu sydd wedi arwain at un o'r dedfrydau carcharol neu gymunedol a ganlyn:
- a) dedfryd wedi'i heithrio rhag adsefydlu;
  - b) dedfryd o garchar sy'n cynnwys cadw yn y ddalfa neu garcharu, cadw mewn sefydliad troseddwyr ifanc, neu ddedfrydau mewn dalfa ieuencid neu hyfforddiant cywirol;
  - c) dedfryd cadw yn y lluoedd arfog;
  - d) tynnu o wasanaeth Ei Mawrhydi;
  - e) gorchymyn cymunedol;
  - f) gorchymyn adsefydlu ieuencid; neu
  - g) dedfryd sy'n cyfateb i ddedfryd a ddisgrifiwyd yn (a) i (f) uchod, wedi'i rhoi o dan gyfraith Gogledd Iwerddon neu aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd, neu ddedfryd o'r fath wedi'i rhoi yn briodol mewn gwlad y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.
88. Cyflwynwyd y rheol bresennol yn dilyn yr adolygiad yn 2012, a'i phwrpas yw atal unigolion a gyflawnodd weithredoedd anghyfreithlon difrifol rhag elwa o ddigollediad

a ariennir gan y wladwriaeth, gan sicrhau bod y Cynllun yn gallu cynorthwyo dioddefwyr sydd â'r angen mwyaf am gymorth ariannol.

101. Cyn y newid yn 2012, roedd CICA yn gallu arfer disgrisiwn ym mhob achos, i roi dyfardaliadau i'r rheini a gafodd ddedfryd sydd heb ei disbyddu lle'r oedd rhesymau eithriadol dros beidio â gwrthod neu leihau dyfardaliad. Bwriad y rheol newydd oedd symleiddio'r Cynllun, i gadarnhau'r egwyddor bod digollediad a ariennir gan y wladwriaeth i gael ei ddarparu i ddiodeffwyr sydd heb achosi colled i gymdeithas drwy eu hymddygiad troseddol, a chaniatáu penderfynu sy'n fwy tryloyw, eglur a chyson.
102. Roedd y dystiolaeth a gawsom o set ddata llwyth achosion CICA yn dangos, mewn 8% o'r holl achosion a wrthodwyd, mai'r prif reswm am hynny oedd bod yr ymgeisydd wedi cael euogfarn a oedd heb ei disbyddu. Hwn oedd y pumed prif reswm mwyaf cyffredin dros wrthod cais, ar ôl anaf nad oedd ar y tariff, diffyg cydweithredu â CICA, dim trosedd treisgar, a diffyg gweithredu i ddod â'r ymosodwr o flaen ei well.

**Y prif resymau dros wrthod achosion**



103. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon am effaith rheol 2012 ar ddiodeffwyr cam-drin, camfanteisio ac ymddygiad cyfyngol neu orthrechol, gan ddadlau nad yw'r Cynllun yn gwahaniaethu rhwng diodeffwyr a orfodwyd i droseddu gan gamfanteiswyr a chamdrinwyr, a throseddwyr sydd â mwy o alluedd dros eu gweithredoedd. Mae rhanddeiliaid wedi dweud bod hyn yn cosbi unigolion sydd eisoes wedi cael profiadau dirdynol, ac y gallai gael effaith anghymesur ar ddiodeffwyr masnachu pobl neu gamfanteisio rhywiol. Yn ei adroddiad interim am atebolrwydd a mecanweithiau unioni ar gyfer goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, roedd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi argymhell diwygio'r rheol fel na fydd ceisiadau am ddigollediad yn cael eu gwrthod yn awtomatig mewn amgylchiadau lle mae euogfarn droseddol yr ymgeisydd yn debygol o fod yn gysylltiedig â'i brofiad o gam-drin plant yn

rhywiol, a bod pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau.<sup>20</sup> Roedd y Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr blaenorol hefyd wedi galw am y newidiadau hyn yn y rheol, gan argymhell bod mwy o ddisgresiwn ar gyfer dioddefwyr camfanteisio, cam-drin a rheolaeth drwy orfodaeth yn benodol.<sup>21</sup> Roedd y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Oedolion sydd wedi Goroesi Cam-drin Rhywiol yn ystod Plentyndod wedi mynd ymhellach, gan alw yn ei adroddiad *Survivor's experience of court and applying for compensation* a gyhoeddwyd yn Hydref 2019 am ddiddymu'r rheol ar euogfarnau sydd heb eu disbyddu.

104. Bwriad y rheol bresennol yw adlewyrchu graddau'r niwed i eraill a chost ymddygiad troseddol i gymdeithas wrth benderfynu ar gymhwysra i gael digollediad. Mae unrhyw newid yn y maes hwn yn debygol o wneud y Cynllun yn fwy cymhleth ac o ymestyn y cyfnod y mae CICA yn ei gymryd i benderfynu ar gymhwysra. Rhaid i ni hefyd roi ystyriaeth i'r ffaith bod pob unigolyn a gafodd euogfarn sydd heb ei disbyddu yn un a gafwyd yn euog o drosedd, a'i bod yn debygol y bydd amgylchiadau penodol sy'n ei wneud yn agored i niwed wedi cael eu cyflwyno mewn ple i liniaru ac wedi eu hystyried yn ystod y dedfrydu. O dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, rhaid i ddiodesfwyr ysgwyddo effaith eu troseddu yn deg ac, yn ein barn ni, mae hyn yn cynnwys eu heithrio o dderbyn digollediad o'r math hwn, nes bydd eu heuogfarn wedi cael ei disbyddu.
105. Mae'r rheol bresennol yn gymwys i'r un graddau i holl ddiodesfwyr troseddau treisgar sy'n gwneud cais i'r Cynllun, ac mae'n darparu ar gyfer dull graddedig o wrthod neu leihau dyfarndaliadau ar sail difrifoldeb yr euogfarn, amgylchiadau'r troseddwr a'r amgylchiadau lliniarol sy'n gymwys. Credwn fod man cychwyn y rheol ar euogfarnau sydd heb eu disbyddu – lle bydd unigolion a gafodd euogfarn sydd heb ei disbyddu a arweiniodd at ddedfryd gymunedol neu ddedfryd o garchar yn anghymwys i gael dyfarndaliad – yn briodol a'i bod yn bwysig parhau i adlewyrchu'r costau o droseddu i gymdeithas ac i'r wladwriaeth.
106. Ar ôl ystyried hyn yn ofalus, nid ydym yn credu bod modd ymrwymo i wneud unrhyw newid yn y rheol hon, heb danseilio egwyddorion canolog y Cynllun a chreu'r posibilrwydd o wahaniaethu sylweddol a her i weithrediadau.

## Rheol “yr un to”

107. Ers cyflwyno digolledu am anafiadau troseddol ym 1964, mae pob cynllun a gafwyd wedyn wedi cynnwys rheolau i atal gwneud dyfarndaliadau lle'r oedd yr ymgeisydd a'r ymosodwr yn oedolion a oedd yn cyd-fyw fel aelodau o'r un teulu. Y bwriad yw diogelu

<sup>20</sup> Interim Report of the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse, adran 5.2, Ebrill 2018  
<https://www.iicsa.org.uk/publications/inquiry/interim>

<sup>21</sup> Compensation without re-traumatisation: The Victims' Commissioner's Review into Criminal Injuries Compensation, Ionawr 2019 - <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/compensation-without-re-traumatisation-the-victims-commissioners-review-into-criminal-injuries-compensation/>

dioddefwyr rhag cael eu cymell neu eu gorfodi i wneud hawliad am ddigollediad, a sicrhau hefyd na fydd ymosodwyr yn elwa o'r dyfarnaliad a fwriadwyd ar gyfer yr un sydd wedi dioddef dan eu llaw. Hyd at Fehefin 2019, roedd y Cynllun yn darparu ar wahân ar gyfer anafiadau troseddol a gafwyd cyn ac ar ôl 1 Hydref 1979. O dan baragraff 19 o'r Cynllun (y rheol cyn 1979, sydd bellach wedi'i dileu), ni fyddai dyfarnaliad wedi'i wneud os oedd yr ymgeisydd a'r ymosodwr, ar adeg y digwyddiad a achosodd yr anaf, yn cyd-fyw fel aelodau o'r un teulu; roedd y rheol yn gymwys i oedolion a phlant.

108. Dyfarnodd y Llys Apêl yn achos JT fod "rheol yr un to" cyn 1979 yn wahaniaethol. O ganlyniad i hyn, roeddem wedi diwygio Cynllun 2012 i ddileu'r rheol hon mewn perthynas ag anafiadau troseddol a gafwyd cyn 1 Hydref 1979. Roeddem hefyd, fel eithriad ac mewn ymateb uniongyrchol i'r dyfarniad, wedi darparu i ganiatáu ceisiadau gan ddioddefwyr a allai fod heb ymgeisio i'r Cynllun o'r blaen oherwydd y rheol, a hefyd i ganiatáu ail gais gan ymgeiswyr y gwrthodwyd eu digolledu o'r blaen ar sail rheol yr un to cyn 1979.
109. Yn rhan o'r adolygiad, roeddem wedi ymrwymo i ystyried y rheol un to sy'n aros, sy'n gymwys i oedolion yn unig, sydd yn rhan o hyd o'r Cynllun 2012 diwygiedig. Mae'r rheol hon yn atal gwneud dyfarnaliadau os oedd yr ymgeisydd a'r ymosodwr, ar adeg y digwyddiad a achosodd yr anaf, yn oedolion a oedd yn cyd-fyw fel aelodau o'r un teulu a'u bod yn parhau i gyd-fyw felly. Er hynny, gellir gwneud dyfarnaliadau lle nad yw'r ymgeisydd a'r ymosodwr yn cyd-fyw bellach a'u bod yn annhebygol o gyd-fyw eto.
110. Credwn fod mesurau diogelu i sicrhau na fydd ymosodwyr yn elwa o ddyfarnaliadau i ddioddefwyr yn rhai sy'n rhan bwysig o'r Cynllun; maent yn diogelu dioddefwyr rhag pwysau gormodol a'u pwrpas yw sicrhau na fydd ymosodwyr yn gallu cael gafael ar ddigollediad a fwriadwyd ar gyfer y rhai a ddioddefodd dan eu llaw. Rydym wedi adolygu'r mesurau diogelu sydd eisoes ar waith, yn cynnwys rheolau sy'n galluogi CICA i wrthod dyfarnaliadau lle gallai ymosodwyr elwa ohonynt.<sup>22</sup> Yn ein barn ni, mae'r mesurau diogelu hyn yn ddigonol, ac nid ydym yn credu y dylai perthnasoedd teuluol fod yn rhwystr i ddioddefwyr rhag cael digollediad y byddai ganddynt hawl i'w gael fel arall, ar yr amod nad oes posibilrwydd y bydd yr ymosodwr yn elwa. Rydym yn cynnig dileu'r rheol un to sy'n aros o'r Cynllun.

### Cwestiwn

5. A ydych yn cytuno â'n cynnig i ddileu'r rheol un to sy'n aros, sy'n gymwys i oedolion yn unig, o'r Cynllun?

<sup>22</sup> Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 (diwygiwyd) paragraff 21

## Gofyniad am hysbysu'r heddlu

111. Mae'r Cynllun yn gosod rheolau cymhwysra sy'n cydnabod y rôl sydd gan yr ymgeisydd wrth geisio cyfiawnder. Cyflwynwyd rheol yn 2012 yn gofyn am hysbysu'r heddlu am y digwyddiad lle anafwyd yr ymgeisydd cyn gynted ag yr oedd hynny'n rhesymol ymarferol ac wedyn am gydweithredu gan yr ymgeisydd i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol i ddod â'r troseddwr o flaen ei well.<sup>23</sup>
112. O dan Gynlluniau blaenorol, gellid hysbysu "awdurdodau priodol" eraill am droseddau treisgar mewn rhai amgylchiadau i ddibenion digolledu. Mae'r newid yn y gofyniad am hysbysu yn 2012 wedi helpu i sicrhau bod CICA yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arno i benderfynu a yw trosedd treisgar wedi digwydd, ac i ddangos a yw'r ymgeisydd wedi cydweithredu'n llwyr â'r broses cyfiawnder. Nid yw'r Cynllun yn gofyn yn benodol mai'r dioddefwr fydd yn hysbysu'r heddlu am y digwyddiad, dim ond bod yr heddlu'n cael ei hysbysu am y digwyddiad lle cafwyd yr anaf.
113. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon bod y gofyniad i hysbysu'r heddlu yn unig yn cael effaith niweidiol ar ddioddefwyr cam-drin na wnaent byth hysbysu'r heddlu am ddigwyddiad neu a fydd yn oedi am gryn amser cyn rhoi gwybod am ddigwyddiad, fel ei bod yn bosibl y bydd dioddefwyr a fyddai'n gymwys fel arall i gael digollediad heb allu hawlio dyfardaliad. Codwyd materion hefyd mewn perthynas â'r rheini sydd wedi hysbysu am ymosod corfforol neu rywiol yn y gwaith, er enghraifft, swyddogion carchar a gweithwyr mewn gwasanaethau brys fel parafeddygon, drwy weithdrefnau mewnol ac sydd un ai wedi bod yn anymwybodol o'r gofyniad am hysbysu'r heddlu, neu heb allu cael cyfeirnod trosedd.
114. Tynnwyd sylw hefyd at rwystrau mwy cyffredinol y mae dioddefwyr trais rhywiol yn gallu eu hwynebu wrth hysbysu'r heddlu am eu cam-drin, fel yr ofn o ymchwiliadau ymyrgar neu fgythiol, peri iddynt deimlo'n gyfrifol am y trais y maent wedi'i brofi, a gorfod mynd drwy brosesau cyfiawnder troseddol sy'n anodd a drslyd.
115. Gwneir ymdrechion cyffredinol ar draws y system cyfiawnder troseddol i ymateb i nifer o'r pryderon hyn. Fel y nodwyd yn y Strategaeth Dioddefwyr, mae mentrau wedi dechrau i ddelio â thangofnodi troseddau cam-drin rhywiol a chorfforol drwy gydnabod ac ymateb i anghenion dioddefwyr wrth iddynt ymadfer, yn ogystal â gwella dealltwriaeth o'r pwysigrwydd o gael prosesau tryloyw a gwybodaeth hawdd ei deall. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo hefyd i wella gwasanaethau i ddioddefwyr trais rhywiol yn benodol, drwy symleiddio'r cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael, a chryfhau'r Cod Dioddefwyr i sicrhau bod hawliau dioddefwyr yn cael eu diogelu'n ddigonol.
116. Rydym yn credu o hyd fod helpu'r awdurdodau i ddod â throseddwyr o flaen eu gwell yn rhan hanfodol o gynllun digolledu a ariennir gan y wladwriaeth a bod hyn yn gallu bod yn bwysig o ran atal ymosodwyr rhag anafu rhywun arall. Mae'r gofyniad am

<sup>23</sup> Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 (diwygiwyd) paragraff 22

hysbysu'r heddlu yn helpu i leihau'r angen am ddarparu gwybodaeth gan ymgeiswyr i CICA yn y lle cyntaf, ac mae'n bwysig ar gyfer atal hawliadau twyllodrus.

117. Mae hefyd yn bwysig o ran sicrhau cysondeb gan CICA wrth weithredu'r Cynllun ac wrth benderfynu, yn ôl pwysau tebygolrwydd, a yw trosedd treisgar wedi digwydd. Mae canllawiau CICA yn gofyn i swyddogion hawliadau roi ystyriaeth i effaith seicolegol y troseddau ar ddioddefwyr a sut y gall hyn ddylanwadu ar oedi cyn hysbysu'r heddlu, gan gymryd gofal neilltuol mewn hawliadau sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol, paratoi i bwrpas rhyw a gorfodaeth, a masnachu pobl.
118. Felly, rydym yn bwriadu cadw'r gofyniad am hysbysu'r heddlu yn y Cynllun.
119. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ystyried sut byddwn, drwy weithredu'r Cod Dioddefwyr newydd a thrwy fwy o ymgysylltu â phartneriaid ar draws y system cyfiawnder troseddol, yn gallu sicrhau bod dioddefwyr yn ymwybodol o'r angen i hysbysu'r heddlu am ddiogwyddiad er mwyn bod yn gymwys i gael digollediad.

## **Gweithwyr y gwasanaethau brys**

120. Oherwydd y ffordd o gymhwyso'r Cynllun, bydd unrhyw weithiwr yn y gwasanaethau brys sy'n profi ymosodiad wrth ei waith, yn cynnwys parafeddygon a diffoddwyr tân ymysg eraill, yn cael ei ystyried yn ddioddefwr uniongyrchol o ganlyniad i drosedd treisgar bwriadol, yn yr un modd â cheisiadau gan yr holl grwpiau dioddefwr eraill, a bydd yn cael ei asesu ar sail yr un meini prawf cymhwystra.
121. Lle mae gweithiwr yn y gwasanaethau brys yn cael ei anafu o ganlyniad i drosedd treisgar heblaw ymosod, bydd ei gais yn cael ei ystyried o dan baragraff 5 o'r Cynllun, sy'n nodi y bydd risg eithriadol a wynebwr wrth gyfyngu neu atal trosedd yn gallu bod yn gymwys ar gyfer dyfarndaliad. Mae hyn yn cynnwys risg eithriadol a wynebwr wrth weithio, gwirfoddoli neu gynorthwyo swyddog heddlu. Fodd bynnag, mae'r paragraff hefyd yn egluro na fydd risg yn cael ei hystyried yn eithriadol os byddai'n cael ei disgwyl fel arfer yng ngwaith yr ymgeisydd.
122. Wrth asesu hawliad o dan baragraff 5, bydd gweithwyr achosion CICA yn arfer disgrisiwn ym mhob achos, gan ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys a yw'r ymgeisydd wedi cael ei hyfforddi i ddelio â risgiau tebyg, ac a oedd ei ymyrraeth wedi rhwystro canlyniad mwy difrifol.
123. Mae'n bwysig hefyd fod gweithwyr yn y gwasanaethau brys yn hysbysu'r heddlu am y digwyddiad, yn yr un modd â phawb arall sy'n ymgeisio i'r Cynllun. Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod rhai o weithwyr y gwasanaethau brys yn gwneud adroddiad yn lle hynny drwy weithdrefnau mewnol yn y gweithle, gan gamgymryd bod hynny'n ddigonol o dan y Cynllun.

124. Rydym yn teimlo, felly, er bod y Cynllun yn effeithiol gan mwyaf o ran cynorthwyo'r grŵp dioddefwyr hwn, fod lle i wneud mwy i hybu ymwybyddiaeth o'r Cynllun a'i feini prawf cymhwysra ymysg gweithwyr y gwasanaethau brys. Rydym yn ymrwymo hefyd i ystyried ffyrdd i sicrhau, pan fydd gweithwyr y gwasanaethau'r brys yn hysbysu'r heddlu am ddigwyddiad, y byddant yn cael eu cyfeirio at y Cynllun, yn yr un modd â'r holl grwpiau dioddefwyr eraill.



## Adran 4: Dyfarndaliadau am anafiadau

### Y dyfarndaliadau lleiaf a mwyaf

125. Mae hawliadau unigol am ddigollediad yn cael eu hasesu ar sail tariff anafiadau sydd yn Atodiad E i'r Cynllun. Mae bron 400 o wahanol anafiadau cymwys yn y Cynllun. Bydd pob anaf yn cael ei osod mewn band dyfarndaliad sy'n cynnwys anafiadau sy'n debyg o ran eu natur neu lefel eu difrifoldeb; a rhoddir gwerth penodol i bob band dyfarndaliad. Y dyfarndaliad lleiaf y gellir ei roi am anaf ar hyn o bryd yw £1,000; y dyfarndaliad mwyaf am anaf yw £250,000.
126. Yn gyffredinol, mae dyfarndaliadau digolledu sydd ar gael o dan y Cynllun (a all gynnwys colli enillion, treuliau arbennig neu, mewn hawliadau am ddigwyddiadau angheuol, taliadau ar gyfer dibynyddion neu blant) yn cael eu capio ar uchafswm o £500,000. Mae rhanddeiliaid wedi beirniadu gwerth y dyfarndaliadau am anaf sydd ar gael o dan y Cynllun, gan nodi nad ydynt yn gyfwerth â gwerthoedd am anafiadau mewn hawliadau sifil, ac wedi galw am gynyddu'r uchafswm sydd ar gael yn unol â chwyddiant.
127. Ein Cynllun ni yw un o'r rhai haelaf yn y byd o hyd<sup>24</sup>. Y bwriad wrth wneud dyfarndaliadau am anaf yw cydnabod niwed a rhoi arwydd pwysig o gydymdeimlad y cyhoedd sy'n gallu helpu dioddefwyr a gafodd yr anafiadau mwyaf difrifol i ymadfer ar ôl trosedd treisgar. Rydym hefyd yn cydnabod nad oes yr un swm digolledu a all byth wneud iawn am y trawma y mae rhywun wedi'i brofi ac, felly, ei bod hefyd yn bwysig sicrhau bod dioddefwyr yn gallu cael cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i'w helpu i ymadfer o'u hanafiadau. Rydym hefyd yn dymuno sicrhau bod y Cynllun yn fforddiadwy ac yn ariannol gynaliadwy yn y dyfodol. Felly, nid ydym yn credu ei bod yn briodol cynyddu dyfarndaliadau am anaf neu'r cap yn unol â chwyddiant ac nid ydym yn bwriadu newid gwerthoedd lleiaf a mwyaf y dyfarndaliadau sydd ar gael o dan y Cynllun ar hyn o bryd.

<sup>24</sup> Y cap tebyg agosaf yw'r un yng nghynllun Ffrainc, lle mae'r dyfarndaliad mwyaf yn cael ei gapio ar €476,000 (tua £428,000 ar adeg ysgrifennu hwn). Mae'r capiau uchaf yn amrywio'n sylweddol rhwng £15,000 a £500,000. Nid oes capiau yn y cynlluniau yn y Ffindir, yr Almaen a Québec. O dan gynllun y Ffindir, mae'n ofynnol i ddioddefwyr hawlio iawndal gan y cyflawnwr yn gyntaf, lle bo'n berthnasol. Mae pwrpas cynllun yr Almaen yn fwy cyfyng, gan mai dim ond mewn achosion lle cafwyd niwed i iechyd corfforol neu feddyliol sy'n para am 6 mis neu fwy y gwneir dyfarndaliadau, ac mae lefel yr ymwybyddiaeth o'r cynllun ymysg y cyhoedd yn isel. Yng nghynllun Québec, mae'r terfynau amser a'r gofyniad am brawf bod trosedd wedi'i gyflawni yn debyg i hynny yn y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol.

## Digolledu am anaf meddyliol

128. O dan y Cynllun presennol, ystyrir anaf meddyliol dim ond lle mae'n analluogi (h.y. yn cael effaith niweidiol sylweddol ar weithgareddau arferol y person o ddydd i ddydd), a gall fod yn barhaol neu'n amharhaol. Asesir ei ddifrifoldeb yn ôl graddau a pharhad yr effeithiau ar bob ymgeisydd. Mae cwmpas eang y disgrifiadau presennol yn gydnabyddiaeth bod y Cynllun yn digolledu am anaf meddyliol, yn hytrach na salwch meddwl, ac maent yn galluogi CICA i roi sylw i wydnwch personol yr unigolyn a ffactorau perthnasol eraill wrth asesu graddau'r effaith o anaf meddyliol ym mhob achos.

### Gofyniad am ddiagnosis neu brognosis

129. Mae'n ofynnol cael "diagnosis neu brognosis" gan seicolegydd neu seiciatrydd clinigol er mwyn i ymgeiswyr fod yn gymwys am ddyfarndaliadau o dan y Cynllun am anaf meddyliol sy'n analluogi neu sy'n barhaol. Nid yw'r Cynllun yn pennu asesiadau gan arbenigwyr meddygol penodol ar gyfer unrhyw anafiadau eraill sydd ar y tariff, er bod modd, wrth gwrs, i CICA ofyn am asesiad arbenigol o'r fath mewn achosion penodol lle mae angen tystiolaeth ychwanegol er mwyn penderfynu'r dyfarndaliad mwyaf priodol ar gyfer anaf.

130. Mynegwyd pryderon bod y gofyniad am ddiagnosis arbenigol ar gyfer anaf meddyliol sy'n analluogi yn un sy'n anghymesur ac yn creu rhwystrau diangen wrth geisio digollediad, o ran amser ac adnoddau. Er bod costau am adroddiadau gan seicolegwyr neu seiciatryddion clinigol yn gallu bod yn sylweddol, gwnaiff CICA gyfarwyddo a thalu'r costau hynny lle bo angen, gan gydnabod na fyddai'r costau hynny'n fforddiadwy fel arall i nifer fawr o ymgeiswyr. Rydym wedi ystyried y materion hyn ac wedi edrych ar y graddau y gall gweithwyr meddygol ac iechyd meddwl proffesiynol eraill fod yn gymwys i ddarparu tystiolaeth ar y lefel sy'n ofynnol gan CICA i asesu anaf meddyliol sy'n analluogi.

131. Oherwydd eu natur, mae'n fwy anodd cael barn feddygol wrthrychol am anafiadau meddyliol a chael asesiad cywir o'r prognosis ar gyfer ymadfer. Er y gall rhai ymgeiswyr ddewis gofyn am atgyfeiriad clinigol eu hunain, gan olygu talu costau dechreuol ganddyn nhw (y gall CICA eu had-dalu'n ddiweddarach), mae trefniadau a wnaed gan CICA yn golygu na fydd gofyn i'r ymgeisydd gael diagnosis/prognosis clinigol. Mae tîm mewnol o seicolegwyr yn CICA sy'n asesu nifer mawr o hawliadau ar sail cofnodion meddygol, ac mae'r hawliadau sy'n galw am asesiad wyneb yn wyneb yn cael eu hatgyfeirio i ddarparwr o dan gontract y mae ei gostau'n cael eu talu gan CICA.

132. Wrth benderfynu a yw'n briodol gwneud dyfarndaliad, mae angen asesu'r holl wybodaeth sydd ar gael, oherwydd cymhlethdod yr amodau ar gyfer gwneud diagnosis. Hefyd, rhaid gallu priodoli'r anaf meddyliol yn uniongyrchol i'r trosedd treisgar a ddioddefwyd; bydd clinigydd profiadol yn gallu ffurfio barn gytbwys am hyn, gan ganfod

anafiadau meddyliol y mae'r Cynllun i fod i ddigolledu amdanynt oherwydd eu difrifoldeb, ac ystyried a oes unrhyw gyflyrau blaenorol sydd wedi'u gwaethygu. Gan gydnabod natur gymhleth anafiadau meddyliol, mae'n bwysig sicrhau bod achosion yn cael eu hasesu gan y rheini sydd â'r arbenigedd angenrheidiol ac sydd wedi cael yr hyfforddiant gofynnol, er mwyn sicrhau dull cyson a chywir o weithredu.

133. Felly mae'r gofyniad am ddiagnosis neu brognosis yn fesur diogelu pwysig i sicrhau bod taliadau am anafiadau meddyliol sy'n analluogi, a all fod yn ychwanegol i daliad am anaf corfforol neu ar wahân iddo, yn cael eu gwneud mewn achosion priodol ac i'r rheini a brofodd yr effaith fwyaf difrifol. Mae'r adnoddau a dulliau arbenigol a ddarparwyd gan CICA yn ysgafnhau'r baich ar ysgwyddau ymgeiswyr i raddau helaeth ac yn helpu i osgoi'r angen am asesiadau meddygol wyneb yn wyneb, a all achosi ail drawma, lle mae hynny'n bosibl. Felly rydym yn bwriadu cadw'r gofyniad hwn.

### Newid y llinell derfyn o 2 i 3 blynedd

134. Er mwyn symlrwydd ac i sicrhau bod y Cynllun yn cadw'n wastad â newidiadau yn ein dealltwriaeth o anaf meddyliol, rydym hefyd yn dymuno ystyried a yw llinellau terfyn y bandiau presennol ar gyfer anaf meddyliol sy'n analluogi – yn amrywio o 28 wythnos i fwy na phum mlynedd – wedi'u tynnu'n briodol ac yn adlewyrchu tystiolaeth feddygol bresennol am y cyfnod adfer disgwylidig arferol ar ôl anaf meddyliol a achoswyd gan drawma gan nodi, wrth gwrs, y bydd hyn yn wahanol ym mhob achos.
135. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod y Cynllun yn delio'n deg a chyson â holl ddiodefswyr troseddau treisgar. Mae rhywfaint o berygl o anghysondeb wrth asesu'r cyfnod adfer ar ôl anaf meddyliol os cafwyd oedi cyn darparu triniaeth briodol. Gellir cymryd y bydd anaf yn fwy difrifol (h.y. yn para'n hirach) dim ond am nad oedd yr ymgeisydd wedi dechrau triniaeth, neu wedi gallu ei dechrau, am gryn amser ar ôl y digwyddiad.
136. Mae'r llinellau terfyn rhwng anafiadau meddyliol sy'n analluogi yn Rhan A y tariff fel a ganlyn:

Disgrifiad	Band	Gwerth
Anaf meddyliol sy'n analluogi yn para rhwng 6 wythnos a 28 wythnos	A1	£1,000
Anaf meddyliol sy'n analluogi yn para rhwng 28 wythnos a 2 flynedd	A4	£2,400
Anaf meddyliol sy'n analluogi yn para rhwng 2 flynedd a 5 mlynedd	A7	£6,200
Anaf meddyliol sy'n analluogi yn para mwy na 5 mlynedd, ond nad yw'n parhaol	A9	£13,500
Anaf meddyliol parhaol – yn analluogi'n gymedrol	A11	£19,000
Anaf meddyliol parhaol – yn analluogi'n ddifrifol	A13	£27,000

137. Mae clinigwyr wedi rhoi gwybod bod y llinell derfyn 2 flynedd rhwng y dyfarndaliadau presennol ym mandiau A4 ac A7 yn broblemus iawn, ac yn achosi anhawster sylweddol wrth wneud penderfyniadau. Y termau a ddefnyddir gan seicolegwyr clinigol wrth asesu achosion o'r fath yw 'cymhleth' ac 'anghymhleth', a chawsom ein cynghori bod llinell derfyn 3 blynedd yn cydweddu'n well â'r termau hyn ac felly y byddai'n fwy priodol.
138. Rydym yn cynnig newid y llinell derfyn o ddwy i dair blynedd, i sicrhau bod anafiadau meddyliol yn cael eu cymharu'n gyson ac yn deg ac yn cael eu digolledu'n unol â hynny.

### Cwestiwn

6. Beth yw'ch barn am newid y llinell derfyn o 2 i 3 blynedd?

### Cyfuno anafiadau meddyliol sy'n analluogi dros y tymor hwy

139. Fel y dangoswyd uchod, mae anafiadau meddyliol amharhaol sy'n analluogi dros y tymor hwy yn cael eu rhannu rhwng y rheini lle rhoddwyd prognosis sydd rhwng 2 flynedd a 5 mlynedd (A7) a'r rheini lle rhoddwyd prognosis o fwy na 5 mlynedd ond sydd heb fod yn barhaol (A9).
140. Yn y blynyddoedd diwethaf, cafwyd datblygiadau pwysig o ran deall iechyd meddwl yn gyffredinol, ond mae anafiadau i'r meddwl yn llawer mwy anodd eu hasesu o hyd nag y mae anafiadau corfforol. Mae CICA yn ffurfio barn ynghylch prognosiau yn gymharol gynnar yn ystod adferiad y dioddefwr, felly mae anawsterau'n codi ynglŷn â'r gallu i gategoreiddio anafiadau meddyliol tymor hwy yn gywir, yn enwedig rhwng y bandiau A7 ac A9 presennol.
141. Ar sail ein trafodaethau â chlinigwyr, yn cynnwys tîm seicolegwyr mewnol CICA, rydym yn deall y byddai mantais fawr mewn cyfuno'r ddau fand hyn. Byddai hyn yn golygu, ar y cyd â'r cynnig uchod, y byddai unrhyw anafiadau meddyliol sy'n analluogi sydd â phrognosis ar gyfer ymadfer o fwy na 3 blynedd yn cael eu cynnwys yn yr un categori.
142. Ar y cyd â newid y llinell derfyn o 2 i 3 blynedd, byddai anafiadau meddyliol sy'n analluogi yn gallu bod yn debyg i'r enghraifft isod. Mae'r enghraifft isod wedi'i seilio ar y bandiau a'r gwerthoedd newydd arfaethedig ar gyfer dyfarndaliadau sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraff 156.

<b>Disgrifiad newydd arfaethedig</b>	<b>Band Newydd</b>	<b>Gwerth Newydd</b>
Anaf meddyliol sy'n analluogi yn para rhwng 6 wythnos a 28 wythnos	A1	£1,000
Anaf meddyliol sy'n analluogi yn para rhwng 28 wythnos a 3 blynedd	A2	£2,000
Anaf meddyliol sy'n analluogi yn para mwy na 3 blynedd ond nad yw'n parhaol	A4	£8,000
Anaf meddyliol parhaol – yn analluogi'n gymedrol	A6	£20,000
Anaf meddyliol parhaol – yn analluogi'n ddifrifol	A7	£30,000

#### **Cwestiwn**


7. Beth yw'ch barn am y cynnig i gyfuno bandiau A7 ac A9 a fyddai, ar y cyd â'r cynnig uchod, yn golygu bod pob anaf meddyliol sy'n analluogi lle mae prognosis ar gyfer ymadfer o fwy na 3 blynedd yn cael ei gynnwys yn yr un categori?

## **Newidiadau yn y tariff anafiadau**


143. Mae'r tariff anafiadau yn Atodiad E i'r Cynllun yn rhestru ac yn disgrifio anafiadau cymwys a'r dyfarndaliadau cysylltiedig. Cyflwynwyd y tariff ym 1996, yn dilyn y deddfu ar gyfer Deddf Digolledu am Anafiadau Troseddol 1995 a gwnaed newidiadau yn 2001, 2008 a 2012.
144. Er 2012 mae'r tariff wedi'i rannu'n ddwy. Mae Rhan A yn cynnwys 341 o anafiadau corfforol a meddyliol wedi'u rhannu rhwng 20 o fandiau dyfarniad, a'u dosbarthu yn ôl eu difrifoldeb; mae Rhan B yn cynnwys 52 o anafiadau cysylltiedig ag ymosod rhywiol a cham-drin corfforol wedi'u rhannu rhwng 15 o fandiau dyfarniad, ac mae hefyd yn cynnwys taliadau eraill fel dyfarndaliadau profedigaeth.

145. Mae dadansoddiad o set ddata llwyth achosion CICA wedi dangos bod mwyafrif y prif ddyfarndaliadau am anaf a wnaed gan CICA mewn cysylltiad ag anafiadau corfforol a meddyliol (Rhan A) yn rhai sydd yn y pedwar band dyfarniad cyntaf (A1 i A4). Roedd dyfarndaliadau mewn perthynas ag ymosodiadau rhywiol wedi'u dosbarthu'n fwy cyffredinol rhwng y bandiau, er bod ychydig mwy na hanner yr holl ddyfarndaliadau ym mandiau B9, B11 a B12.

**Nifer y prif ddyfarndaliadau, fesul band Rhan A**



**Nifer y prif ddyfarndaliadau, fesul band Rhan B**



**Y ddadl o blaid newid a'r cynigion**

146. Mae dioddefwyr a'u cynrychiolwyr wedi dweud wrthym fod y Cynllun a'r tariff anafiadau yn anodd eu deall a'u defnyddio. Yn adroddiad y Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr blaenorol am brofiadau dioddefwyr o ddefnyddio'r Cynllun, mynegwyd pryderon penodol am gymhlethdod y tariff, a nodwyd bod nifer mawr o ddioddefwyr "yn ei chael yn anodd deall faint y gallent fod â hawl i'w gael". Mae anhawster wrth

amcangyfrif swm y dyfarndaliadau posibl yn creu'r perygl o godi disgwyliadau ymgeiswyr a gallai arwain at anfodlonrwydd â'r canlyniadau i hawliadau. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys argymhelliad y dylid darparu cyllid ychwanegol i sicrhau bod dioddefwyr agored i niwed yn gallu cael cefnogaeth gyfreithiol wrth ymgeisio i'r Cynllun.<sup>25</sup>

147. Rydym wedi edrych yn fanwl ar bryderon a fynegwyd gan ymgeiswyr nad yw'r tariff yn hawdd ei ddeall; mae'n hir iawn (yn cwmpasu un rhan o dair o'r Cynllun), mae ei threfn yn gymhleth, nid yw'r cynllun yn hawdd ei ddilyn bob amser a gall y termau fod yn astrus. Mae'n bosibl bod y canfyddiad hwn o'i gymhlethdod wedi peri i rai ymgeiswyr ddewis cael cynrychiolaeth gyfreithiol. Mewn achosion o'r fath, byddai cymaint â 25% o'u dyfarndaliad yn gallu cael ei gadw gan gyfreithiwr yn dâl am ei wasanaeth. Ein bwriad ni yw y dylai ymgeiswyr deimlo bod y Cynllun yn hygyrch a'i fod yn rhoi hyder iddynt fynd drwy'r broses ymgeisio heb wasanaeth cyfreithiwr.
148. Mae ein cynigion yn ceisio cadw cydbwysedd rhwng symleiddio'r Cynllun ac adlewyrchu natur a difrifoldeb yr anafiadau a gafwyd. Wrth gynnig diwygiadau i'r tariff, nid tynnu arian o'r Cynllun yw ein bwriad. Mae enghreifftiau lle byddai'r cynigion yn gallu arwain at ddyfarndaliadau mwy ar gyfer rhai anafiadau a dyfarniadau llai ar gyfer eraill. Rydym wedi ceisio cydbwysu'r effaith anfwriadol hon ar draws y tariff fel na fydd yn effeithio ar un grŵp o anafiadau'n fwy na'i gilydd. Ceir rhagor o fanylion am y dulliau gweithredu arfaethedig yn yr Asesiad o'r Effaith. Byddai unrhyw ostyngiad yng nghost y Cynllun o ganlyniad i symleiddio'r tariff yn cael ei ddefnyddio i ariannu diwygiadau eraill i'r Cynllun.
149. Roedd symlrwydd, tryloywder a hwylustod yn themâu allweddol a nodwyd drwy'r adolygiad o'r Cynllun. Y themâu hyn, ynghyd â'r angen am gysondeb, sydd wedi siapio'r dulliau gweithredu arfaethedig sydd wedi'u disgrifio isod. Bydd y dulliau hyn yn ei gwneud yn haws i ymgeiswyr ragweld y dyfarndaliad y gallent ei gael a byddant yn teimlo eu bod yn gallu gwneud cais eu hunain heb fod angen help cyfreithiol. Byddant hefyd yn gallu lleihau straen yn ystod y broses ymgeisio, a lleddfu anfodlonrwydd ymysg ymgeiswyr oherwydd camddealltwriaeth ar ôl cael y llythyr penderfynu gan CICA. Mae disgwyl hefyd y bydd symleiddio'r Cynllun yn creu manteision wrth weithredu a allai arwain at benderfynu cyflymach gan CICA.

### **Rhan A – Anafiadau corfforol a meddyliol**

150. Mae Rhan A yn cynnwys 20 o fandiau a 341 o wahanol anafiadau corfforol a meddyliol. Yn sgil yr adolygiad yn 2012 a'r Cynllun a luniwyd wedyn, cafwyd newidiadau yn Rhan A y tariff a oedd wedi'u bwriadu, ynghyd â diwygiadau eraill, i wneud y Cynllun yn fwy fforddiadwy. Yn yr adolygiad hwn, rydym wedi datblygu pum

<sup>25</sup> Compensation without re-traumatisation: The Victims' Commissioner's Review into Criminal Injuries Compensation, Ionawr 2019 - <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/compensation-without-re-traumatisation-the-victims-commissioners-review-into-criminal-injuries-compensation/>

dull o weithredu a fydd, yn unigol ac ar y cyd, yn gallu symleiddio Rhan A. Ar gyfer pob dull gweithredu, rydym wedi rhoi enghraifft o'r canlyniad posibl:

- 1) Symleiddio iaith;
- 2) Newid y termau am ddifrifoldeb anafiadau;
- 3) Lleihau nifer y bandiau;
- 4) Grwpio rhai anafiadau gyda'i gilydd, lle'r oedd yn briodol;
- 5) Newid y dull o ddisgrifio anafiadau i'r ymennydd.

#### *Symleiddio iaith*

151. Nod y dull hwn o weithredu yw rhoi'r gorau i ddefnyddio termau meddygol rhy gymhleth a defnyddio termau mwy cyffredin er mwyn gwella dealltwriaeth o anafiadau a'r disgrifiadau ohonynt. Byddai nodiadau esboniadol yn cael eu cynnwys, a allai gynnwys termau mwy technegol, gan gadw manylder lle'r oedd angen.
152. **Er enghraifft**, gallai hyn olygu defnyddio'r geiriau 'pont yr ysgwydd' yn hytrach na 'claficl', 'palfais' yn hytrach na 'sgapwla' a 'braich' yn hytrach na 'hwmerws', 'radiws' ac 'wlina'.

#### *Newid y termau am ddifrifoldeb anafiadau ac ymadfer*

153. Yn y tariff presennol, nid yw'r termau am ddifrifoldeb anafiadau yn gyson bob amser nac yn sensitif i'r graddau priodol. Byddai'r dull hwn o weithredu yn mireinio'r iaith a ddefnyddir er mwyn gwella cysondeb yn Rhan A a hyrwyddo dealltwriaeth.
154. **Er enghraifft**, gan fod y Cynllun ar gyfer dioddefwyr a gafodd yr anafiadau mwyaf difrifol, byddai galw rhai anafiadau'n 'fân anafiadau' yn gallu cael ei weld yn ansensitif ac yn gamarweiniol o bosibl. Yn lle hynny, gellid defnyddio'r tair gradd ganlynol lle bynnag y bo modd yn Rhan A: cymedrol, difrifol ac enbyd. Mewn achosion lle mae angen graddau pellach, gellid defnyddio 'difrifol iawn' ac 'enbyd iawn'.

#### *Lleihau nifer y bandiau*

155. Yn 2012 roedd pum band yn cynnwys anafiadau llai difrifol wedi cael eu tynnu o'r tariff; nid ydym yn cynnig rhesymoli'r anafiadau yn Rhan A ymhellach. Fodd bynnag, drwy'r adolygiad rydym wedi dysgu bod y rhan fwyaf o ddyfarndaliadau yn cael eu gwneud ar gyfer bandiau A1 i A16, ac rydym yn awgrymu y byddai lleihau nifer y bandiau yn gwneud Rhan A y tariff yn gliriach ac yn haws ei chwilio a'i ddefnyddio. Wrth wneud hyn, nid lleihau neu newid cost gyffredinol y Cynllun fyddai'r bwriad wrth gyfuno bandiau. Er hynny, rydym yn sylweddoli ei bod yn anochel y byddai cyfuno bandiau yn golygu rhoi dyfarndaliadau mwy ar gyfer rhai anafiadau a llai ar gyfer eraill.
156. **Er enghraifft**, mae'r model isod yn dangos yr effaith bosibl o hyn wrth leihau nifer y bandiau i 12: byddai'r anafiadau sydd ym mandiau A1 i A16 ar hyn o bryd yn cael eu crynhoi i wyth band newydd, gan adael yr anafiadau mwyaf difrifol sydd ym mandiau A17 i A20 ar hyn o bryd yn gymharol ddigyfnewid. Dylai'r bandiau newydd gynnwys anafiadau tebyg o ran difrifoldeb, a dylai gwerthoedd y bandiau adlewyrchu graddio priodol o ran difrifoldeb.



Band presennol	Dyfarndaliad presennol
A1	£1,000
A2	£1,500
A3	£1,800
A4	£2,400
A5	£3,500
A6	£4,600
A7	£6,200
A8	£11,000
A9	£13,500
A10	£16,500
A11	£19,000
A12	£22,000
A13	£27,000
A14	£33,000
A15	£44,000
A16	£55,000
A17	£82,000
A18	£110,000
A19	£175,000
A20	£250,000

Band newydd dichonol	Dyfarndaliad newydd dichonol
A1	£1,000
A2	£2,000
A3	£4,000
A4	£8,000
A5	£15,000
A6	£20,000
A7	£30,000
A8	£50,000
A9	£80,000
A10	£100,000
A11	£175,000
A12	£250,000

*Grwpio rhai anafiadau gyda'i gilydd, lle bo'n briodol*

157. Ar hyn o bryd, mae Rhan A y tariff yn cynnwys 341 o wahanol anafiadau. O dan y dull hwn o weithredu, byddai nifer yr anafiadau'n llai drwy eu grwpio, lle oedd hynny'n briodol, er mwyn ei gwneud yn haws i ymgeiswyr chwilio'r tariff.

158. **Mae'r enghraifft** isod yn dangos sut mae anafiadau i'r arddwrn wedi'u disgrifio yn y tariff presennol fel 10 anaf gwahanol a sut y gellid eu crynhoi i 6 anaf.

Anafiadau presennol		Disgrifiadau presennol
Wedi'i dorri – toriad Colles	Un arddwrn	Ymadfer sylweddol

Anafiadau newydd dichonol		Disgrifiadau newydd dichonol
Ysigiad mewn	Un arddwrn – analluogi am fwy na 13 wythnos	

neu doriad cyfatebol neu ddadleoli'r radiws distal		Anabledd sylweddol parhaus
	Y ddau arddwrn	Ymadfer sylweddol Anabledd sylweddol parhaus
Wedi'i dorri neu ei ddadleoli – yn cynnwys toriad sgaffoid	Un arddwrn	Ymadfer sylweddol
		Anabledd sylweddol parhaus
	Y ddau arddwrn	Ymadfer sylweddol
		Anabledd sylweddol parhaus
Wedi ei ysigo	Un arddwrn	Analluogi am 13 wythnos neu fwy
	Y ddau arddwrn	Analluogi am 13 wythnos neu fwy

	Y ddau arddwrn – analluogi am fwy na 13 wythnos
Dadleoliad/toriad neu doriad cyfatebol (Colles, sgaffoid neu radiws distal) mewn	Un arddwrn – ymadfer sylweddol
	Un arddwrn – anabledd sylweddol parhaus
	Y ddau arddwrn – ymadfer sylweddol
	Y ddau arddwrn – anabledd sylweddol parhaus

#### Newid y ffordd o ddisgrifio anaf i'r ymennydd

159. Mae ymgeiswyr a chydweithwyr gweithredol wedi nodi bod y disgrifiadau o anafiadau i'r ymennydd yn y tariff presennol yn ddryslyd iawn. Gall anafiadau i'r ymennydd fod yn gymhleth ac yn anodd eu categorio'n gywir, fel ei bod yn anodd chwilio'r tariff a deall penderfyniadau mewn achosion penodol.
160. Rydym yn cynnig dull symlach er mwyn cael gwared â dryswch a gwneud yr agwedd hon o'r tariff yn haws ei deall, drwy ddangos anafiadau i'r ymennydd ar ffurf tabl anafiadau. Y bwriad yw cadw'r disgrifiadau presennol ar gyfer graddio difrifoldeb yr anaf; er mwyn eglurdeb, maent wedi'u cynnwys yn y tabl a byddant yn aros yn rhan o'r Cynllun. Yn y tabl isod, y bandiau tariff arfaethedig yw'r rheini a fyddai ar gael pe byddai nifer y bandiau yn gostwng o 20 i 12 yn unol â'r enghraifft ar gyfer y cynnig ym mharagraff 156 uchod.

Anaf	Disgrifiad	Band Newydd Arfaethedig	Gwerth Newydd Arfaethedig
<b>Mân anaf i'r pen</b>	Un neu ragor o blith cyfergyd, amharu ar gydbwysedd neu gur pen – llai na 6 mis	A1	£1,000
<b>Mân anaf i'r pen - parhaol</b>	Un neu ragor o blith cyfergyd, amharu ar gydbwysedd neu gur pen – parhaol	A4	£8,000

<b>Niwed cymedrol i'r ymennydd – gweler y matrices</b>	Adferiad da, yn gallu cymdeithasu a dychwelyd i'r gwaith ond problemau parhaus o ran canolbwyntio, y cof, dadataliad hwyliau yn effeithio ar ffordd o fyw, gweithgareddau hamdden, rhagolygon am waith yn y dyfodol	A4-A6	£8,000 - £20,000
<b>Niwed cymedrol ddifrifol i'r ymennydd</b>	Rhywfaint o ddibyniaeth ar eraill, diffyg deallusol, newid personoliaeth, llai o allu i weithio, rhywfaint o effaith ar y synhwyrâu – nifer bach o symptomau'n bresennol	A7	£30,000
<b>Niwed difrifol i'r ymennydd</b>	Rhywfaint o ddibyniaeth ar eraill, diffyg deallusol, newid personoliaeth, llai o allu i weithio, rhywfaint o effaith ar y synhwyrâu – rhai symptomau'n bresennol ond nid y cyfan	A8	£50,000
<b>Niwed difrifol iawn i'r ymennydd</b>	Rhywfaint o ddibyniaeth ar eraill, diffyg deallusol, newid personoliaeth, llai o allu i weithio, rhywfaint o effaith ar y synhwyrâu – mwyaf y symptomau'n bresennol	A9	£80,000
<b>Niwed cymedrol enbyd i'r ymennydd</b>	Analluogi difrifol ar alluoedd corfforol neu feddyliol sy'n gofyn dibyniaeth sylweddol ar ofal proffesiynol neu ofal arall, gydag amharu amlwg ar ddeallusrwydd a phersonoliaeth, ymddygiad annormal a chyfathrebu gwael	A10	£100,000
<b>Niwed enbyd i'r ymennydd</b>	Cyfyngiad corfforol enbyd, effaith sylweddol ar y synhwyrâu gydag ychydig o fewnwelediad neu ostyngiad sylweddol mewn disgwylid oes. Dim neu nemor ddim ymateb ystyrion i'r amgylchedd, ychydig neu ddim gweithrediadau iaith, anymataliaeth ddwbl a'r angen am ofal nyrsio amser llawn neu drwy'r dydd a rhywfaint o'r nos	A11	£175,000
<b>Niwed enbyd iawn i'r ymennydd</b>	Dim symud corfforol defnyddiol, effaith sylweddol ar y synhwyrâu a rhywfaint o fewnwelediad. Dim neu nemor ddim ymateb ystyrion i'r amgylchedd, dim neu nemor ddim gweithrediadau iaith, anymataliaeth ddwbl a'r angen am ofal nyrsio amser llawn	A12	£250,000

161. Er bod y rhan fwyaf o'r categorïau anaf i'r ymennydd yn eu hegluro eu hunain, anaf cymedrol i'r ymennydd yw'r un mwyaf amwys sydd yn cynnig heriau i weithredwyr wrth wneud ac egluro penderfyniadau mewn ffordd sy'n bodloni ymgeiswyr. Yr anhawster wrth drafod anaf cymedrol i'r ymennydd yw sut i gysoni difrifoldeb y symptomau â hyd y cyfnod, a chyflwyno'r categorïau mewn ffordd sy'n glir ac yn cyfyngu disgrisiwn fel y gellir ei gymhwyso'n deg ac fel y bydd penderfyniadau mewn achosion penodol yn haws eu deall.

162. Rydym yn cynnig matrices ar wahân ar gyfer anaf cymedrol i'r ymennydd er mwyn dangos yr hawliau posibl. Credwn fod angen delio ar wahân â'r materion penodol sy'n gysylltiedig ag anaf cymedrol i'r ymennydd fel na fydd y tabl yn rhy gymhleth. Yn y matrices isod, y bandiau tariff arfaethedig yw'r rheini a fyddai ar gael pe byddai nifer y bandiau'n gostwng o 20 i 12 yn unol â'r cynnig ym mharagraff 156 uchod.

### Cwestiwn

8. Beth yw'ch barn am y dulliau arfaethedig o drin Rhan A (rhowch resymau dros eich ymatebion):

1) Symleiddio'r iaith?

<b>MATRICES ANAF CYMEDROL I'R YMENNYDD</b>			
<b>Adferiad da, yn gallu cymdeithasu a dychwelyd i'r gwaith ond problemau parhaus o ran canolbwyntio, y cof, dadataliad hwyliau yn effeithio ar ffordd o fyw, gweithgareddau hamdden, rhagolygon am waith yn y dyfodol.</b>			
<b>Difrifoldeb</b>	Uchel - mwyafrif y symptomau'n bresennol	A5	A6
	Canolig – rhai symptomau'n bresennol, ond nid y cyfan	A4	A5
	Isel – nifer bach o symptomau'n bresennol	A4	A4
		Byr - Llai na 6 mis	Canolig - 6 mis hyd at 2 flynedd
<b>Hyd y Cyfnod</b>			

2) Newid y termau am ddifrifoldeb anafiadau?

3) Lleihau nifer y bandiau?

4) Grwpio rhai anafiadau gyda'i gilydd, lle bo'n briodol?

5) Newid y ffordd o ddisgrifio anafiadau i'r ymennydd?

### Rhan B – Cam-drin rhywiol a chorfforol a thaliadau eraill

163. Cyflwynwyd Rhan B yng Nghynllun 2012 er mwyn diogelu dyfarndaliadau i ddioddefwyr cam-drin rhywiol a chorfforol. Gwnaed hyn er mwyn cydnabod bod troseddau o'r fath yn gallu cael effaith gorfforol a seicolegol hirdymor ar fywydau dioddefwyr o ddydd i ddydd.

164. Mae Rhan B wedi'i rhannu'n bedair adran:

- Anaf troseddol angheuol;

- Cam-drin corfforol (wedi'i rhannu ymhellach yn ôl a yw'r dioddefwr yn oedolyn, neu o dan 18oed / yn oedolyn heb alluedd);
- Cam-drin rhywiol (wedi'i rhannu ymhellach yn ôl a yw'r dioddefwr yn oedolyn, neu o dan 18oed / yn oedolyn heb alluedd);
- Taliadau eraill (yn cynnwys cael Heintiau a Drosoglwyddir yn Rhywiol / HIV / Hepatitis B neu C a beichiogwydd / colli ffetws).

165. Yn yr adolygiad hwn, rydym wedi datblygu pedwar dull o weithredu a fydd ar eu pen eu hunain ac ar y cyd yn gallu gwella Rhan B. Ar gyfer pob dull, rydym wedi amlinellu enghraifft ymarferol o'i effaith:

- 1) Symud y dyfarndaliad am anaf angheuol;
- 2) Symleiddio disgrifiadau o anafiadau;
- 3) Dileu'r gwahaniaethu rhwng rhai o dan 18 oed/oedolion heb alluedd meddyliol ac oedolion; a
- 4) Cynyddu dyfarndaliadau am anaf meddyliol.

#### *Symud y dyfarndaliad am anaf angheuol ('taliad profedigaeth')*

166. Nid yw'r dyfarndaliad am anaf angheuol yn Rhan B y tariff yn daliad am anaf i ddiodeffwr, ond yn daliad i deulu'r diodeffwr i gydnabod eu colled. Rydym yn awgrymu nad oes angen ei gysylltu â band penodol ac y byddai'n fwy priodol ei restru ym mhrif gorff y Cynllun, ochr yn ochr â manylion y taliadau eraill sydd ar gael mewn achosion lle mae person wedi'i ladd. Yn ogystal â hyn, er mwyn cysoni'r iaith â gweddill y Cynllun, rydym yn cynnig bod 'taliad profedigaeth' yn derm mwy priodol.

#### *Symleiddio disgrifiadau o anafiadau*

167. Yn yr un modd â Rhan A, bydd symleiddio'r disgrifiadau o anafiadau yn Rhan B yn eu gwneud yn fwy dealladwy. Mewn rhai achosion, lle mae gwahaniaethau yn yr iaith a'r disgrifiadau rhwng Rhan A a Rhan B byddent yn cael eu safoni er mwyn sicrhau cysondeb ym mhob rhan o'r tariff.

168. **Un enghraifft** bosibl o effaith ymarferol y dull hwn o weithredu fyddai safoni'r gofynion am ddiagnosis ar gyfer anaf meddyliol sy'n analluogi yn Rhan A a Rhan B gan eu bod wedi'u geirio'n wahanol ar hyn o bryd.

#### *Dileu'r gwahaniaethu rhwng rhai o dan 18 oed/oedolion heb alluedd meddyliol ac oedolion*

169. Un o'r newidiadau a gyflwynwyd yn y gorffennol yn y darpariaethau ar gyfer anafiadau rhywiol oedd cysoni disgrifiadau â'r rheini yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003. Yn 2012 cafodd anafiadau rhywiol eu gosod ar wahân yn Rhan B y tariff a'u rhannu'n ddwy adran yn ôl a oedd yr ymgeisydd yn oedolyn (17 o anafiadau), neu o dan 18oed / yn oedolyn heb alluedd (20 o anafiadau). Gwnaed hyn er mwyn cydnabod bod plant ac oedolion heb alluedd yn rhai sy'n agored i niwed. Yn y tariff anafiadau mae pum anaf ychwanegol yn yr adran ar gyfer rhai dan 18oed / oedolion heb alluedd. Yr anafiadau cam-drin rhywiol ychwanegol yn yr adran ar gyfer rhai dan 18oed /

oedolion heb alluedd yw anafiadau sydd yn yr adran ar gyfer oedolion ond sydd yn fwy difrifol neu'n digwydd yn fwy aml. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod.

Cam-drin corfforol:

B1 (£1,000) – ymosodiad(au) sy'n digwydd ar wahân i'w gilydd neu'n ysbeidiol sy'n arwain at wrymiau, tynnu gwallt o groen y pen ayb

B10 (£13,500) – patrwm cyson o drais mynych sy'n arwain at anafiadau lluosog difrifol (mae'r anaf hwn wedi'i gynnwys eisoes ond mae lefel y difrifoldeb yn uwch)

Cam-drin rhywiol:

B2 (£1,500) – mân anaf – gweithred(oedd) corfforol rhywiol anhreiddiol mynych ar ben dillad

B4 (£3,300) – ymosod rhywiol – un neu ragor o weithred(oedd) treiddiol amhidynnol neu eneuol ag organau cenhedlu – un digwyddiad

B5 (£4,400) - ymosod rhywiol – un neu ragor o weithred(oedd) treiddiol amhidynnol neu eneuol ag organau cenhedlu – dau neu ragor o ddigwyddiadau ar wahân

170. Mae rhai mân wahaniaethau, ond mae'r ddwy adran yn weddol debyg. Rydym yn ystyried cyfuno'r ddwy adran hyn er mwyn symleiddio a byrhau Rhan B. Os gwneir hynny, byddent yn cael eu cyfuno fel bod ymgeiswyr o bob oed yn dod o dan y darpariaethau ar gyfer yr holl anafiadau cam-drin rhywiol, yn cynnwys y pum anaf ychwanegol a restrwyd uchod ar gyfer cam-drin corfforol a rhywiol sy'n gymwys i rai dan 18oed/oedolion heb alluedd yn unig ar hyn o bryd.

*Cynyddu dyfarndaliadau am anaf meddyliol*

171. Wrth greu Rhan B yn 2012, dangoswyd cydnabyddiaeth bod anafiadau rhywiol yn peri gofid neilltuol, ar sail tystiolaeth bod dioddefwyr troseddau rhywiol yn gallu profi effeithiau hirdymor a gofid emosiynol. Yn ogystal â hyn, gan gydnabod bod anafiadau rhywiol yn gallu arwain at effeithiau seicolegol, cyfunwyd anaf meddyliol parhaol sy'n analluogi â nifer o droseddau rhywiol. Mae 12 anaf yn Rhan B sy'n cynnwys anaf meddyliol parhaol sy'n analluogi ym mandiau B12-B15; 6 ar gyfer oedolion a 6 ar gyfer rhai dan 18oed/oedolion heb alluedd meddyliol.

172. Byddai'r cynigion ar gyfer anafiadau meddyliol sy'n analluogi a amlinellwyd ym mharagraffau 134-142 yn arwain at gynyddu dyfarndaliadau mewn achosion sy'n dod o dan Ran A y tariff. Gallai hyn arwain yn anfwriadol at wneud gwerth yr anafiadau meddyliol sy'n analluogi yn Rhan B yn llai na'r anafiadau cyfatebol yn Rhan A. Byddai hyn yn effeithio'n benodol ar fand B13 (ar gyfer anafiadau parhaol ac enbyd) a bandiau uwch. Byddai'r anaf meddyliol parhaol sy'n analluogi sy'n cyfateb i hyn a gynigir yn Rhan A (band A7 newydd) yn fwy o ran gwerth. Os mabwysiedir y dull o weithredu ar anafiadau meddyliol sy'n analluogi yn Rhan A, rydym yn cynnig cynyddu dyfarndaliad(au) Rhan B. Byddai hyn yn sicrhau digollediad digonol am yr elfen ychwanegol o ymosod rhywiol wedi'i chyfuno ag anaf meddyliol sy'n analluogi yn Rhan B.

173. Mae tabl isod yn dangos y bandiau ar gyfer anafiadau meddyliol sy'n analluogi yn Rhan B ac enghreifftiau o'r cynnydd posibl mewn dyfarndaliadau i sicrhau digollediad digonol am yr anafiadau hyn oherwydd yr elfen rywiol yn achos yr anaf.

Band	Disgrifiad	Hen Werth y Dyfarndaliad	Gwerth Newydd y Dyfarndaliad
B12	Parhaol - Cymedrol	£22,000	£22,000
B13	Parhaol - Enbyd	£27,000	£30,000
B14	Parhaol - Cymedrol gydag anaf corfforol mewnol difrifol	£33,000	£33,000
B15	Parhaol - Enbyd gydag anaf corfforol mewnol difrifol	£44,000	£47,000

### Cwestiwn

9. Beth yw'ch barn am y dulliau arfaethedig o ddelio â Rhan B (rhowch resymau dros eich ymatebion):
- 1) Symud y dyfarndaliad am anaf angheuol
  - 2) Symleiddio disgrifiadau o anafiadau
  - 3) Dileu'r gwahaniaethu rhwng rhai o dan 18 oed/oedolion heb alluedd meddyliol ac oedolion
  - 4) Cynyddu dyfarndaliadau am anaf meddyliol

## Taliadau eraill

### Taliadau mewn achosion angheuol

174. Mae colli anwyliaid oherwydd trosedd treisgar yn brofiad ofnadwy. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddarparu cymorth i deuluoedd mewn profedigaeth, sydd ar gael drwy'r Gwasanaeth Lladdiadau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Gwasanaeth hwn, a ddarperir drwy bartneriaeth â'r elusen Cymorth i Ddioddefwyr, yn darparu mynediad i deuluoedd at bob math o gymorth ymarferol, emosiynol ac arbenigol a chefnogaeth gan gymheiriaid. Dechreuodd y Gwasanaeth Lladdiadau newydd ar ei waith yn Ebrill 2019 ac mae'n cymryd lle trefniadau ariannu blaenorol a oedd yn rhannu cymorth ariannol rhwng profedigaethau a gafwyd cyn ac ar ôl 2010. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu cyllid o hyd at £3.4 miliwn y flwyddyn i ddarparu'r Gwasanaeth. Mae gwasanaeth tebyg yn yr Alban, Support for Families Bereaved by Crime, a ddarperir gan yr elusen Victim Support Scotland. Fe'i lanswyd

yn 2019 ac mae'n derbyn cyllid o £1.2 miliwn gan Lywodraeth yr Alban i gynorthwyo perthnasau a gafodd profedigaeth o ganlyniad i lofruddiaeth neu laddiad beius.<sup>26</sup>

175. Mae'r Cynllun yn darparu cymorth ar ffurf digollediad i berthnasau mewn profedigaeth lle mae aelod agos o'r teulu wedi marw o ganlyniad uniongyrchol i anaf a gafwyd o drosedd treisgar. Pwrpas y taliadau sydd ar gael yw cydnabod colli anwyliaid a darparu cymorth i aelodau teuluoedd mewn profedigaeth: dyfarndaliad profedigaeth safonol, taliadau dibyniaeth (lle'r oedd yr aelod o'r teulu yn dibynnu ar yr ymadawedig), a thaliadau plentyn (lle mae plentyn wedi colli rhiant o ganlyniad i drosedd treisgar). Gellir talu costau angladd hefyd (hyd at £5,000). Mae'r terfyn uchaf o £500,000 ar gyfer dyfarndaliadau o dan y Cynllun yn gymwys hefyd i hawliadau mewn achosion angheuol.
176. Gan gydnabod yr amgylchiadau trawmatig iawn o golli aelod o'r teulu o ganlyniad i drosedd treisgar, mae CICA yn darparu gweithiwr achos penodol ar gyfer teuluoedd mewn profedigaeth er mwyn gwneud y broses o hawlio digollediad yn un mor hawdd â phosibl mewn amgylchiadau anodd o'r fath. Rydym yn cynnig symleiddio'r dull o weithredu dyfarndaliadau profedigaeth a thaliadau angladd, gan gynyddu taliadau i fwyafrif yr ymgeiswyr.

### **Dyfarndaliadau profedigaeth**

177. Pwrpas y dyfarndaliadau profedigaeth o dan y Cynllun yw rhoi cydnabyddiaeth am golli anwyliaid o ganlyniad i drosedd treisgar, gan dderbyn nad oes yr un swm o ddigollediad a all byth adlewyrchu gwerth y bywyd a gollwyd na'r holl effaith a deimlir gan deuluoedd mewn profedigaeth. Lefel bresennol y dyfarndaliadau profedigaeth yw £11,000 ar gyfer hawliadau mewn achosion angheuol lle mae un perthynas cymwys; ar gyfer hawliadau lle mae mwy nag un perthynas cymwys, telir dyfarndaliad o £5,500 yr un i bob unigolyn.
178. Mae perthnasau cymwys yn cynnwys priod neu bartner sifil (yn byw ar yr un aelwyd) yr ymadawedig; y partner (sydd wedi byw'n barhaus ar yr un aelwyd am o leiaf ddwy flynedd); priod, partner sifil neu bartner nad oedd yn cyd-fyw â'r person oherwydd afiechyd neu eiddilwch; priod neu bartner sifil, neu gyn-briod neu gyn-bartner sifil, a oedd yn ariannol ddibynnol ar yr ymadawedig; neu riant neu blentyn i'r ymadawedig.
179. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryder am werth dyfarndaliadau profedigaeth yn benodol, oherwydd yr effaith enbyd o golli anwyliaid. Credwn nad yw swm y digollediad a bennwyd yn y Cynllun wedi'i fwriadu i briodoli gwerth ariannol i fywyd yr ymadawedig, ond yn hytrach i gydnabod y poen a'r dioddefaint y mae teuluoedd mewn profedigaeth yn eu teimlo o ganlyniad i drosedd treisgar.
180. Roedd y Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr blaenorol wedi mynegi pryderon am wrthod digolledu perthnasau mewn profedigaeth oherwydd ymddygiad yr

<sup>26</sup> <https://www.gov.scot/news/support-for-bereaved-families/>



ymadawedig. Nododd fod hyn yn gallu cael effaith drychinebus, ac argymhell bod CICA yn seilio ei benderfyniadau ar ymddygiad derbynnydd dichonol y taliad yn unig.

181. Mae'r Cynllun yn egluro'r seiliau dros wrthod neu leihau dyfarndaliadau ym mharagraffau 22-28. Yn benodol, mewn perthynas ag achosion angheuol, mae paragraff 28(a) yn datgan:

*“Yn ychwanegol i baragraffau 22 i 27, gall dyfarndaliad mewn perthynas ag anaf angheuol perthnasol gael ei atal neu ei leihau os yw:*

*(a) ymddygiad yr ymadawedig cyn, yn ystod neu ar ôl y digwyddiad a achosodd ei farwolaeth, yn ei gwneud yn amhriodol wneud dyfarndaliad neu ddyfarndaliad llawn. Nid yw ymddygiad yn cynnwys meddwdod yr ymadawedig drwy alcohol neu gyffuriau i'r graddau ei fod yn gwneud yr ymadawedig yn fwy agored i'r perygl o ddiodef o ganlyniad i drosedd treisgar; neu ...”*

182. Un enghraifft o sefyllfa lle byddai ymddygiad yr ymadawedig yn gallu arwain at wrthod neu leihau dyfarndaliad yw os dangoswyd yn glir mai'r ymadawedig oedd yr achoswr neu'r ymosodwr a oedd yn bwriadu anafu eraill yn y digwyddiad a arweiniodd at ei farwolaeth. Gan fod y Cynllun yn cael ei ariannu gan y trethdalwr, credwn ei bod yn rhesymol bod rhywfaint o ystyriaeth i ymddygiad yr ymadawedig, yn benodol lle mae'r ymadawedig wedi achosi neu gyfrannu at y digwyddiad, a/neu lle'r oedd yr ymadawedig yn bwriadu anafu, neu wedi anafu, eraill ar adeg ei farwolaeth. Mae'r dull hwn o weithredu yn gymwys hefyd i'r achosion anaf personol lle nad oes anaf angheuol.

183. Yn ogystal â hyn, mae paragraff 28(b) yn datgan:

*“(b) am resymau eithriadol, os yw cymeriad yr ymadawedig ar ddyddiad ei farwolaeth, un ai oherwydd euogfarnau a gafodd sydd heb eu disbyddu neu fel arall, yn ei gwneud yn amhriodol wneud dyfarndaliad neu ddyfarndaliad llawn.”*

184. Fel arfer, ni fyddai dyfarndaliad mewn achos angheuol yn cael ei wrthod neu ei leihau oherwydd cymeriad yr ymadawedig. Bydd yr hyn sy'n cael ei ystyried yn amgylchiadau eithriadol yn dibynnu ar ffeithiau'r achos. Yn gyffredinol, hyd yn oed os oedd yr ymadawedig wedi cael nifer o euogfarnau a oedd heb eu disbyddu neu fod ystyriaethau eraill o ran ei gymeriad, ni fydd y rhain yn cael eu cyfri'n amgylchiadau eithriadol oni bai eu bod yn cael eu hystyried yn rhai mor ddifrifol fel y byddai gwneud dyfarndaliad yn ddefnydd amhriodol o gyllid cyhoeddus. Yma eto, credwn ei bod yn rhesymol ystyried cymeriad yr ymadawedig neu euogfarnau sydd heb eu disbyddu lle byddai'n amhriodol gwneud dyfarndaliad gan ddefnyddio cyllid cyhoeddus.

185. Mae'r dull presennol o weinyddu dyfarndaliadau profedigaeth yn gymhleth a gall olygu aros yn hirach i setlo hawliadau lle mae mwy nag un perthynas cymwys dichonol. Rydym yn cynnig dull symlach o weithredu i roi statws cyfartal i berthnasau mewn profedigaeth wrth wneud dyfarndaliadau lle mae nifer o berthnasau cymwys. Rydym yn

cynnig gosod un gyfradd dâl ar gyfer dyfarndaliadau profedigaeth, sef £8,000 ar gyfer yr holl berthnasau cymwys.

186. Er y bydd hyn yn arwain at ddyfarndaliadau llai mewn nifer bach o hawliadau lle nad oes ond un perthynas cymwys, bydd yn golygu cynnydd o £2,500 yn y dyfarndaliad ar gyfer mwyafrif yr ymgeiswyr mewn achosion angheuol. Disgwylir hefyd y bydd yn hwyluso'r broses o ymgeisio am ddigollediad i ymgeiswyr ac yn cyflymu'r broses o benderfynu ar hawliadau.

### Cwestiwn

10. Beth yw'ch barn am y newid arfaethedig yn y dyfarndaliad profedigaeth sydd ar gael o dan y Cynllun?

### Taliadau angladd

187. Mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer taliad sylfaenol lleiaf o £2,500 tuag at gostau angladd lle mae'r person wedi marw o ganlyniad uniongyrchol i anafiadau a achoswyd gan drosedd treisgar. Gall dyfarndaliad disgresiynol ychwanegol fod ar gael, hyd at £2,500, lle credir bod y costau hyn yn rhesymol a bod yr ymgeisydd yn gallu darparu derbynebaw.
188. Pennwyd y cyfraddau presennol yn 2012; mewn cynlluniau blaenorol, roedd CICA yn hollol rydd i benderfynu a oedd treuliau cysylltiedig â chostau angladd yn rhai "rhesymol". Mae'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer y taliad sylfaenol yn caniatáu dull cyflymach a symlach o dalu lle mae ymgeiswyr yn gallu dangos eu bod wedi talu at gostau angladd, heb fod angen penderfynu a yw'r costau'n "rhesymol" os nad ydynt yn fwy na £2,500.
189. Mae cost angladd arferol wedi cynyddu'n sylweddol er 2012. Rydym wedi gweld drwy adolygu llwyth achosion CICA fod mwyafrif y taliadau angladd a wnaed i ymgeiswyr er 2016 wedi bod yn fwy na'r taliad sylfaenol isaf o £2,500. Yn 2018, y tâl cyfartalog am angladd oedd £3,800; mae hyn yn debyg i'r gost gyfartalog am amlosgiad yn 2019, sef £3,858 yn ôl adroddiad Cost of Dying SunLife.<sup>27</sup> Ym mwyafrif yr achosion, mae hyn yn galw am wirio costau gan CICA drwy ofyn am dderbynebaw, ac am benderfynu a yw'r costau'n "rhesymol". Gall hyn arwain at oedi cyn i ymgeiswyr gael taliadau angladd, ar adeg pan fydd teuluoedd angen proses sydd mor gyflym a syml â phosibl.
190. Ein huchelgais yw sicrhau bod y broses o ymgeisio am daliadau angladd drwy'r Cynllun yn un mor syml â phosibl i aelodau teuluoedd mewn profedigaeth. Credwn fod modd cyflawni hyn drwy fabwysiadu taliad sengl; byddai hyn yn arwain at broses hawlio sy'n gyflymach ac yn llai beichus. Rydym yn cynnig mai'r taliad sengl fydd

<sup>27</sup> Cost of Dying Report 2020 - <https://www.sunlife.co.uk/siteassets/documents/cost-of-dying/SL-cost-of-dying-report-2020.pdf/>

£4,500. Rydym yn cydnabod bod costau angladd yn amrywio rhwng rhanbarthau ond, yn yr un modd â dyfardaliadau eraill o dan y Cynllun, nid oes bwriad i'r taliad angladd fod yn un sy'n cwrdd â holl gostau'r angladd. Mae'r gwerth a awgrymwyd yn fwy na'r taliad angladd cyfartalog a wneir gan CICA ac mae'n adlewyrchu'n well y costau cyfartalog presennol am angladd arferol. Rydym yn disgwyl y byddai'n fanteisiol i fwyafrif yr ymgeiswyr.

### Cwestiwn

11. Beth yw'ch barn am y cynnig i newid y dull o ddarparu taliadau angladd o dan y Cynllun, drwy gyflwyno taliad sengl newydd o £4,500?

191. Rydym hefyd wedi adolygu sut ac i bwy y gellir gwneud taliadau angladd. Mae paragraff 75 o'r Cynllun yn datgan y gellir gwneud taliad mewn perthynas â threuliau angladd "er budd ei ystad". Fodd bynnag, nid oes dim ychwanegol ar wyneb y Cynllun ynghylch gweithredu'r ddarpariaeth hon nac am bwy a all hawlio a derbyn y taliad.
192. Rydym yn deall y gall trefnwyr angladdau ofyn am rywfaint neu'r cyfan o'r taliad ymlaen llaw ac o fewn cyfnod cymharol fyr ar ôl cynnal yr angladd, yn enwedig mewn achosion lle maent yn rhagweld anawsterau wrth sicrhau taliad ar ôl yr angladd. Roedd y pwynt hwn wedi codi yn sgil yr ymosodiad terfysgol yn Manchester Arena. Rydym yn deall bod CICA yn gofyn am anfoneb gan y trefnydd angladdau cyn y gwnaiff daliad ac mae hyn yn effeithio ar yr amser a gymerir i dalu.
193. O ran gweinyddu, bydd y broses yn fwy anodd i CICA os nad oes ystad neu ysgutor. Mewn achosion o'r fath, gellir gwneud taliadau angladd yn uniongyrchol i aelod o'r teulu sydd mewn profedigaeth neu i bartner, er nad yw hyn yn gyson ag union eiriad y Cynllun. Gall problemau waethygu os yw cost yr angladd yn cael ei rannu rhwng nifer o unigolion; bydd angen cael anfoneb sy'n dangos yr holl eitemau gan y trefnydd angladdau cyn gallu gwneud taliadau priodol. Ar hyn o bryd, mae CICA yn talu am dreuliau angladd o fewn 3 mis mewn 47% o achosion, ac o fewn 6 mis mewn 78% o achosion. Mae'r Gronfa Angladdau Plant a sefydlwyd yn ddiweddar wedi gosod model newydd ar gyfer taliadau angladd, lle bydd y wladwriaeth yn talu arian yn uniongyrchol i drefnwyr angladdau, a gall hyn fod yn fwy addas mewn rhai achosion sy'n gymwys am daliad o dan y Cynllun.
194. Ymhellach i'n cynnig i fabwysiadu taliad sengl, rydym hefyd yn cynnig diweddarau paragraff 75, o ran y modd y gellir gwneud y taliad sengl newydd, pa un a oes ystad gan yr ymadawedig neu beidio, i alluogi CICA i ymateb yn fwy cyflym.

### Cwestiwn

12. Beth yw'ch barn am y cynnig i newid y Cynllun o ran y modd y gellir gwneud taliad angladd sengl?

## Taliadau am golli enillion

195. Mae dyfarndaliadau o dan y Cynllun hefyd yn gallu cynnwys taliadau am golli enillion i'r rhai a gafodd yr anafiadau mwyaf difrifol. Gwnaiff y Cynllun ddod i'r adwy pan ddaw Tâl Salwch Statudol i ben, felly bydd yn ofynnol bod yr ymgeisydd heb allu gweithio am fwy na 28 wythnos. Yn 2012, gwnaed newidiadau i gyfyngu taliadau i'r rheini sy'n gallu dangos nad oes dim neu nemor ddim gallu ganddynt i weithio o ganlyniad uniongyrchol i'r anaf ac roedd y gyfradd ar gyfer cyfrifo taliadau am golli enillion wedi cael ei chapio ar gyfradd y Tâl Salwch Statudol. Roedd cynlluniau blaenorol yn fwy hael, gan ofyn am ddangos gallu llai i weithio a digolledu ymgeiswyr am golli enillion hyd at 1.5 gwaith yr enillion wythnosol gros canolrifol ar adeg yr asesiad.<sup>28</sup>
196. Mae'n glir o'r set ddata ar lwyth achosion CICA fod y newidiadau hyn wedi cael effaith sylweddol ar nifer a gwerth yr hawliadau am golli enillion. Maent wedi arwain at broses weinyddu sy'n decach ac yn llai cymhleth, a Chynllun sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr a gafodd yr anafiadau mwyaf difrifol yn unig. Ar gyfer y rheini sy'n gymwys am daliadau am golli enillion, mae'r dystiolaeth sy'n ofynnol am daliadau yn symlach, ac mae swyddogion hawliadau yn gallu penderfynu'n gywirach ac yn gyflymach ar hawliadau.
197. Er hynny, mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon nad yw'r dyfarndaliadau a geir o ganlyniad yn digolledu'n ddigonol y rheini a gafodd anafiadau sy'n drychinebus ac wedi newid eu bywydau. Mynegwyd pryderon hefyd am y trothwy newydd o "ddim" yn hytrach na "llai" o allu i weithio, yn enwedig mewn achosion lle mae gan ymgeiswyr rywfaint o allu i weithio ond nid i gyflawni'r gwaith yr oeddent yn ei wneud o'r blaen.
198. Gan fod y Cynllun yn un sydd ar gael yn niffyg ffynonellau eraill o gymorth ariannol neu ddigollediad, credwn ei bod yn rhesymol iddo ddigolledu dioddefwyr pan fydd buddion eraill a ariennir gan y wladwriaeth yn dod i ben. Mae'r newidiadau a wnaed yn y gyfradd tâl yn 2012 yn adlewyrchu'r egwyddor hon; ac maent yn bwysig hefyd o ran sicrhau bod y Cynllun yn aros yn fforddiadwy. Rydym yn cynnig cadw'r meini prawf cymhwyster presennol a'r terfyn uchaf ar daliadau am golli enillion.

## Pynciau eraill

### Ystyried taliadau eraill am yr un anaf

199. Gellir gwrthod neu leihau dyfarndaliadau o dan y Cynllun os yw'r ymgeisydd wedi cael neu os oes ganddo hawl i gael daliadau tebyg; gorchymyn iawndal gan lys sifil; gorchymyn digolledu a wnaed ar ôl euogfarnu troseddwr; neu os yw wedi cytuno i setlo hawliad am iawndal mewn perthynas â'r anafiadau y mae'n gwneud hawliad amdanynt.

<sup>28</sup> Ar adeg yr ymgynghoriad ar y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol yn 2012, roedd yn £751.50 (ar sail data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol – oriau ac enillion blynyddol, 2011). O gymharu, cyfradd bresennol y Tâl Salwch Statudol yw £95.85 yr wythnos.

Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor gyfreithiol hirsefydlog o osgoi digolledu ddwywaith am yr un anaf, ac mae'n sicrhau ein bod yn gallu diogelu dyfarndaliadau digolledu ar gyfer y rheini sydd heb allu cael digollediad neu daliadau tebyg o ffynonellau eraill.

200. Nid yw CICA yn didynnu taliadau ar wahân y gall yr ymgeisydd fod wedi'u cael drwy roddion elusennol o ddyfarndaliadau am anafiadau a wnaed o dan y Cynllun. Mae taliadau o'r fath yn fynegiad o gydymdeimlad a chefnogaeth gan y cyhoedd.
201. Mae'r set ddata ar lwyth achosion CICA yn dangos mai'r didyniad cyfartalog o ddyfarndaliad am anafiadau i roi cyfrif am fathau eraill o ddigollediad oedd tua 25%, er bod hyn yn amrywio o gyn lleied â 0.4% o'r dyfarndaliad i benderfyniad i beidio â gwneud dyfarndaliad lle'r oedd y digollediad arall yn fwy na'r taliad am yr anaf ar y tariff o dan y Cynllun. Yn yr un modd â thueddiadau cyffredinol yn y defnydd o orchmynion digolledu gan y llysoedd, roedd y didyniadau yn llawer mwy tebygol o fod am symiau llai, ac roeddent yn fwy cyffredin mewn hawliadau am ymosod corfforol.
202. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch didynnu digollediad a orchmynnwyd gan y llys yn ei gyfanrwydd lle nad yw taliadau wedi'u derbyn, neu heb gael eu derbyn yn llawn, gan yr ymgeisydd.
203. Mae'n egwyddor bwysig bod disgwyl i droseddwr ddarparu iawn ariannol i'r rheini a ddiodeffodd o ganlyniad i'w gweithredoedd, os yw'r llysoedd yn credu bod hynny'n briodol, ac, yn ogystal â hynny, bod y baich hwn yn cael ei ysgwyddo, os oes modd, gan y troseddwr yn hytrach na'r trethdalwr. Rhaid i'r llysoedd ystyried nifer o ffactorau wrth wneud gorchmynion digolledu, yn cynnwys dymuniadau'r diodeffwr a'r modd sydd gan y troseddwr i dalu. Mewn gwirionedd, mae gorchmynion digolledu yn cael eu defnyddio amlaf mewn achosion lle mae'n hawdd profi colled a difrod, i eiddo er enghraifft. Mewn achosion sy'n ymwneud ag anaf corfforol neu feddyliol, rhaid i'r llysoedd gael digon o wybodaeth ar y pryd i wneud asesiad o'r golled er mwyn gwneud gorchmynion digolledu yn gyfreithlon – mewn llawer o achosion, nid yw gwybodaeth ddigonol ar gael.
204. Y Cynllun yw'r ffynhonnell y troir ati olaf ac mae'n briodol bod y Cynllun yn ystyried digollediad a ddyfarnwyd eisoes am yr anaf perthnasol er mwyn osgoi digolledu ddwywaith am yr un anaf. Er bod y Cynllun yn galluogi CICA i geisio adennill arian gan ymgeiswyr sy'n cael eu digolledu wedyn drwy orchmynion llys, nid oes pŵer gan CICA i geisio adennill arian gan droseddwr. Byddai'n anodd ac yn gostus i CICA weithredu rheol i gyfrifyddu rhandaliadau dros amser mewn hawliadau unigol gan nad yw gwybodaeth yn cael ei chasglu'n ganolog. Rydym yn cydnabod yr effaith bosibl o hyn ar ymgeiswyr lle nad yw gorchmynion am dalu symiau iddynt wedi cael eu talu neu eu talu'n llawn ond credwn mai'r ffordd i ddatrys hyn yw drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud o dan arweiniad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi i ddatblygu gweithdrefnau gorfodi mwy effeithiol yn hytrach na thrwy newid y Cynllun. Nid ydym yn bwriadu newid rheolau presennol y Cynllun ar ddidynnu mathau eraill o ddigollediad.

## **Tablau lluosyddion yn y Cynllun**

205. Mae taliadau am golli enillion, taliadau plentyn, treuliau arbennig a thaliadau dibyniaeth yn cael eu talu mewn cyfandaliad. Mae'r taliadau hyn yn cael eu disgowntio i roi cyfrif am golledion yn y dyfodol ac unrhyw log y gellir ei ennill ar y taliadau hyn os cânt eu buddsoddi. Mae hyn yn debyg i'r ffordd o drin taliadau a ddyfernir mewn cyfandaliadau mewn hawliadau sifil.
206. Mae'r Cynllun yn defnyddio tri thabl lluosyddion i ddisgowntio cyfandaliadau. Mae'r rhain wedi'u seilio'n fras ar y Tablau Actwaraidd i'w Defnyddio mewn Achosion Anaf Personol a Damwain Angheuol a luniwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Roedd tablau lluosyddion y Cynllun wedi'u diweddarau ddiwethaf yn 2012, yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus blaenorol, i adlewyrchu'n well y Tablau Actwaraidd a oedd yn cael eu defnyddio ar y pryd.
207. Ers 2012, mae'r Tablau Actwaraidd hyn wedi newid ac rydym yn cydnabod, felly, fod y tablau lluosyddion yn y Cynllun wedi dyddio. Felly rydym yn bwriadu ymgymryd â rhagor o waith i adolygu'r tablau lluosyddion.

## **Defnyddio ymddiriedolaethau i reoli dyfarndaliad**

208. Fel y cynlluniau blaenorol, mae Cynllun 2012 yn darparu ar gyfer rhoi dyfarndaliadau mewn ymddiriedolaeth mewn rhai amgylchiadau anarferol, er enghraifft, lle mae ymgeiswyr heb alluedd i reoli eu materion eu hunain, neu lle mae perygl y bydd troseddwr yn elwa o ddyfarndaliad. Gellir sefydlu ymddiriedolaeth hefyd pan wneir dyfarndaliad mawr yn unswydd i ofalu am yr ymgeisydd yn y dyfodol, i sicrhau bod y gyfran honno o'r dyfarndaliad digolledu yn cael ei defnyddio i gwrdd ag angen parhaus yr ymgeisydd am gymorth neu driniaeth hirdymor.
209. Yn ei hastudiaeth o brofiadau dioddefwyr wrth hawlio digollediad, roedd y Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr blaenorol wedi dweud bod y cyfyngiadau presennol ar ddefnyddio arian a ddelir mewn ymddiriedolaethau gan ddioddefwyr a'u teuluoedd yn rhai cyfyngol, ac wedi argymhell y dylai CICA ystyried sut y gallai gynnig mwy o hyblygrwydd yn y maes hwn. Roedd y Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr blaenorol hefyd wedi argymhell ailystyried y polisi bod dyfarndaliadau a ddelir mewn ymddiriedolaethau yn cael eu dychwelyd i CICA ar farwolaeth y dioddefwr.<sup>29</sup>
210. Bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid gosod amod ar gyfer sefydlu ymddiriedolaeth yn dibynnu bob amser ar amgylchiadau penodol yr achos. Bydd telerau'r ymddiriedolaeth yn cael eu gosod wrth ei sefydlu, a rheolir ymddiriedolaethau gan ymddiriedolwyr penodedig. Unwaith y bydd ymddiriedolaeth wedi'i sefydlu, nid yw CICA yn rheoli'r ffordd y defnyddir dyfarndaliad o dan y telerau a osodwyd.

<sup>29</sup> Compensation without re-traumatisation: The Victims' Commissioner's Review into Criminal Injuries Compensation, Ionawr 2019 - <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/compensation-without-re-traumatisation-the-victims-commissioners-review-into-criminal-injuries-compensation/>

211. Mae amodau ymddiriedolaeth yn gallu cynnwys dychwelyd y cyfan neu ran o'r dyfarndaliad i CICA, ar ran y trethdalwr, ar farwolaeth yr ymgeisydd. Credwn fod y sefyllfa hon yn briodol o hyd o ystyried bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddarparu dyfarndaliadau digolledu.

### **Yr hawl i ailagor achos ar sail feddygol**

212. Mae'r Cynllun yn caniatáu ailagor hawliadau a benderfynwyd lle mae newid mor sylweddol yn y cyflwr meddygol fel y byddai peidio â newid y dyfarndaliad gwreiddiol yn "achosi anghyfiawnder". Rhaid cael ceisiadau am ailagor hawliad ar sail feddygol o fewn dwy flynedd ar ôl y penderfyniad terfynol, er y gellir eu hystyried ar ôl dwy flynedd os nad oes angen gwneud ymholiadau helaeth ychwanegol i benderfynu'r hawliad.

213. Yn rhan o'r adolygiad hwn, rydym wedi ystyried a oes angen gwneud newidiadau yn yr hawl hon, oherwydd y cyfleoedd sydd ar gael i ymgeiswyr ar gyfer adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan CICA lle'r oeddent yn anfodlon â'r penderfyniad cyntaf. Un o'r opsiynau a ystyriwyd oedd y priodoldeb o osod terfyn amser penodol ar ailagor hawliadau ar sail feddygol er mwyn gallu penderfynu'n gyflymach ac yn fwy effeithlon ar hawliadau, fel y gwneir mewn rhai cynlluniau tebyg mewn gwledydd eraill (lle mae terfynau amser yn amrywio o un flwyddyn yn Sbaen a Gwlad Belg, er enghraifft, i ddeng mlynedd yn Sweden).

214. Fodd bynnag, daethom i'r casgliad bod y dull presennol o weithredu yn ein galluogi i sicrhau bod y dioddefwyr a gafodd yr anafiadau mwyaf difrifol yn cael lefel briodol o ddigollediad lle mae eu hanafiadau wedi gwaethygu'n annisgwyl dros amser. Rydym yn bwriadu cadw'r hawl i ailagor achosion ar sail feddygol fel y mae yn y Cynllun presennol.

### **Cronfa Galedi**

215. Sefydlwyd y Gronfa Galedi yn 2012 er mwyn lliniaru'r effeithiau ar y gweithwyr isaf eu tâl o ganlyniad i ddileu'r pum band anafiadau isaf yn y Cynllun. Mae'n darparu cymorth ariannol cyfyngedig i'r rheini yng Nghymru a Lloegr a gafodd anafiadau nad ydynt yn dod o dan y Cynllun, sydd heb y gallu i weithio dros dro o ganlyniad i drosedd treisgar, a lle nad oes cymorth ariannol ar gael iddynt o ffynhonnell arall. Rhaid i ymgeiswyr i'r gronfa gael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol gan yr elusen Cymorth i Ddioddefwyr. Yn yr un modd â'r Cynllun, CICA sy'n gweinyddu'r gronfa, yn asesu ceisiadau ac yn gwneud taliadau.

216. Y meini prawf cymhwystra yw bod ymgeiswyr:

- yn ennill llai na £118 yr wythnos;
- heb gael Tâl Salwch Statudol neu dâl salwch cyfatebol;
- heb y gallu i weithio am o leiaf 7 diwrnod yn olynol o ganlyniad i'r trosedd; ac
- nad ydynt wedi cael unrhyw euogfarnau sydd heb eu disbyddu a arweiniodd at ddedfryd o garchar neu orchymyn cymunedol

- eu bod wedi hysbysu'r heddlu am y digwyddiad cyn gynted ag yr oedd yn rhesymol ymarferol.

217. Gwnaed 60 o geisiadau i'r gronfa ers ei sefydlu, a gwnaed 16 o ddyfarndaliadau, yn amrywio o £313 i £61. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon am y diffyg ymwybyddiaeth o'r Gronfa ymysg dioddefwyr, a'r anawsterau wrth gael at y Gronfa drwy Cymorth i Ddioddefwyr. Mae'r Gronfa Galedi wedi'i bwriadu i fod ar gael, yn niffyg ffynonellau cymorth eraill, i ddioddefwyr a gafodd anafiadau o ganlyniad i drosedd treisgar, ond lle nad yw'r anafiadau'n ddigon difrifol i fod yn gymwys am ddigollediad o dan y Cynllun. Credwn fod hon yn rhwyd ddiogelwch bwysig ac rydym yn bwriadu cadw'r gronfa, a'r meini prawf presennol, er mwyn helpu'r dioddefwyr mwyaf agored i niwed.
218. Yn hanesyddol, mae Cymorth i Ddioddefwyr wedi bod yn unig lwybr atgyfeirio i ddioddefwyr sy'n dymuno ymgeisio i'r Gronfa Galedi, drwy wneud asesiadau o gymhwysra a helpu dioddefwyr i wneud cais i'r gronfa. Fodd bynnag, yn sgil newidiadau yn y ffordd o gomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr, lle mae pŵer bellach gan Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd rhanbarthol i ddewis comisiynu gwasanaethau lleol, rydym yn cydnabod nad yw dioddefwyr yn gallu cael at y Gronfa Galedi bellach mewn nifer o ardaloedd.
219. Felly rydym yn gofyn am farn am ffyrdd i wella mynediad at y gronfa, un ai drwy ehangu'r llwybrau atgyfeirio i gynnwys gwasanaethau cymorth dioddefwyr lleol, neu drwy ganiatáu i ddioddefwyr wneud cais yn uniongyrchol i CICA. Byddai hyn yn sicrhau bod dioddefwyr yn cael mynediad cyfartal at y gronfa, ble bynnag maent yn byw yng Nghymru neu Loegr. Fodd bynnag, os ehangir y llwybrau atgyfeirio, mae'n bosibl y bydd llai o graffu ar geisiadau ar y cam atgyfeirio cyntaf, fel y bydd mwy o faich ar CICA. Ochr yn ochr ag unrhyw newid mewn llwybrau atgyfeirio, rydym yn bwriadu gwella'r ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r Gronfa Galedi ymysg gwasanaethau i ddioddefwyr ac asiantaethau cyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cyfeirio at y gronfa yn ôl yr angen.

### Cwestiwn

13. Beth yw'ch barn am gynigion i newid y ffordd y mae dioddefwyr yn cael mynediad at y Gronfa Galedi drwy un ai:
- a. Newid y llwybr atgyfeirio i ganiatáu i wasanaethau cymorth dioddefwyr lleol asesu cymhwysra a gwneud atgyfeiriadau mewn rhanbarthau lle nad yw Cymorth i Ddioddefwyr yn bresennol bellach; neu



b. Dileu'r mecanwaith atgyfeirio er mwyn caniatáu i ddioddefwyr wneud ceisiadau'n uniongyrchol i CICA?

## Adran 5: Gwella gweithrediadau

220. Mae pob un sy'n dioddef o ganlyniad i drosedd treisgar yn cael profiad a siwrnai wahanol. Drwy roi lle canolog i'r egwyddor hon yn y Cynllun, gweithredir mewn ffordd sy'n canolbwyntio'n fwy o lawer ar y dioddefwr ac yn sicrhau bod holl brosesau CICA, a'i ryngweithio ag ymgeiswyr, yn sensitif i'r amgylchiadau anodd y mae pobl yn eu profi a'u bod wedi'u seilio ar ddealltwriaeth o'r trawma y bydd dioddefwyr wedi'i brofi. Mae'n hollbwysig bod dioddefwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth glir a chywir, ac esboniadau sy'n eu helpu pan fyddant yn barod i ystyried gwneud cais am ddigollediad.
221. Yn y Strategaeth Dioddefwyr, roedd CICA wedi ymrwymo i wella ei ffordd o ddelio â hawliadau am ddigollediad mewn achosion neilltuol o gymhleth a sensitif – ar sail canllawiau a oedd newydd eu cyflwyno i staff ar ffyrdd o ddelio â cheisiadau gan ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol, gan ystyried gweithredoedd paratoi i bwrpas rhyw gan droseddwyr, a thrwy gynnig gweithwyr achos penodol ar gyfer achosion o'r fath. Roedd CICA wedi ymrwymo hefyd i gyflymu'r broses o benderfynu ar ddigollediad. Cyflwynwyd prosesau gwell i reoli achosion sy'n casglu gwybodaeth ar sail y math o drais a natur yr anaf a gafwyd. Mae timau arbenigol yn rheoli hawliadau sy'n ymwneud â therfysgaeth, achosion angheuol, ymosod neu gam-drin rhywiol, a'r rheini lle mae disgwyliad oes cyfyngedig gan yr ymgeisydd. Mae tîm o seicolegwyr clinigol a gyflogir yn uniongyrchol sy'n darparu cyngor arbenigol ar hawliadau am anaf meddyliol lle mae cofnodion meddygol ar gael, er mwyn cadarnhau bod anaf meddyliol sy'n analluogi a chadarnhau'r prognosis ar gyfer ymadfer, fel na fydd angen i'r ymgeisydd gael archwiliad meddygol pellach.
222. Yn ogystal â'r ymrwymïadau a wnaed yn y Strategaeth Dioddefwyr, mae CICA wedi cymryd camau pellach hefyd i ehangu a gwella ei wasanaethau telefoni fel ei fod yn darparu gwybodaeth gyffredinol a chymorth mewn achosion penodol i ymgeiswyr. Yn 2018-19, cafodd sgôr o 95% am fodlonrwydd cwsmeriaid ac roedd nifer y cwynion 22% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol<sup>30</sup>. Yn fwy diweddar, cyflwynwyd trefniadau i ddarparu gwybodaeth i alwyr am yr amseroedd aros ar y pryd yn ogystal ag opsiynau ar gyfer ffonio'n ôl.

### Prosesau symlach

223. Mae CICA yn cydnabod bod rhai ymgeiswyr wedi nodi bod y broses ymgeisio yn anodd neu'n aneglur. Oherwydd y profiadau trawmatig a gafodd dioddefwyr, mae'n naturiol y gallent fod â llai o hyder wrth gymryd rhan yn y prosesau hyn. Mae CICA

<sup>30</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CICA 2018-19 - <https://www.gov.uk/government/publications/cica-annual-report-and-accounts-2018-19>

wedi gwneud rhagor i symleiddio a gwella ei wefan i'w gwneud yn haws ei defnyddio, gan sicrhau bod yr iaith yn glir a syml, a darparu gwybodaeth hawdd ei deall am feini prawf cymhwysra a sut i ymgeisio.

224. Mae gwaith wedi'i gyflawni ar wasanaeth ymgeisio ar-lein syml newydd sy'n gofyn llai o lawer o gwestiynau ac yn hepgor sbardunau penodol sy'n gallu achosi ail drawma a nodwyd gan ddiodefwyr. Rydym yn disgwyl am gymeradwyaeth i'r gwasanaeth gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth cyn ei roi ar waith a'i gyflwyno at ddefnydd yr holl ymgeiswyr a'u cynrychiolwyr.
225. Mae CICA wedi gwneud buddsoddiad sylweddol i uwchraddio ei system rheoli achosion electronig ac mae'n gweithredu Fframwaith Sicrhau Ansawdd mewnol i gyflymu ei benderfyniadau a gwella eu cywirdeb. Mae hyn wedi helpu CICA i gyrraedd sefyllfa, yn 2018-19, lle'r oedd 81% o geisiadau newydd wedi'u penderfynu o fewn 12 mis, a chyfanswm o 35,355 o hawliadau wedi'u cwblhau.
226. Gall gymryd mwy o amser i gwblhau achosion cymhleth lle mae'r prognosis hirdymor ar gyfer ymadfer yn berthnasol wrth benderfynu'r hawliad neu lle gwneir apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, a gall hyn achosi rhwystredigaeth i'r rhai sy'n cyflwyno hawliad. Mae CICA wedi sefydlu mentrau i ddatrys achosion mwy cymhleth drwy ddefnyddio adnoddau arbenigol a phwrpasol ac mae'r rhain wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer yr hawliadau hŷn sy'n aros i gael eu penderfynu. Er bod cyfran yr ymgeiswyr sy'n apelio yn fach o'i gymharu â nifer yr holl ymgeiswyr, mae'r sefydliad yn cydgysylltu'n fanwl â'i gymheiriaid yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi er mwyn gwella profiad yr apelydd er mwyn yr ymgeiswyr hynny sy'n apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.
227. Fel y dangoswyd ym mhob rhan o'r papur ymgynghori hwn, rydym hefyd yn ystyried ffyrdd i symleiddio'r Cynllun ei hun er mwyn hwyluso prosesau ymgeisio a phenderfynu sy'n symlach ac yn fwy amserol.

## **Cwrdd ag anghenion diodefwyr yn well**

228. Yn gynharach y flwyddyn hon, dilëwyd rheol "yr un to" cyn 1979 o'r Cynllun. Gan fod y newid hwn yn gymwys i achosion sy'n mynd yn ôl dros nifer o ddegawdau, bydd amser maith wedi mynd heibio mewn nifer o achosion a chafwyd pryderon y gallai fod yn boenus iawn i ddiodefwyr ail-fyw a disgrifio digwyddiadau y gallent fod wedi ceisio eu hanghofio. Mae'n ddealladwy hefyd y bydd y cof am fanylion yn llai clir gan fod cymaint o amser wedi mynd heibio. Mae CICA wedi ceisio symleiddio'r broses ymgeisio i ddiodefwyr sy'n cael eu heffeithio gan y newid rheol hwn, drwy ddarparu gweithwyr achos penodedig a chymorth arbenigol. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau nifer y troeon y bydd angen i ymgeiswyr ddisgrifio digwyddiadau sy'n peri gofid iddynt, gan helpu i leihau ail drawma, a dylai ganiatáu cyfathrebu mwy cyson.

229. Mae gweithwyr achos penodedig ar gael ar gyfer dioddefwyr mewn achosion anodd neu gymhleth eraill, fel profedigaethau, ac, yn fwy diweddar, mae CICA wedi ymestyn y gwasanaeth hwn i gynnwys ymgeiswyr dros 70 mlwydd oed sydd â disgwyliad oes cyfyngedig neu salwch terfynol. Mae'n ymchwilio i weld sut y gellid ymestyn hyn i gynnwys grwpiau eraill o ymgeiswyr yn y dyfodol.
230. Mae adborth gan ddiodefwyr a rhanddeiliaid, yn cynnwys y Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr blaenorol, wedi dangos bod ymgeiswyr yn anfodlon ar lefel y tosturi yn y llythyrau penderfynu a anfonir atynt: eu bod yn ymddangos yn rhai cyffredinol, eu bod yn adlewyrchu termau cymhleth sydd yn y Cynllun a'r tariff anafiadau, ac y gallant fod yn anodd eu deall. Mae CICA wedi cymryd camau i ymateb i hyn, drwy ddrafftio llythyrau pwrpasol ar gyfer grwpiau dioddefwyr penodol. Mae adolygiad o'r holl lythyrau i sicrhau bod eu tŷn a'u cynnwys yn cydnabod sefyllfaoedd penodol ymgeiswyr mewn ffordd sensitif, a'u bod yn gyson yr un pryd â'r termau sydd yn y Cynllun, yn tynnu tua'i derfyn.

## **Gwella hyfforddiant a chanllawiau i staff**

231. Mae craffu gan y cyfryngau ac adroddiadau gan Gomisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr a'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi tynnu sylw at yr angen am wella'r ffordd y mae CICA yn ymwneud â rhai grwpiau o ddiodefwyr – yn enwedig y rheini sydd wedi'u cam-drin. Mae CICA wedi ymgysylltu â sefydliadau, yn cynnwys y Samariaid, Cymorth i Ferched a Rape Crisis Scotland, i ddarparu hyfforddiant arbenigol seiliedig ar drawma er mwyn sicrhau bod staff wedi'u paratoi'n well i ddelio mewn ffordd sensitif â'r rheini sydd wedi profi cyfnodau o drawma o ganlyniad i gael eu cam-drin, yn cynnwys diodefwyr camfanteisio a pharatoi i bwrpas rhyw. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth ar draws CICA o'r ffordd y mae diodefwyr yn ymdopi yn sgil troseddau treisgar a sut mae eu profiadau'n gallu effeithio ar y modd y maent yn cymryd rhan yn y broses ymgeisio am ddigollediad.
232. Yn ogystal â hyn, mae CICA wedi mynd ati i adolygu ei hyfforddiant a chanllawiau i staff er mwyn gwella profiad ymgeiswyr, yn rhan o raglen gwelliant parhaus. Mae hyn wedi helpu i wella'r ffordd y mae staff yn deall ac yn delio â thueddiadau cyfnewidiol mewn troseddau treisgar, fel y gydnabyddiaeth gynyddol i'r rhan y mae paratoi i bwrpas rhyw yn ei chwarae mewn troseddau rhywiol ac ystyriaeth i amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, lle gwneir hawliadau am ddigollediad am gam-drin rhywiol ar ôl y terfynau amser a nodwyd yn y Cynllun.

## **Gwasanaethau hygyrch**

233. Mae CICA wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth nad yw'n achosi ail drawma i ddiodefwyr, drwy sicrhau bod y mathau o wybodaeth y mae'n gofyn amdanynt gan

ymgeiswyr yn rhai priodol ac angenrheidiol, a bod y rhesymau dros ofyn am y wybodaeth honno'n cael eu hesbonio'n glir.

234. Mae'r pwyslais ar hwyluso'r profiad o ymgeisio am ddigollediad wedi arwain at brosesau haws ar gyfer ymgeisio dros y ffôn, a bydd ymestyn y broses ar-lein symlach a ddisgrifiwyd uchod yn dod â rhagor o welliannau. Er mwyn gwella profiad dioddefwyr o ymgeisio am ddigollediad, mae CICA wedi diweddarau ei wefan i sicrhau bod yr iaith sydd arni yn glir ac yn hawdd ei deall. Bellach mae'r wefan hefyd yn darparu ffurflen gyswllt arbenigol ar gyfer dioddefwyr ymosod rhywiol, ac mae'n caniatáu i ddioddefwyr ofyn am wasanaeth ffonio'n ôl gan CICA, er mwyn gwneud cais ar amser a gytunir. Cyflwynwyd y gwelliannau hyn er mwyn rhoi cymaint o ddewis a galluedd â phosibl i ddioddefwyr o ran sut a pha bryd y byddant yn gwneud cais i'r Cynllun. Bellach mae 91% o ymgeiswyr yn nodi mai dim ond ymdrech fach neu gymedrol sydd ei hangen i gwblhau cais ar-lein, ac mae rhagor o waith mewn llaw i symleiddio hyn. Mae'r buddsoddi cynyddol yn staff tîm gwasanaethau cwsmeriaid CICA yn ystod 2018-19 wedi arwain at ostyngiad o 11% yn yr amseroedd aros cyfartalog, a darparwyd mwy na 27,000 o oriau o gymorth.
235. Mae CICA yn cydnabod bod mwy o le i wella yn y maes hwn, ac mae'n parhau i gydweithio'n agos â grwpiau dioddefwyr drwy ei fforwm rhanddeiliaid ac mewn prosiectau penodol i symleiddio'r broses o hawlio digollediad a'i gwneud yn fwy hygyrch i'r rheini sydd wedi dioddef o ganlyniad i droseddau treisgar.

# Cydraddoldeb

236. Mae'r Datganiad Cydraddoldeb sydd gyda'r ddogfen ymgynghori hon yn ystyried effeithiau'r cynigion ochr yn ochr â'r angen i:

- a. ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waharddwyd gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- b. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig benodol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; a
- c. meithrin cysylltiadau da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig benodol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

237. O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, y nodweddion gwarchoddedig yw hil, rhyw, oed, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, ailbennu rhywedd, priodas/partneriaeth sifil.

238. Nid ydym yn credu bod y cynigion a amlinellwyd ar gyfer y Cynllun yn rhai gwahaniaethol o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb. Nid ydym yn credu y bydd y cynigion hyn yn arwain at drin pobl yn llai ffafriol oherwydd unrhyw nodwedd warchoddedig.

## Cwestiwn

14. Beth yn eich barn chi fydd yr effeithiau o ran cydraddoldeb ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig o ganlyniad i bob un o'r opsiynau diwygio arfaethedig? Rhowch resymau.
15. Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir beth yw cwmpas a graddau'r effeithiau o ran cydraddoldeb o dan bob un o'r cynigion hyn a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad hwn? Rhowch resymau a darperwch dystiolaeth o ragor o effeithiau o ran cydraddoldeb fel y bo'n briodol.
16. A oes mathau o liniaru mewn perthynas â'r effeithiau o ran cydraddoldeb nad ydym wedi eu hystyried?

# Holiadur

Byddwn yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

## Adran 2: Cwmpas y Cynllun

### Cydsyniad

1. Yn eich barn chi, pa fath o iaith sydd fwyaf priodol i'w defnyddio yn y Cynllun i egluro'r ffordd o ymwneud â'r rheini sydd o dan yr oedran cydsynio cyfreithiol?

### Dioddefwyr terfysgaeth

2. A ydych yn cytuno â'n cynnig i ddeddfu i sefydlu cynllun digolledu newydd ar gyfer dioddefwyr terfysgaeth gartref ac mewn gwledydd tramor?
3. Os ydych, beth yw'ch barn am y ffyrdd y byddai cynllun digolledu penodedig yn gallu bod yn wahanol i'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol a'r Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth mewn Gwledydd Tramor?

### Lladdiadau mewn gwledydd tramor

4. Beth yw'ch barn am ddeddfu i sefydlu darpariaeth ar gyfer digolledu teuluoedd a gafodd brofedigaeth oherwydd lladdiad mewn gwlad dramor?

## Adran 3: Rheolau cymhwysra

### Rheol yr un to

5. A ydych yn cytuno â'n cynnig i ddileu'r rheol un to sy'n aros, sy'n gymwys i oedolion yn unig, o'r Cynllun?

## Adran 4: Dyfarndaliadau am anafiadau

### Anaf meddyliol

6. Beth yw'ch barn am newid y llinell derfyn o 2 i 3 blynedd?
7. Beth yw'ch barn am y cynnig i gyfuno bandiau A7 ac A9 a fyddai, ar y cyd â'r cynnig uchod, yn golygu bod pob anaf meddyliol sy'n analluogi lle mae prognosis ar gyfer ymadfer o fwy na 3 blynedd yn cael ei gynnwys yn yr un categori?

### Symleiddio'r tariff anafiadau

8. Beth yw'ch barn am y dulliau arfaethedig o drin Rhan A (rhowch resymau dros eich ymatebion):

- 1) Symleiddio'r iaith?
  - 2) Newid y termau am ddifrifoldeb anafiadau?
  - 3) Lleihau nifer y bandiau?
  - 4) Grwpio rhai anafiadau gyda'i gilydd, lle bo'n briodol?
  - 5) Newid y ffordd o ddisgrifio anafiadau i'r ymennydd?
9. Beth yw'ch barn am y dulliau arfaethedig o ddelio â Rhan B (rhowch resymau dros eich ymatebion):
- 1) Symud y dyfarndaliad am anaf angheuol
  - 2) Symleiddio disgrifiadau o anafiadau
  - 3) Dileu'r gwahaniaethu rhwng rhai o dan 18oed/oedolion heb alluedd meddyliol ac oedolion
  - 4) Cynyddu dyfarndaliadau am anaf meddyliol

### **Taliadau eraill**

10. Beth yw'ch barn am y newid arfaethedig yn y dyfarndaliad profedigaeth sydd ar gael o dan y Cynllun?
11. Beth yw'ch barn am y cynnig i newid y dull o ddarparu taliadau angladd o dan y Cynllun, drwy gyflwyno taliad sengl newydd o £4,500?
12. Beth yw'ch barn am y cynnig i newid y Cynllun o ran y modd y gellir gwneud taliad angladd sengl?
13. Beth yw'ch barn am gynigion i newid y ffordd y mae dioddefwyr yn cael mynediad at y Gronfa Galedi drwy un ai:
- a. Newid y llwybr atgyfeirio i ganiatáu i wasanaethau cymorth dioddefwyr lleol asesu cymhwysra a gwneud atgyfeiriadau mewn rhanbarthau lle nad yw Cymorth i Ddioddefwyr yn bresennol bellach; neu
  - b. Dileu'r mecanwaith atgyfeirio er mwyn caniatáu i ddioddefwyr wneud ceisiadau'n uniongyrchol i CICA?

### **Cydraddoldeb**

14. Beth yn eich barn chi fydd yr effeithiau o ran cydraddoldeb ar unigolion â nodweddion gwarchodedig o ganlyniad i bob un o'r opsiynau diwygio arfaethedig? Rhowch resymau.
15. Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir beth yw cwmpas a graddau'r effeithiau o ran cydraddoldeb o dan bob un o'r cynigion hyn a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad hwn? Rhowch resymau a darperwch dystiolaeth o ragor o effeithiau o ran cydraddoldeb fel y bo'n briodol.
16. A oes mathau o liniaru mewn perthynas â'r effeithiau o ran cydraddoldeb nad ydym wedi eu hystyried?



## **Sylwadau eraill**

17. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach am y Cynllun?

**Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.**

# Amdanoch chi

Rhowch wybodaeth amdanoch chi yn yr adran hon

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl swydd</b> neu ymha gapasiti ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ayb.)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw'ch cwmni/sefydliad</b> (os yw'n gymwys):	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod post</b>	
Os byddech yn hoffi i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Cyfeiriad ar gyfer cydnabod derbyn yr ymateb, os yw'n wahanol i'r uchod	

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, nodwch enw'r grŵp a rhowch grynoded o'r bobl neu sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

---



---



---



---

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 9 Hydref 2020 i:

Vulnerability Policy Unit  
Family and Criminal Justice Policy Directorate  
Ministry of Justice  
7<sup>th</sup> Floor  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ

**E-bost:** [cics-review@justice.gov.uk](mailto:cics-review@justice.gov.uk)

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Copiau ychwanegol

Gellir cael copïau papur ychwanegol o'r ddogfen ymgynghori hon o'r cyfeiriad hwn ac mae ar gael hefyd ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Gellir gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill drwy anfon e-bost i: [cics-review@justice.gov.uk](mailto:cics-review@justice.gov.uk)

## Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur a fydd yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn Ionawr 2021. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

## Cyfrinachedd

Drwy ymateb i'r ymgynghoriad hwn, rydych yn cydnabod y bydd eich ymateb, ynghyd â'ch enw/hunaniaeth gorfforaethol yn cael eu cyhoeddi pan fydd yr Adran yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad yn unol â'r cyfundrefnau ar gyfer yr hawl i weld gwybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Mae Llywodraeth yn credu ei bod yn bwysig er mwyn tryloywder fod y cyhoedd yn gallu gweld pwy sydd wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth a beth yw eu barn. Yn ogystal â hyn, gall yr Adran ddewis peidio â thynnu'ch enw/manylion o'ch ymateb yn ddiweddarach, er enghraifft, os byddwch yn newid eich meddwl neu'n gofyn am gael eich 'anghofio' o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw/hunaniaeth gorfforaethol gael ei gyhoeddi fel hyn, yna fe'ch cynghorir i ddarparu ymateb mewn ffordd ddiennw (er enghraifft, 'perchennog busnes lleol', 'aelod o'r cyhoedd'). Fel arall, gallwch ddewis peidio ag ymateb.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/691383/Consultation\\_Principles\\_\\_1\\_\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1__.pdf)

# Atodiad A: Datganiad Cydraddoldeb

## Cyflwyniad

1. Mae'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (y Cynllun) yn darparu digollediad i bobl a gafodd anaf corfforol neu feddyliol am eu bod wedi dioddef o ganlyniad i drosedd treisgar yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban.
2. Cyhoeddwyd adolygiad o'r Cynllun ym Medi 2018 yn rhan o becyn mesurau ehangach yn y Strategaeth Dioddefwyr, a chyhoeddwyd y Cylch Gorchwyl yn Rhagfyr 2018. Mae'r adolygiad wedi ceisio sicrhau bod y Cynllun yn aros yn addas i'w ddiben, yn adlewyrchu natur newidiol troseddau treisgar, ac yn helpu dioddefwyr i ymadfer mewn ffordd effeithiol. Yn benodol, mae'r adolygiad wedi ystyried y diffiniad o drosedd treisgar i ddibenion digolledu, y rheolau cymhwysra presennol, a gwerth a chyfansoddiad y dyfardaliadau a thaliadau sydd ar gael.
3. Mae'r adolygiad o'r Cynllun wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol, sydd hefyd yn sail i'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad:
  - Mae digollediad yn cynnig cydnabyddiaeth bwysig i'r niwed a brofir gan ddioddefwyr troseddau treisgar;
  - Mae digollediad yn rhan bwysig o gymorth llywodraeth i ddioddefwyr troseddau treisgar, sydd hefyd yn cynnwys gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol, a chymorth emosiynol ac ymarferol;
  - Dylid diogelu digollediad ar gyfer y rheini sy'n profi'r effaith fwyaf difrifol o'u hanafiadau, yn cynnwys lle nad yw'r anafiadau hynny'n amlwg neu'n hawdd eu mesur o ran eu heffaith ar y pryd;
  - Mae'r Cynllun yn un sydd ar gael yn niffyg ffynonellau cymorth eraill, sy'n cynnig digollediad i ddioddefwyr troseddau treisgar nad ydynt wedi gallu ceisio digollediad drwy ffordd eraill; ac
  - Mae angen i'r Cynllun fod yn fforddiadwy ac yn ariannol gynaliadwy er mwyn parhau i ddarparu digollediad i ddioddefwyr troseddau treisgar.

## Crynodeb o'r cynigion polisi

4. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys y cynigion isod ar gyfer darparu digollediad, o dan y Cynllun presennol ac yn fwy cyffredinol. Mae'r cynigion yn cydweddu â'r themâu o wella symrlwydd, tryloywder a hwylustod defnyddio sy'n codi mewn sylwadau gan randdeiliaid, yn ein dadansoddiad o dystiolaeth, ac yn amcanion yr adolygiad:

**Trosedd treisgar – Newid termau mewn perthynas â chydsyniad mewn hawliadau ymosod rhywiol yn y Cynllun, er mwyn gwneud y ffordd o ymdrin ag achosion sy'n cynnwys plant dan yr oedran cydsynio cyfreithiol yn fwy clir:** Ar hyn o bryd, mae termau'r Cynllun yn cydnabod y gellir cael amgylchiadau, mewn nifer bach o

achosion, lle na fydd gweithgarwch rhywiol sy'n cynnwys pobl ifanc dan 16oed yn drosedd treisgar. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng y termau hyn a'r dull o drafod cydsyniad yng nghyfraith trosedd. Byddai'r cynnig hwn yn ceisio gwneud y dull o weithredu'n fwy clir drwy'r termau a ddefnyddir yn y Cynllun.

**Cymhwysra – Dileu rheol “yr un to” o'r Cynllun:** Ar hyn o bryd, ni ellir gwneud dyfarndaliadau os oedd yr ymgeisydd a'r ymosodwr, ar adeg digwyddiad a achosodd anaf, yn oedolion a oedd yn cyd-fyw a'u bod yn parhau i gyd-fyw. Roedd y rheol a oedd yn gymwys o 1964 i oedolion a phlant wedi cael ei dileu yn 2019 a byddai'r cynnig hwn yn dileu rheol yr un to o'r Cynllun yn gyfan gwbl.

**Tariff anafiadau – Newid darpariaethau ar gyfer anaf meddyliol sy'n analluogi drwy:** i) – symud y llinell derfyn rhwng bandiau sy'n darparu ar gyfer anaf sy'n para rhwng 28 wythnos a 5 mlynedd; a ii) – cyfuno'r bandiau sy'n darparu ar gyfer anafiadau tymor hwy nad ydynt yn barhaol: Byddai'r cynnig hwn yn sicrhau bod dull y Cynllun o ymdrin ag anafiadau meddyliol yn adlewyrchu arfer meddygol a dealltwriaeth o gymhlethdod a difrifoldeb anafiadau meddyliol.

**Tariff anafiadau – Ffyrdd o symleiddio Rhan A y tariff anafiadau:** i) – symleiddio'r iaith; ii) – lleihau nifer y bandiau anafiadau; iii) – grwpio anafiadau gyda'i gilydd lle bo'n briodol; iv) – newid y ffordd o ddisgrifio anafiadau i'r ymennydd: Mae'r cynnig hwn yn ceisio symleiddio Rhan A y tariff sy'n pennu dyfarndaliadau am anafiadau corfforol a meddyliol, o ran yr iaith a ddefnyddir a'i chynllun, i'w gwneud yn haws ei deall gan ddioddefwyr.

**Tariff anafiadau – Ffyrdd o symleiddio Rhan B y tariff anafiadau:** i) – symleiddio disgrifiadau o anafiadau; ii) – ymgynghori ar ddileu'r gwahaniaethu rhwng rhai dan 18oed/heb alluedd meddyliol ac oedolion mewn hawliadau am gam-drin corfforol a rhywiol; iii) – cynyddu dyfarndaliadau am anaf meddyliol sy'n analluogi'n barhaol i'w chysoni â Rhan A; iv) – symud y dyfarndaliad am anaf angheuol i brif gorff y Cynllun: Mae'r cynnig hwn yn ceisio symleiddio Rhan B y tariff sy'n cynnwys dyfarndaliadau am gam-drin rhywiol a chorfforol yn ogystal â thaliadau eraill, i'w gwneud yn symlach ac yn haws ei defnyddio gan ddioddefwyr.

**Taliadau mewn achosion angheuol – Cyflwyno taliad ar gyfradd sengl o £8,000 ar gyfer dyfarndaliadau profedigaeth:** Ar hyn o bryd, mae aelodau cymwys o deuluoedd yn gallu derbyn taliad profedigaeth o £11,000 os mai dim ond un perthynas cymwys sy'n hawlio, neu £5,500 yr un os bydd mwy nag un perthynas yn hawlio. Byddai'r cynnig yn arwain yn lle hynny at ddyfarnu taliad ar gyfradd safonol o £8,000 i bob perthynas cymwys sy'n hawlio, fel y byddai mwyafrif yr ymgeiswyr yn cael taliad mwy.

**Taliadau mewn achosion angheuol – Mabwysiadu taliad angladd sengl o £4,500 a diweddarau'r ddarpariaeth ar sut y gellir gwneud taliad:** Ar hyn o bryd, mae aelodau o deuluoedd mewn profedigaeth yn gallu hawlio taliad angladd sylfaenol lleiaf o £2,500, ynghyd â dyfarndaliad disgrisiynol ychwanegol am gostau pellach o hyd at £2,500. Y cynnig yw darparu yn lle hynny ar gyfer taliad cyfradd safonol o £4,500, sy'n fwy na'r

taliad angladd cyfartalog o dan y Cynllun presennol, a newid y ffordd y gellir gwneud taliadau: bydd hyn yn gwneud y broses ymgeisio'n symlach ac yn llai beichus.

**Cronfa Galedi – Newid y ffordd y mae ymgeiswyr yn gallu cael at y gronfa hon a sefydlwyd yn 2012 i ddarparu cymorth ariannol cyfyngedig i'r rheini a gafodd anafiadau nad ydynt yn dod o dan y Cynllun:** Ar hyn o bryd, yr elusen Cymorth i Ddiodefwyr yw'r unig sefydliad sy'n atgyfeirio ymgeiswyr at y Gronfa, ond, oherwydd newidiadau mewn gwasanaethau cymorth rhanbarthol, mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr yn ei chael yn anodd mynd at Cymorth i Ddiodefwyr i gael asesiad ac atgyfeiriad at y Gronfa. Byddai'r cynnig hwn yn sicrhau bod diodefwyr yn gallu cael at y Gronfa, beth bynnag yw'r sefyllfa o ran y gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt yn eu hardal.

**Terfysgaeth – Ystyried sefydlu cynllun digolledu ar wahân ar gyfer diodefwyr a anafwyd mewn ymosodiadau terfysgol domestig a thramor, yn lle'r ddarpariaeth bresennol yn y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol a'r Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth mewn Gwledydd Tramor:** Ar hyn o bryd, mae diodefwyr ymosodiadau terfysgol sy'n digwydd ym Mhrydain Fawr yn gallu gwneud cais i'r Cynllun, tra bydd diodefwyr ymosodiadau terfysgol cydnabyddedig mewn gwledydd tramor yn gallu gwneud cais i'r Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth mewn Gwledydd Tramor. Byddai'n bosibl cymryd camau penodol i hybu ymwybyddiaeth o gynllun digolledu ar wahân i ddiodefwyr terfysgaeth a byddai hyn yn sicrhau bod ceisiadau'n cael eu prosesu cyn gynted â phosibl ar ôl digwyddiad.

**Lladdiadau mewn gwledydd tramor – Ystyried sefydlu darpariaeth i ddigolledu teuluoedd a gafodd brofedigaeth o ganlyniad i laddiadau mewn gwledydd tramor:** Ar hyn o bryd, mae teuluoedd a gafodd brofedigaeth o ganlyniad i laddiadau mewn gwledydd tramor yn gallu cael rhywfaint o gymorth fel hwnnw gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a chan Wasanaethau Lladdiadau a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru a Lloegr ac yn yr Alban. Nid yw lladdiadau y tu allan i Brydain Fawr yn dod o dan y Cynllun, ond maent yn dod o dan y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth mewn Gwledydd Tramor os oeddent yn ganlyniad i ymosodiad terfysgol.

## **Tystiolaeth a dadansoddi**

*Data llwyth achosion y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (y Cynllun)*

5. Y data am y llwyth achosion a ddelir gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA) yw'r brif ffynhonnell data ar gyfer deall sut mae'r Cynllun yn gweithio ac amcangyfrif goblygiadau posibl y cynigion o ran cost. Mae'r set ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer ein hadolygiad o'r Cynllun yn cynnwys tua 75,000 o hawliadau a gafodd CICA dros dair blynedd (rhwng 1 Ionawr 2016 ac 1 Ionawr 2019). Mae'r hawliadau yn y set ddata yn gallu perthyn i unrhyw un o'r categorïau isod:

1. **Penderfynwyd** – Mae CICA wedi gwneud penderfyniad ar y cais, ond nid yw wedi'i gynnig eto i'r ymgeisydd;
2. **Wedi'i gynnig** – Mae CICA wedi gwneud penderfyniad ar y cais ac wedi'i gynnig i'r hawlydd, ond nid yw'r hawlydd wedi'i dderbyn neu ei wrthod eto;



3. **Cwblhawyd** – Mae CICA wedi gwneud penderfyniad ar y cais, mae wedi'i gynnig i'r hawlydd ac mae'r hawlydd wedi'i dderbyn.

6. Mae pob cofnod achos yn cynnwys gwybodaeth am oed, rhyw ac ethnigrwydd. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chyfuno â gwybodaeth am y math o drosedd, y math o anaf a'r dyfarndaliadau a wnaed er mwyn gallu dadansoddi mewn perthynas â'r tair nodwedd warchoddedig hynny.

#### *Cyfyngiadau data llwyth achosion y Cynllun*

7. Yr unig achosion sydd yn y set ddata yw'r rheini sydd yn y tri chategori a ddisgrifiwyd uchod, felly nid yw achosion sydd heb eu cwblhau wedi cael eu cynnwys mewn unrhyw ddadansoddiad. Mae peidio â chynnwys achosion sydd heb eu cwblhau yn creu risg: drwy ragdybio bod cyfansoddiad demograffig yr achosion sydd heb eu cwblhau yn debyg i'r achosion sydd wedi'u cwblhau, nid ydym yn rhoi cyfrif am unrhyw oedi systemig posibl wrth gwblhau achosion a gafwyd o grwpiau gwarchoddedig penodol. Os oedd oedi o'r fath yn digwydd, byddai'r data a ddadansoddwyd yn rhoi cyfrif rhy isel o'r hawliadau gan y grwpiau hynny a byddai hyn yn gallu ystumio rhai amcangyfrifon o'r effeithiau arnynt.

8. Nid yw'r data am lwyth achosion y Cynllun yn cynnwys gwybodaeth am nifer o nodweddion gwarchoddedig, felly ni allwn asesu sut byddai unrhyw newid mewn polisi wedi effeithio ar yr hawliadau yn ystod y cyfnod a nodwyd uchod mewn perthynas â'r canlynol:

- anabledd
- cyfeiriadedd rhywiol
- crefydd / cred
- beichiogrwydd / mamolaeth
- ailbennu rhywedd
- priodas / partneriaeth sifil.

9. Rhaid gosod cafeat ar unrhyw ystyriaeth i effeithiau, boed gadarnhaol neu negyddol, ar grwpiau'r nodweddion gwarchoddedig nad oes gennym ddata ar eu cyfer. Er nad yw cyfraddau a chategoriâu'r hawliadau a gafodd CICA wedi amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn yn y cyfnod dan sylw, ni allwn ragweld yn sicr y nodweddion demograffig a fydd gan hawlwyd a dioddefwyr troseddau treisgar yn y dyfodol. Nid yw'r set ddata ei hun yn hollol gyflawn ac mae'n bosibl y bydd rhai ffigurau'n newid.

#### **Nodau dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus**

10. Mae'r datganiad cydraddoldeb canlynol yn ymwneud â'r cynigion ar gyfer darparu digollediad sydd wedi'u hamlinellu uchod a dylid ei ddarllen mewn cysylltiad â'r Asesiad o Effaith perthnasol.

11. Mae Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion a'r Adran, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen am y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon a mathau eraill o ymddygiad sydd wedi'u gwahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (y rheini sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu); a
- Meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau (y rheini sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu).

12. Yn unol â'n cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, rydym wedi rhoi ystyriaeth yn gynnar i'r naw nodwedd warchoddedig:

- hil
- rhyw
- oed
- anabledd
- cyfeiriadedd rhywiol
- crefydd neu gred
- beichiogrwydd a mamolaeth
- ailbennu rhywedd
- priodas/partneriaeth sifil

13. O dan ein rhwymedigaethau statudol, bydd effaith y cynigion terfynol ar y naw nodwedd warchoddedig yn cael ei hystyried lle mae data ar gael. Yn yr ymgynghoriad, rydym yn gofyn y cwestiynau canlynol ar faterion cydraddoldeb:

- Beth yn eich barn chi fydd yr effeithiau o ran cydraddoldeb ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig o ganlyniad i bob un o'r opsiynau diwygio arfaethedig? Rhowch resymau.
- Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir beth yw cwmpas a graddau'r effeithiau o ran cydraddoldeb o dan bob un o'r cynigion hyn a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad hwn? Rhowch resymau a darperwch dystiolaeth o ragor o effeithiau o ran cydraddoldeb fel y bo'n briodol.
- A oes mathau o liniaru mewn perthynas â'r effeithiau o ran cydraddoldeb nad ydym wedi eu hystyried?

14. Rydym yn annog ymatebwyr yr ymgynghoriad i dynnu sylw at unrhyw faterion cydraddoldeb a nodi unrhyw ddata a thystiolaeth ychwanegol sydd ar gael. Bydd y dystiolaeth am gydraddoldeb a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad hwn yn cael ei hystyried wedyn wrth ddatblygu cynigion polisi terfynol.

### **Ystyriaethau o ran cydraddoldeb**

#### *Gwahaniaethu uniongyrchol*

15. Nid ydym yn credu bod y cynigion a amlinellwyd ar gyfer darparu digollediad, o dan y Cynllun presennol ac yn fwy cyffredinol, yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr y

Ddeddf Cydraddoldeb. Nid ydym yn credu y bydd y cynigion hyn yn arwain at drin pobl yn llai ffafriol o ganlyniad i unrhyw nodwedd warchoddedig.

#### *Gwahaniaethu anuniongyrchol*

16. Credwn y gall unigolion â rhai nodweddion gwarchoddedig gael eu heffeithio gan y cynigion ar gyfer y Cynllun ac ar gyfer darparu digollediad yn fwy cyffredinol am fod cyfran fwy ohonynt ar gyfartaledd ymysg dioddefwyr gwahanol fathau o droseddau treisgar. Nid ydym yn credu y bydd y cynigion yn achosi anfantais benodol i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, fel rydym yn egluro isod:

#### Newid mewn darpariaeth ar gyfer anafiadau meddyliol sy'n analluogi:

17. Mae set ddata llwyth achosion CICA yn dangos bod 59% o geisiadau ar gyfer anaf meddyliol yn cael eu gwneud gan ymgeiswyr benywaidd. Nid yw cyfansoddiad demograffig y ddau gategori hyn o ran ethnigrwydd ac amrediad oed yn annhebyg i'r darlun cyffredinol yn set ddata llwyth achosion CICA ond, yn yr un modd ag anafiadau meddyliol yn gyffredinol, mae cyfran fwy o ymgeiswyr benywaidd ar gyfartaledd yn y ddau fand ar gyfer anafiadau meddyliol tymor hwy nad ydynt yn barhaol, A7 ac A9, rydym yn cynnig eu cyfuno: 60% a 70% yn y drefn honno. Gan fod canran fwy o ymgeiswyr benywaidd yng nghategori A9 nag yn A7, mae hyn yn awgrymu y bydd mwy o fenywod ar gyfartaledd yn cael dyfarniad llai. Fodd bynnag, mae nifer yr ymgeiswyr ym mand A9 yn llai o lawer, ac mae hyn yn gwneud iawn am y diffyg cymesuredd hwn.

18. Gan mai menywod yw 60% o'r ymgeiswyr sy'n dod o dan fand A7 ar gyfer anaf meddyliol sy'n analluogi, bydd symud y llinell derfyn rhwng bandiau A4 ac A7 yn cael mwy o effaith ar fenywod. Fodd bynnag, nod y newid hwn yw symleiddio'r tariff er mwyn yr holl ddioddefwyr, a chredwn fod y cynnig hwn yn ffordd gymesur i gyflawni'r nod hwn.

#### Taliadau mewn achosion angheuol – Mabwysiadu taliad angladd sengl o £4,500:

19. Mae'r cynnig hwn yn debygol o gael mwy o effaith ar grwpiau crefyddol lle mae amlosgi wedi'i wahardd neu lle mae claddu'n cael ei ffafrio, fel Mwslimiaid ac Iddewon Uniongred. Gan fod cost gyfartalog claddedigaethau yn uwch o lawer na chost amlosgi, sef tua £5,000 o'i gymharu â £4,000,<sup>31</sup> byddai mabwysiadu taliad angladd ar gyfradd safonol yn gallu cael mwy o effaith ar y grwpiau crefyddol hyn. Lle byddai ymgeisydd wedi gallu cael hyd at £5,000 am gostau angladd o'r blaen, bydd dileu'r swm disgresiynol am gostau ychwanegol yn golygu bod rhai ymgeiswyr yn cael dyfarniad llai nag o'r blaen.

20. Yn ogystal â hyn, mae gwahaniaethau sylweddol rhwng rhanbarthau yng nghost angladd arferol.<sup>32</sup> Yng Nghymru a Lloegr, mae hyn yn amrywio o £3,816 yng Ngogledd-orllewin Lloegr i £5,963 yn Llundain. Er nad yw daearyddiaeth yn nodwedd warchoddedig benodol, mae dosbarthiad lleiafrifoedd crefyddol ar draws Cymru a Lloegr

<sup>31</sup> SunLife: Cost of Dying Report - 2020

<sup>32</sup> SunLife: Cost of Dying Report - 2020

yn awgrymu y bydd y rheini sy'n fwy niferus mewn canolfannau trefol a dinasoedd mawr yn profi effaith anghymesur o ganlyniad i'r newid arfaethedig. Er enghraifft, Llundain sydd â'r poblogaethau mwyaf o Fwslimiaid ac Iddewon o'i chymharu â rhanbarthau eraill ym Mhrydain Fawr.<sup>33</sup> Yn yr un modd, mae canolfannau trefol yn fwy tebygol o fod â chyfran fwy o bobl ifanc ac oed cyfartalog is yn gyffredinol, fel y gwelir mewn dinasoedd fel Rhydychen, Nottingham, Manceinion a Chaergrawnt.<sup>34</sup> Felly mae'r grwpiau hyn yn debygol o wynebu costau angladd uwch na fyddant yn dod o dan y gyfradd safonol arfaethedig. Fodd bynnag, am mai bwriad y cynnig hwn yw dod â budd i fwyaf yr ymgeiswyr drwy wneud y broses yn gyflymach a llai beichus, a dod â thaliadau angladd yn agosach at y costau cyfartalog am angladd, nid ydym yn credu y byddai'r newid hwn yn arwain at unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon.

Terfysgaeth – Ystyried sefydlu cynllun digolledu ar wahân ar gyfer dioddefwyr a anafwyd mewn ymosodiadau terfysgol domestig a thramor:

21. Er bod astudiaethau<sup>35</sup> yn dangos bod Mwslimiaid yn dioddef yn fwy ar gyfartaledd gan ymosodiadau terfysgol drwy'r byd, prin yw'r data sydd ar gael am nodweddion demograffig y rheini sy'n profi effaith terfysgaeth yn y DU. Yn hanesyddol, mae Gogledd Iwerddon wedi profi lefel uwch o lawer o weithgarwch terfysgol na thir mawr Prydain, ac roedd y rhan helaethaf o'r rheini a effeithiwyd yn bobl Wyn.
22. O'u cymharu â set ddata llwyth achosion y Cynllun, cafwyd mwy o geisiadau ar gyfartaledd mewn cysylltiad â digwyddiadau terfysgol domestig gan fenywod (70%) ac unigolion gwyn (73%). Yr amrediadau oedran mwyaf cyffredin yw 10-19 (25%) a'r "40au" (23%).
23. Mae'r set ddata am y llwyth achosion a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad yn un sy'n ymwneud â nifer cymharol fach o ddigwyddiadau mawr a gafwyd yn ystod y cyfnod dan sylw ac mae wedi'i siapio gan nodweddion demograffig a rhai a effeithiwyd. Mae 86% o'r holl hawliadau yn set ddata'r llwyth achosion sy'n ymwneud ag ymosodiadau terfysgol yn deillio o'r bomio yng nghyngerdd Ariana Grande yn Manchester Arena. Roedd 75% o'r ceisiadau a gafwyd i'r Cynllun o ganlyniad yn rhai gan fenywod a 60% gan bobl wyn, ac mae'r dosraniad oed yn awgrymu bod nifer mawr ohonynt yn gyngherddwyr benywaidd yn eu harddegau a oedd yng nghwmni eu mamau neu'n cael eu casglu ganddynt. Gellir gweld bod ymosodiad o faint yr un a gafwyd ym Manceinion yn un sy'n ystumio'r data, a dylid rhoi ystyriaeth bellach i hyn.

Lladdiadau mewn gwledydd tramor – Ystyried sefydlu darpariaeth ar gyfer digolledu teuluoedd a gafodd brofedigaeth o ganlyniad i laddiad mewn gwlad dramor:

24. Mae ymchwil gan y Cenhedloedd Unedig yn awgrymu, ar lefel fyd-eang, fod gwrywod yn 4 gwaith yn fwy tebygol na benywod o fod yn ddiodefwyr lladdiad. Mae'r ymchwil

<sup>33</sup> Religion in England and Wales 2011 (latest release) – Office for National Statistics

<sup>34</sup> Resolution Foundation 'Ageing, Fast and Slow' report - 2019

<sup>35</sup> Fel yr adroddiad yn 2011 gan American National Counter-Terrorism Center

hon yn dangos hefyd mai gwrywod 15-29 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf o laddiad ar lefel fyd-eang, ar gyfradd o 16.6 ym mhob 100,000 o wrywod, ac wedyn gwrywod 30-44 oed ar gyfradd ychydig is o 14.7 ym mhob 100,000. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae'r cyfraddau ar gyfer lladdiadau benywod yn is o lawer.<sup>36</sup>

25. Mae hyn yn awgrymu y byddai sefydlu cynllun newydd ar wahân i deuluoedd a gafodd brofedigaeth o ganlyniad i laddiad mewn gwlad dramor yn dod â'r budd mwyaf lle'r oedd y dioddefwr yn wryw, yn enwedig yn y grŵp oedran 15-29, gan mai'r grŵp hwn sydd fwyaf tebygol o brofi lladdiad. Fodd bynnag, gan fod y cynnig yn un am ystyried darparu ar gyfer grŵp lle mae'r cymorth gan y wladwriaeth yn gyfyngedig ar hyn o bryd, nid ydym yn credu y byddai'n arwain at unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon.
26. Mae'r ystyriaeth yn gyfyngedig i ddarparu ar gyfer lladdiadau mewn gwledydd tramor o dan gynllun newydd; ni fyddai'n cwmpasu mathau eraill o droseddau treisgar sy'n digwydd dramor. Mae hyn yn golygu na fyddai trais rhywiol sy'n digwydd dramor, sef math o droseddau y mae benywod yn llawer mwy tebygol o ddioddef o ganlyniad iddo, yn gymwys ar gyfer digolledu, fel y mae ar hyn bryd. Mae Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr wedi dangos bod menywod bedair gwaith yn fwy tebygol na dynion o fod wedi profi ymosodiad rhywiol yn y flwyddyn ddiwethaf, ar gyfradd o 3.4% o'i gymharu â 0.9%.<sup>37</sup>
27. Os gellid dangos bod pobl â'r nodweddion gwarchoddedig uchod yn cael eu rhoi o dan anfantais neilltuol gan y Cynllun, credwn ei bod yn ffordd gymesur i gyrraedd ein nod cyfreithlon o ddigolledu dioddefwyr troseddau.

### **Aflonyddu ac erledigaeth**

28. Nid ydym yn credu y bydd risg o aflonyddu neu erledigaeth o ganlyniad i'r cynigion polisi hyn.

### **Gwahaniaethu sy'n codi o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol**

29. Nid ydym yn credu y bydd y cynigion polisi hyn yn arwain at unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon ar sail anabledd. Parheir i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer hawl wyr ag anableddau yn unol ag arferion presennol yn y Cynllun.

### **Hyrwyddo cyfle cyfartal**

30. Credwn y gall y cynigion polisi hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer rhai nodweddion gwarchoddedig. Bydd dileu rheol yr un to yn delio â gwahaniaethu sy'n digwydd i raddau bach yn erbyn dioddefwyr a gafodd anaf troseddol gan rywun y maent yn cyd-fyw ag ef. Drwy ddileu'r rheol hon, mae'r newid hwn yn debygol o hyrwyddo cyfle cyfartal i

<sup>36</sup> Global Study on Homicide 2019, United Nations Office on Drugs and Crime

<sup>37</sup> Crime Survey of England and Wales, Office for National Statistics – Rhagfyr 2018

ddioddefwyr troseddau treisgar drwy ddileu'r anfantais a brofir gan hawlwyr sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio, sef menywod yn bennaf.

31. Yn yr un modd, mae'r cynnig ar gyfer y Gronfa Galedi yn ceisio dileu'r anawsterau a wynebwr gan rai wrth gael asesiad ac atgyfeiriad at y Gronfa drwy wasanaethau cymorth lleol.

### **Meithrin cysylltiadau da**

32. Rhoddwyd ystyriaeth i'r amcan hwn sydd wedi dangos ei fod yn annhebygol o fod yn neilltuol berthnasol i'r cynigion polisi.

### **Ystyriaeth ychwanegol i nodweddion gwarchoddedig ac effeithiau posibl y cynigion**

33. Mae tystiolaeth ar gael sy'n awgrymu bod troseddau'n effeithio'n anghyfartal ar y boblogaeth, a gall hyn fod yn arbennig o wir am droseddau treisgar. Mae'r diffyg cyfartalwch hwn yn cael ei adlewyrchu'n gyffredinol mewn ceisiadau i'r Cynllun ond, lle nad yw ymgeiswyr yn cynnig gwybodaeth am nodweddion gwarchoddedig, mae'n anodd asesu a oes grwpiau penodol sy'n llai tebygol o wneud ceisiadau.

### **Hil**

34. Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) wedi dangos, ar gyfer 2017/18, fod 14% o bobl sy'n 16 mlwydd oed ac yn hŷn yng Nghymru a Lloegr wedi dweud iddynt ddioddef o ganlyniad i droseddu o leiaf unwaith yn y 12 mis diwethaf – i lawr o 17% yn 2013/14. Mae'r gyfran honno'n uwch ar gyfer pob grŵp poblogaeth BAME – ac mae'n uchaf ar gyfer y grŵp cymysg, sef 22%.<sup>38</sup>
35. Mae'r gwahaniaethau yn y nodweddion demograffig ar gyfer ethnigrwydd yn set ddata llwyth achosion y Cynllun ac yn y set ddata ar gyfer y cyfan o Gymru a Lloegr<sup>39</sup> yn debyg gan mwyaf, heblaw bod cyfran yr hawlwyr gwyn yn is o lawer nag yn y boblogaeth gyffredinol (57% o'i gymharu ag 86%). Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan y gyfran fawr o ymgeiswyr sy'n nodi "arall" am eu hethnigrwydd neu'n peidio â darparu manylion mewn ceisiadau i'r Cynllun (36%). Os nad yw'r ymgeiswyr hynny'n wyn, yna gellid dangos bod y grŵp demograffig hwnnw'n cael mwy o anafiadau ar gyfartaledd o ganlyniad i droseddau treisgar a bod newidiadau yn y Cynllun yn cael effaith anghymesur arnynt.

### **Rhyw**

36. Mae data CSEW yn dangos bod dynion yn fwy tebygol na menywod o ddioddef gan droseddau treisgar (2.3% o ddynion o'i gymharu ag 1.2% o fenywod),<sup>40</sup> ac felly y gall newidiadau yn y Cynllun gael effaith anghymesur arnynt. Roedd hyn yn wir am bob math o drais, heblaw trais domestig.

<sup>38</sup> <https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/crime-justice-and-the-law/crime-and-reoffending/victims-of-crime/latest#main-facts-and-figures>

<sup>39</sup> <https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/uk-population-by-ethnicity/>

<sup>40</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019), The nature of violent crime in England and Wales: year ending March 2018

## Oed

37. Ar gyfartaledd, yn y cyfnod o dair blynedd rhwng 2014/15 a 2016/17, roedd pobl iau yn fwy tebygol na phobl hŷn o ddweud eu bod wedi dioddef o ganlyniad i droseddu.<sup>41</sup> Mae plant sy'n dioddef gan droseddau treisgar yn fwy tebygol o gael eu hanafu, ac roedd dioddefwyr 10 i 15 mlwydd oed wedi cael anaf mewn 92% o'r digwyddiadau yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2018 (CSEW).<sup>42</sup> Dim ond ychydig o ddata sydd ar gael am hyn, ac nid ydym yn rhagweld ei bod yn debygol y bydd y cynigion polisi hyn yn achosi anfantais i grwpiau oedran penodol.

## Penderfynu

38. Ein casgliad yw nad ydym yn credu bod y cynigion a amlinellwyd uchod yn debygol o arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Fodd bynnag, bydd effaith y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun ar y naw nodwedd warchoddedig yn parhau i gael ei monitro a'i hystyried yn fanwl lle mae data ar gael. Bydd ymatebion i gwestiynau am gydraddoldeb yn y papur ymgynghori yn cael eu hystyried hefyd.

<sup>41</sup> <https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/crime-justice-and-the-law/crime-and-reoffending/victims-of-crime/latest#main-facts-and-figures>

<sup>42</sup> ibid





CCS0720880010-001

978-1-5286-2080-2